# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Chwefror 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Hybrid

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(13.30)

**2 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth**

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 1 - 6)

Sam Rowlands AS, Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

Manon Huws, Gwasanaethau Cyfreithiol, Senedd Cymru

Jennifer Cottle, Gwasanaethau Cyfreithiol, Senedd Cymru

Gareth Rogers, Rheolwr y Bil, Senedd Cymru

Dr Dave Harvey, Staff Cymorth yr Aelod

Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 1 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 2 - Llythyr gan Sam Rowlands AS at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

**Egwyl**

(14.30 - 14.35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 - 14.40) (Tudalen 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.1 SL(6)449 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 - 14.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)447 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 8 - 10)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 4 - Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(14.45 - 14.50)

**5.1 SL(6)440 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 11 - 13)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-05-24 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 14 – 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-05-24 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.3 SL(6)444 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 21 – 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 – Papur 9 – Adroddiad

LJC(6)-05-24 – Papur 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(14.50 – 14.55)

**6.1 SL(6)435 – Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 25 – 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 – Papur 11 – Adroddiad

LJC(6)-05-24 – Papur 12 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.55 – 15.00)

**7.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwahardd Gwasanaethau) 2023**

(Tudalennau 32 – 34)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-05-24 – Papur 13 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 30 Ionawr 2024

LJC(6)-05-24 – Papur 14 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Weinidog yr Economi, 18 Ionawr 2024

## 8 Papurau i'w nodi

(15.00 – 15.05)

**8.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 35 – 42)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-05-24 – Papur 15 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 26 Ionawr 2024

**8.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 43 – 62)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-05-24 – Papur 16 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio, 26 Ionawr 2024

**8.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 63 – 68)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-05-24 – Papur 17 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid, 26 Ionawr 2024

**8.4 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru: crynodeb o'r ymatebion**

[System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad]

**8.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 69 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 18 - Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 30 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 19 - Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 26 Ionawr 2024

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.05)

## 10 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(15.05 - 15.15)

## 11 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Adroddiad drafft

(15.15 - 16.15) (Tudalennau 71 - 100)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 20 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 21 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024

LJC(6)-05-24 - Papur 22 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Ionawr 2024

LJC(6)-05-24 - Papur 23 - Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Rhagfyr 2023

## 12 SICM(6)4 - Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024

(16.15 - 16.25) (Tudalennau 101 - 103)

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

Rheoliadau [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 24 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 25 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 19 Ionawr 2024

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

(16.25 - 16.35) (Tudalennau 104 - 112)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 26 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 27 - Papur briffio gan yr RSPCA, 17 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

## 14 Cytundebau rhyngwladol

(16.35 - 16.45) (Tudalennau 113 - 123)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 28 - Briff gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

## 15 Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

(16.45 - 16.50) (Tudalennau 124 - 135)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 - Papur 29 - Llythyr drafft at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes [Saesneg yn unig]

LJC(6)-05-24 - Papur 30 - Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, 29 Ionawr 2024

LJC(6)-05-24 – Papur 31 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Busnes, 22 Rhagfyr 2023

## 16 Blaenraglen waith

(16.50 – 16.55) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-24 – Papur 32 – Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for North Wales
-
Aelod Senedd dros Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele, LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales



Jayne Bryant
Chair of Children, Young People and Education Committee
Senedd Cymru

23 January 2024

Dear Jayne,

**Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

I am writing with regard to the recent written evidence paper that was provided to the Committee by the Minister for Education and Welsh Language.

It is worth noting at the outset that I fully respect the Minister's entitlement to have a view on the Bill, and the purpose of me writing today is not to question the Minister's overall position on the Bill. However, I have read the Minister's paper in detail and there are, I believe, some factual inaccuracies or misrepresentations of what the intention of the Bill is and what it does.

I thought it would therefore be helpful to write to the Committee ahead of the session with the Minister to help clarify some of those issues, and to hopefully help the scrutiny process. I am, of course, attending CYPE Committee myself on 1 February, and would be happy to explore these areas further at that time.

**The need for legislation**

Consideration of whether the Bill is required to deliver its stated aims is a vital piece of the scrutiny process. Unfortunately, the Minister's assertions on whether there is a need for the Bill seems to miss the core aim of the Bill, which is to make the provision of residential outdoor education a statutory requirement.

The Minister states that ‘The Bill is unnecessary as schools already have the legal powers to provide residential outdoor education if they wish’. However, the Minister also concedes in the paper that ‘It is a matter for schools as to whether they chose to provide residential outdoor education (ROE) or not. There is nothing in legislation that prevents or requires it’.

As clearly set out in the Explanatory Memorandum (EM) that accompanies the Bill, the intention of the Bill is to move ROE away from being an enrichment to the curriculum, which is often viewed as a ‘nice to have’, to being an entitlement of the education offer. The effect of the Bill is to make ROE part of the curriculum and whether primary legislation is needed must focus on this, but this does not seem to be reflected in the Minister’s paper.

Furthermore, during the Minister’s oral evidence session with the Legislation, Justice and Constitution Committee on 22 January, a specific question was asked on whether the legislation was required. The Minister’s response was unclear. At the outset of the meeting he indicated that making ROE itself compulsory could be done using existing regulation making powers, whereas making it compulsory to offer the opportunity would require legislation. At the conclusion of the meeting, when asked if he believed there is a non-statutory means of delivering the objectives of the Member in charge, he stated “not on the compulsory side of things”. There appears to be a contradiction during the course of the Minister’s evidence in Committee and a lack of consistency with what is included in the evidence paper to CYPE Committee.

As this is such a fundamental question, it is vital that there is clarity on the Minister’s position here.

The Minister’s paper also questions the Bill’s approach as to whether pupils will be compelled to attend ROE. I know that there was some discussion of this in the LJC Committee regarding whether the Bill’s purpose is to require that an offer of ROE is made to pupils or to make it a requirement of the Curriculum for Wales. The Bill does both. Pupils will be entitled to ROE and schools must provide it as part of the curriculum. However, the Bill requires that the guidance the Welsh Government issues must provide that it is not compulsory for pupils to attend ROE, for example if they really do not want to do so or it is not in their best interests.

Section 42 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 and the associated regulations also assist in this area. I appreciate that the Minister referred to this as a “blunt instrument” so it may assist the Committee to have further information as to why the Minister makes this assessment of his own regulation making power. I

realise that cumulatively this provides pupils with a right to opt out from that aspect of the Curriculum for Wales and that may have caused some confusion but I believe the legal effect of this is clear.

**Placing a statutory duty on local authorities or the Minister?**

The Minister's paper, on several occasions, states that the intention of the Bill was to place a statutory duty on **local authorities** to ensure that young people receiving maintained education are provided with the opportunity to experience ROE. The paper states that because the Bill doesn't place any duties on local authorities (and instead places them on Welsh Ministers) it does not meet the purpose as set out in the EM.

I am particularly concerned that in making this assertion, the Minister has clearly based his thinking on the information contained in the original explanatory memorandum tabled at the start of the process (August 2022) and not on the Bill or the detailed Explanatory Memorandum introduced by me on 24 November 2023. At paragraph 6.3 of his paper, the Minister quotes from paragraph 3 of the EM upon introduction, which describes what my proposal was at the time of the 'leave to proceed' debate in October 2022. Upon reading the EM further, however, it would have been apparent that this changed as the Bill was developed, as I explain below.

When I entered the Ballot, my proposal had intended that the duties would be placed on local authorities. However, during the development of the Bill, and in designing the best method to deliver the main policy objectives, it was decided that the Bill should instead place a duty on the Welsh Ministers to '**ensure pupils in maintained schools are provided with residential outdoor education'** rather than on local authorities directly.

This change in how the policy objectives would be delivered is explained in the detailed EM that accompanies the Bill (see para 8 and para 117 as examples of where this is mentioned). In particular, footnote 140 on page 58 specifically explains the change in thinking. Footnote 140 states:

"Whilst not directly resulting from the consultation, a significant change to the proposals consulted is that the Bill places the duty on the Welsh Ministers to ensure pupils in maintained schools are provided with residential outdoor education rather than on local authorities as was originally set out in the consultation document. This was due to the level of detail that will need to be considered for the Bill's implementation."

Another concern is that paragraph 6.9 of the Minister's paper states that it is not appropriate to place a duty on the Welsh Ministers to provide residential outdoor education. Again, I believe this misreads / misrepresents the intention of the Bill, which actually places a duty on Welsh Ministers to **ensure it is provided**, not to provide it themselves. However, in paragraph 6.14 of the Minister's paper, there does seem to be an acknowledgement that the intention is for the Welsh Ministers to use their powers to facilitate other bodies to deliver ROE.

It is disappointing that the Minister does not seem to understand the important change in how the policy objectives are being delivered through the Bill (i.e. the deliberate intention to not place duties directly on local authorities). It is also concerning that the Minister has read the Bill as placing a duty on Welsh Ministers to deliver ROE, which it clearly does not do. To be clear, when the Welsh Ministers carry out their duty under the Bill, ROE would be included on the curriculum so at that point there would be a duty upon schools to provide ROE as part of the curriculum.

**Effectiveness of the Bill**

The Minister's paper makes a clear statement that the Bill is drafted in such a way that its legal effect is defective, but does not give any clear explanation as to why that is the case. If there are areas of the Bill that the Minister considers to be defective, it would be better for that to be clearly explained, so that those areas can be considered during the scrutiny process.

The paper also states that the amendments the Bill seeks to make to the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 are not appropriate as they do not fit with the legislative scheme or the principles of that Act. Again, there is no explanation of why that is considered to be the case.

**Guidance making powers**

The Minister states that he does not consider it appropriate to use the same guidance making power which is used to issue discretionary guidance on the Curriculum for Wales (section 71 of that Act) to put a duty on the Welsh Ministers to issue guidance on Residential Outdoor Education.

In drafting the Bill, this has been considered and my understanding is that there is no legal difficulty with the Bill including a power to issue guidance on some matters (i.e. Welsh Ministers may issue guidance), and a duty to issue guidance on other matters (i.e. Welsh Ministers must issue guidance). This is not an inconsistent approach, it is simply taking a different approach for different things.

As an additional point, paragraph 6.25 of the Minister's paper makes reference to the "4-day requirement" in the context of guidance. A previous draft of the Bill that was published for consultation included reference to the course of ROE being comprised of at least 4 nights and 5 days in guidance. However, the Bill as introduced makes the duration clear on the face of the Bill and does not refer to it as part of the guidance. I am particularly concerned that in making this reference, the Minister has clearly based his thinking on a previous draft of the Bill and not the Bill as introduced.

**Finance**

The paper from the Minister states that the Bill will add to the financial burden on schools and local authorities. What the paper seems to omit is that one of the key aims of the Bill, as set out in Section 2, is to provide for the Welsh Ministers to pay local authorities an amount sufficient to enable the functions relating to ROE to be carried out. The intention, therefore, is that there should not be any additional financial burden on schools or local authorities.

I fully acknowledge that there may be additional costs to be met from the Welsh Government budget. The Minister has raised this in the Plenary statement following the Bill's introduction on 29 November, in LJC Committee on 22 January, and in the written paper to CYPE Committee. The Minister has continually asserted that any additional costs arising from the Bill, would need to be taken from the existing Education and Welsh Language portfolio budget.

The Bill itself, while requiring Welsh Ministers to pay local authorities a sufficient amount, does not require that to come directly through the Education and Welsh Language portfolio budget. The absolute intention of the Bill is that there should be no cut to existing education budgets, as I fully appreciate the importance of maintaining those budgets to meet the current priorities.

There are other matters raised in the Minister's paper that I do not necessarily agree with, and would be happy to explore those further with the Committee. What I have set out above are, I believe, more crucial to the Committee's scrutiny, and I hope some of the clarification I have provided will help that scrutiny.

Yours sincerely

Sam Rowlands MS
**Member of the Welsh Parliament for North Wales**

Copied to:
Huw Irranca-Davies, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee
Peredur Owen Griffiths, Chair of the Finance Committee

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 05 Chwefror 2024

## SL(6)449 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024 yn pennu'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Maent yn adlewyrchu'r penderfyniad a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023 gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r lluosydd 5%, yn hytrach na defnyddio twf yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("CPI") sef 6.7%.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 23 Chwefror 2024

# SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("**Gorchymyn 2018**"), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Diben dynodiad o'r fath yw galluogi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio i gael ei chynnwys mewn cynnig Cyllideb gan y Senedd.

Effaith y Gorchymyn hwn, yn ôl ei Nodyn Esboniadol, yw dynodi 4 corff ychwanegol, newid enwau rhai cyrff dynodedig, a chynnwys y rhifau cwmni ar gyfer 10 corff a ddynodwyd yn flaenorol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Er bod y Nodyn Esboniadol yn nodi mai effaith y Gorchymyn hwn yw dynodi 4 corff ychwanegol, mae'n ymddangos ei fod yn dynodi'r 5 corff newydd a ganlyn:

1. Comisiynydd Plant Cymru;
2. FWC IFW Debt GP Limited;
3. FWC SWIF Debt GP Limited;
4. NE Commercial Property (GP) Limited; a
5. Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth egluro a yw'r cyrff uchod yn ddynodiadau ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddibenion adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn y testun Cymraeg, cyfeirir at y corff "Transport for Wales" fel "Trafnidiaeth Cymru", ac yna nodir yr un rhif cwmni ag a geir yn y testun Saesneg. Mae hyn yn wahanol i'r cyfeiriad yn yr Atodlen honno at "Transport for Wales Rail Ltd", y cyfeirir ato o dan yr enw Saesneg yn unig yn y testun Cymraeg ac yn y testun Saesneg, ac yna o dan yr un rhif cwmni.

Fodd bynnag, nid yw'r manylion a nodir ar gyfer "Transport for Wales" ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys enw Cymraeg ar gyfer y cwmni. Yn hyn o beth, nid yw'n ymddangos bod yr enw Cymraeg "Trafnidiaeth Cymru" wedi'i gofrestru'n ffurfiol gyda Thŷ'r Cwmnïau pan newidiwyd enw'r cwmni hwn ym mis Ebrill 2016, er mai dyna'r enw masnachu a ddefnyddir ar ei gyfer yn Gymraeg.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth gadarnhau a ddylai'r corff dynodedig fod wedi'i restru fel "Transport for Wales" yn nhestun Cymraeg yr Atodlen, yn yr un modd â "Transport for Wales Rail Ltd" (sydd hefyd ag enw Saesneg yn unig ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau), o ystyried mai dyma'r dull arferol o gyfeirio at enwau cwmnïau cofrestredig yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn yr Atodlen newydd i'r Gorchymyn hwn, mae'r rhestr o gyrff dynodedig yn cynnwys "Prif Arolygydd **Ei Mawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", ac mae'r troednodyn cysylltiedig yn nodi bod y cyfeiriad at y corff hwn i'w ddehongli fel "Prif Arolygydd **Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", oherwydd effaith adrannau 10 a 23 o Ddeddf Dehongli 1978.

Mewnosododd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 ("**Gorchymyn 2023**") gyfeiriad at "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yng Ngorchymyn 2018. Yn ei adroddiad ar Orchymyn 2023, mynegodd y Pwyllgor ei farn, yn dilyn marwolaeth Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines a'i holyniaeth gan y Brenin Charles III, ei bod yn ymddangos y dylid mewnosod "Prif Arolygydd

**Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn ei le. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedodd y Llywodraeth fod y cyfeiriad wedi'i "fewnosod yn gywir".

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ffurf "Ei Fawrhydi" wrth gyfeirio at y corff hwn wedi ei defnyddio ers hynny mewn deddfwriaeth Gymreig arall, yn benodol mewn rhestr o awdurdodau contractio yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac mewn cyfeiriadau eraill a geir yn Nodiadau Esboniadol O.S. 2024/27 (Cy. 10) ac O.S. 2023/919 (Cy. 144).

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth esbonio'r ffaith y parheir i gyfeirio at "Ei Mawrhydi" yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Ionawr 2024**

# SL(6)440 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol ('TTA') am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y berthynas yr hawl i olynu i'r denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl olynu yw bodloni'r TTA nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn man arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r berthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth yn awtomatig.

Mae'r Gorchymyn yn nodi ffigurau ar gyfer incymau amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amryfal weithgareddau ffermio ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn ystod y cyfnod perthnasol.

Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. Mae'r Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheolau Sefydlog 21.2(x): Ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth eu cyhoeddi neu wrth eu gosod gerbron y Senedd.**

Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r materion a ganlyn o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor hwn:

*"3. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1986 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn, unedau cynhyrchu o'r fath sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeng mis a bennir yn y gorchymyn. Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r*

*cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. O ystyried na all y TTA benderfynu ar achosion olyniaeth berthnasol heb y ffigurau perthnasol, rhaid cael Gorchymyn Unedau Cynhyrchu i gwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.*

4. *Yn hanesyddol, mae Gorchmynion Unedau Cynhyrchu bob amser yn cynnwys elfen ôl-weithredol oherwydd mae'n dibynnu ar bryd mae'r ystadegau sylfaenol ar gael gan DEFRA, ac yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu trin er mwyn llunio'r ffigurau perthnasol ar gyfer Cymru. Nid oedd y ffigurau hyn ar gael tan 13 Medi 2023. (Ychwanegwyd pwyslais).*

5. *Mae achosion sydd wedi symud ymlaen i'r TTA ers 12 Medi 2023 wedi'u gohirio tan i'r Gorchymyn gael ei wneud. Ar hyn o bryd mae chwe chais a fyddai'n cael eu heffeithio gan Orchymyn newydd.*

6. *Bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys yn ôl-weithredol rhwng 12 Medi 2023 a dyddiad dod i rym y Gorchymyn. Caniateir hyn yn benodol gan baragraff 4b o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 sy'n darparu y bydd y Gweinidog drwy orchymyn, am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir yn y gorchymyn, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw unedau cynhyrchu rhagnodedig y swm sydd i'w ystyried fel yr incwm blynyddol net o'r uned honno yn y cyfnod hwnnw."*

Mae’r Pwyllgor yn nodi bod sawl achos olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru i bob pwrpas wedi’u gohirio ers mis Medi 2023 gan eu bod wedi gorfod aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn hwn i ddatrys eu hawliadau. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru aros am y data perthnasol gan DEFRA cyn i’r Gorchymyn gael ei ddrafftio. Fodd bynnag, daeth y data hyn i law ar 13 Medi 2023. Nid yw’n glir pam mae pum mis arall wedi mynd heibio erbyn i’r Gorchymyn hwn ddod i rym, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid yw unigolion wedi gallu bwrw ymlaen â’u hachosion olyniaeth.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae'r Llywodraeth wedi nodi pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Fodd bynnag, ni wnaeth Defra ddarparu'r data o ran Lloegr, sy'n llywio datblygiad y ddeddfwriaeth, tan 13 Medi 2023. Yna, defnyddiodd swyddogion Llywodraeth Cymru y data hyn i lunio'r ffigurau Cymreig perthnasol, gan gwblhau'r broses hon ar 18 Hydref 2023. Cwblhawyd y broses hon ar 18 Hydref 2023. Yna, mae'n rhaid i'r Gorchymyn fynd drwy'r broses graffu gyfreithiol arferol a all gymryd hyd at 12 wythnos. Gwnaed y Gorchymyn ar 8 Ionawr ac fe'i gosodwyd ar 10 Ionawr 2024, cyn gynted ag y dychwelodd y Senedd ar ôl toriad y Nadolig.

Eitem 5.2

# SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)) ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sy'n nodi Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)) i estyn y cyfnod y mae gan bersonau a gyflogid yng Nghymru fel diffoddwyr tân wrth gefn fynediad i gynllun pensiwn ynddo.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i ganiatáu gwneud dyfarndaliadau mewn perthynas ag anaf a gafwyd tra bo person yn cyflawni dyletswyddau penodol heblaw ymladd tân o dan gyflogaeth eilaidd dros dro gyda'r un awdurdod tân ac achub. Yn yr achosion hynny, bydd unrhyw anaf yn cael ei drin fel pe bai yn anaf a gafwyd o dan brif gyflogaeth y person, ac o ganlyniad bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl o dan y brif gyflogaeth honno. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu, pan fo person yn cyflawni dyletswyddau o dan gyflogaeth eilaidd wrth gefn gyda'r un awdurdod tân ac achub, y caiff unrhyw anaf ei drin fel pe bai'n anaf a gafwyd o dan gyflogaeth reolaidd y person. Ystyr hwn yw y bydd dyfarndaliad yn seiliedig ar wasanaeth a thâl y person o dan y contract gwasanaeth rheolaidd hwnnw.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn erthygl 3(1) o'r Gorchymyn, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran y cyfeiriad at bennawd Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.

Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at *"the Firefighters' Pension Scheme"*, ac mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at *"Cynllun Pensiwn y Dynion Tân* ***1992****"* (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 1(2)(a), disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod *"yn y lle priodol"* yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, nid yw'r diffiniadau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Dylai'r ail ddiffiniad *"cyfnod cyflogaeth arbennig"* ymddangos cyn y diffiniad cyntaf *"cyfnod cyfyngedig estynedig"*.

Gallai hyn ddrysu'r cyfarwyddyd i fewnosod y diffiniadau yn y lle priodol yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn y testun Cymraeg.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(7) newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Yn y testun Saesneg, dywed *"Where the authority* ***do not*** *hold records of that person's pay for that period…"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg cyfatebol, cyfieithir y geiriau hynny fel *"Pan* ***oes*** *gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw…"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae hyn yn golygu bod gan destun y ddwy iaith ystyr gyferbyniol ac maent yn gwrth-ddweud ei gilydd.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 6(3), yn y rheol 5C(8) newydd, cyfeirir at *"diffoddwr tân* ***cymwys*** *rheolaidd amser-cyflawn"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Dyma'r unig achlysur y defnyddir *"diffoddwr tân* ***cymwys*** *rheolaidd"* (pwyslais wedi'i ychwanegu), yn hytrach na'r term diffiniedig *"diffoddwr tân rheolaidd"* (fel y'i diffinnir yng Nghynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)).

Mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'r term anniffiniedig hwn yn cael ei ddefnyddio'n fwriadol ac, os felly, pam nad yw'r term wedi'i ddiffinio at ddibenion Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru).

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, ym mharagraff 7(3), mae'r geiriau agoriadol yn datgan bod y diwygiadau dilynol sy'n dwyn y rhif fel paragraffau (a) i (c) yn cael eu gwneud. *"Yn rheol 16…"* (o Ran 12 o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru)). Fodd bynnag, ym mharagraff 7(4), gwneir diwygiad pellach i baragraff arall yn yr un rheol ond heb nodi bod y paragraff sydd i'w ddiwygio i'w gael hefyd yn rheol 16 o Ran 12.

Felly, mae strwythur y paragraff yn anghywir a dylai paragraff 7(4) fod wedi'i rifo fel paragraff (d) o baragraff 7(3) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Byddai angen addasu rhif yr is-baragraffau dilynol ym mharagraff 7 hefyd i ddilyn yr ailrifo hwn.

Mae gwall tebyg hefyd yn digwydd ym mharagraff 7(6) a (7) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn, lle dylai is-baragraff (7) fod wedi'i rifo fel paragraff 7(6)(d), gyda'r is-baragraffau dilynol wedi'u hailrifo i hwyluso'r cywiriad hwn.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, ym mhennawd paragraff 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "*Part 1*" ond yn y testun Cymraeg y cyfieithiad yw *"Atodlen 1"*.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r enw a ddefnyddir i gyfeirio at y cynllun pensiwn a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 yn anghyson yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

Enw cyfreithiol cywir y cynllun yw Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru), fel y'i hailenwyd gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004.

Fodd bynnag, i ddefnyddio enghreifftiau yn y testun Saesneg, yn Nodyn Esboniadol y Gorchymyn cyfeirir at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel *"the Firefighters' Pension Scheme (Wales) 1992*". Tra yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 o'r Gorchymyn, cyfeirir at y Cynllun fel *"the 1992 Firefighters' Pension Scheme*".

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymhleth ac yn dechnegol ei natur ac ystyrir bod defnyddio enwau gwahanol i gyfeirio at yr un cynllun pensiwn yn debygol o achosi dryswch i'r darllenydd.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn, ym mharagraff 2.1:

> *"Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi na chafodd Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) 1992 na Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 eu creu yn ddwyieithog, a dyna'r rheswm dros ffurf Gorchmynion 2024 sy'n diwygio'r gorchmynion cynharach hynny.* Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu na fyddai'n gymesur dirymu Gorchymyn 1992 na Gorchymyn 2007 a'u hail-wneud yn ddwyieithog."

Fel eglurhad (ar wahân i'r pwynt sylweddol a eglurir yn y Memorandwm Esboniadol), dylid nodi y dylai'r cyfeiriad uchod at *"Firefighters' Pension (Wales) Scheme Order 1992"* yn hytrach fod yn gyfeiriad at *"Firemen's Pension Scheme Order 1992"*, a wnaed yn uniaith. Fel yr eglurwyd, gwnaed Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn uniaith hefyd. Gwnaed Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn ddwyieithog.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 7.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg o ran y cyfeiriad mewn cromfachau at bennawd Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. Mae'r testun Saesneg yn gywir, a dylai'r testun Cymraeg yn hytrach ddarllen "*Cynllun Pensiwn y Dynion Tân*" heb yr "*1992*" ar ei ôl.

Gan mai'r cynllun penodol y cyfeirir ato yw'r un a nodir mewn Gorchymyn o 1992, ac y cyfeirir ato'n gyffredin fel "cynllun 1992", neu rywbeth tebyg, nid ydym o'r farn bod unrhyw bosibilrwydd o wahaniaeth mewn effaith gyfreithiol rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg nac o ddryswch yn sgil y gwahaniaeth.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y diffiniad o "*cyfnod cyfyngedig estynedig*" ("*extended limited period*"), ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn, yn dod o flaen y diffiniad o "*cyfnod cyflogaeth arbennig*" ("*special employment period*") ac nad yw'r rhestr felly yn nhrefn yr wyddor yn llwyr.

Fodd bynnag, go brin y bydd darllenydd yn drysu ynghylch lleoliad priodol y mewnosodiadau. Heblaw'r mater a nodir uchod, mae'r rhestr ym mharagraff 1(2)(a) fel arall yn nhrefn yr wyddor yn y testun Cymraeg; a chan gyfeirio at y testun Saesneg, byddai darllenydd yn gweld bod y rhestr gyfatebol yn y testun Saesneg hefyd yn nhrefn yr wyddor. At hynny, mae'r rhestr o ddiffiniadau yn rheol 2(1) o Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn nhrefn yr wyddor yn y testun Cymraeg. Rydym felly o'r farn ei bod yn gymharol glir y dylid mewnosod y diffiniadau newydd yn nhrefn yr wyddor.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod testun darpariaethau Cymraeg a Saesneg rheol newydd 5C(7) (a fewnosodir gan baragraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn) yn creu ystyron sy'n groes i'w gilydd. Mae'r testun Saesneg a nodir yn gywir, a dylai'r testun Cymraeg cyfatebol ddarllen "*Pan **nad** oes gan yr awdurdod gofnodion o dâl y person hwnnw am y cyfnod hwnnw*..." (pwyslais wedi ei ychwanegu).

Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio fel sy'n briodol pan fo'r cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y cyfeirir at "*diffoddwr tân **cymwys** rheolaidd amser-cyflawn*" (pwyslais wedi ei ychwanegu) ym mharagraff 6(3) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn, yn rheol newydd 5C(8), ond mewn lleoedd eraill y defnyddir y term "diffoddwr tân rheolaidd".

Mae'r term "diffoddwr tân rheolaidd" fel y'i diffinnir yng Nghynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn cwmpasu pobl sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwnnw, ar unrhyw radd. Bwriedir i "diffoddwr tân cymwys rheolaidd" gyfeirio at y radd "diffoddwr tân cymwys" a ddelir gan y sawl sy'n cyfateb i'r disgrifiad o "diffoddwr tân rheolaidd". Cyrhaeddir y radd "diffoddwr tân cymwys" pan fo diffoddwr tân dan hyfforddiant wedi cwblhau ei hyfforddiant rhagarweiniol ac wedi ennill lefel benodol o brofiad cychwynnol. Mae cyrraedd y radd honno hefyd yn rhoi'r hawl i ddiffoddwr tân gael cyfradd uwch o gyflog, a diben y ddarpariaeth hon yw ei gwneud yn ddiamau mai'r gyfradd honno o gyflog y dylid ei defnyddio i gyfrifo tâl pensiynadwy pan nad oes tystiolaeth bod cyfradd arall yn briodol. Defnyddir y term "diffoddwr tân cymwys" gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub yn y DU ac fe'i diffinnir yn y "Llyfr Llwyd" o delerau ac amodau safonol ar gyfer diffoddwyr tân y mae cyflogwyr ac undebau wedi cytuno arnynt ar lefel y DU. Mewn cyferbyniad, gellid ystyried bod y term "diffoddwr tân" yn golygu unrhyw un sydd ar y radd honno (gan gynnwys hyfforddeion a'r sawl sy'n datblygu), neu unrhyw un a gyflogir yn y maes diffodd tân ar unrhyw radd, a byddai'r ddau ohonynt yn aneglur yn y cyd-destun hwn.

Rydym yn cydnabod y gallai fod wedi bod yn gliriach i'r ddarpariaeth gyfeirio at "*dâl pensiynadwy diffoddwr tân rheolaidd amser-cyflawn **ar radd diffoddwr tân cymwys** a gyflogwyd mewn rôl debyg...* (pwyslais wedi ei ychwanegu) fel bod cysondeb wrth ddefnyddio'r term "diffoddwr tân rheolaidd". O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai angen diffinio "diffoddwr tân cymwys" gan fod y radd honno yn cael ei chymhwyso gan awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, wrth ystyried y cynllun ehangach a'r term a ddeellir yn gyffredin am y radd "diffoddwr tân cymwys", ystyriwn y byddai dehongliad rhesymol o'r ddarpariaeth hon yn ei ddarllen yn unol â'r bwriad a nodir yn y paragraff hwn.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw paragraff 7(4) na (7) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn nodi'n benodol ba reol a gaiff ei diwygio. Rydym yn cydnabod y gallai 7(4) a (7) yn lle hynny fod wedi bod yn 7(3)(d) a (6)(d), yn y drefn honno (ac felly dylai'r rhifo dilynol fod wedi bod yn wahanol).

Fodd bynnag, ystyriwn ei bod yn ddigon clir pa reolau y mae paragraff 7(4) a (7) yn eu diwygio wrth ddarllen y darpariaethau yn eu cyd-destun (rheol 16(5) a 18(8) yn y drefn honno).

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod gwahaniaeth rhwng testunau Cymraeg a Saesneg penawdau paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn. Mae'r cyfeiriad at "*Part 1*" yn y testun Saesneg yn gywir, a dylai'r cyfieithiad Cymraeg adlewyrchu hynny.

Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio fel sy'n briodol pan fo'r cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 7:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y disgrifiad o'r cynllun pensiwn a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y

Dynion Tân yn anghyson mewn nifer o leoedd yn y gwahanol destunau. Enw cywir y cynllun yw Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru).

Rydym yn cydnabod bod y cyfeiriadau at y cynllun hwnnw yn anghywir yn y Nodyn Esboniadol, ac y defnyddir term byrrach gwahanol yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 o'r Gorchymyn, ond nad yw'r cynllun wedi ei bennu'n anghywir fel arall yng nghorff y Gorchymyn.

Go brin y gallai hyn beri dryswch yn ein barn ni.

# SL(6)444 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd gael ei roi o dan adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 ("cyfarwyddyd adran 167A") sy'n gwahardd person rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru, neu sy'n cyfyngu ar allu person i wneud hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd adran 167A, yr amgylchiadau y caniateir i gyfarwyddyd adran 167A gael ei amrywio neu ei ddirymu odanynt a darpariaeth ynghylch apelau mewn cysylltiad â chyfarwyddydau adran 167A.

Caniateir i gyfarwyddydau adran 167A gael eu rhoi mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, sydd wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, neu sy'n ddarostyngedig i ganfyddiad perthnasol mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, neu sydd wedi ymgymryd ag ymddygiad perthnasol, os yw'r awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru) yn ystyried bod y person felly yn anaddas i gymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol (rheoliad 2). Mae adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu'r pwerau i'r "appropriate authority" i ddyroddi cyfarwyddyd. Ystyr "appropriate authority" ("awdurdod priodol") yw awdurdod cofrestru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall a ragnodir. Yr awdurdod cofrestru yw Gweinidogion Cymru ac felly yr awdurdod priodol at ddibenion y cyfarwyddyd adran 167A yw Gweinidogion Cymru.

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd adran 167A gael ei roi ac yn disgrifio'r hyn a olygir gan drosedd berthnasol, canfyddiad perthnasol, ac ymddygiad perthnasol at y diben hwn. Mae rheoliad 2 hefyd yn darparu bod cyfeiriadau at euogfarnau a rhybuddiadau yn cynnwys y rheini sydd wedi eu disbyddu ar yr amod bod gorchymyn wedi ei wneud sy'n eithrio gweithredu darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 sy'n gwahardd euogfarnau a rhybuddiadau sydd wedi eu disbyddu rhag cael eu defnyddio fel sail dros eithrio person o unrhyw swydd, proffesiwn, galwedigaeth neu gyflogaeth.

Cyn gwneud cyfarwyddyd adran 167A, rhaid i'r awdurdod priodol roi cyfle i'r person i gyflwyno sylwadau o ran pam na ddylid rhoi'r cyfarwyddyd a hysbysiad am y cyfle hwnnw (rheoliad 3). Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi'r hysbysiad a'r cyfnod y caniateir i sylwadau gael eu cyflwyno ynddo. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i hysbysu person y mae cyfarwyddyd adran 167A wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef.

Caiff yr awdurdod priodol amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd pan fo person yn ceisio ei gael wedi ei ddirymu ar un o'r seiliau a nodir yn rheoliad 5, neu pan na fo person yn ceisio ei gael

wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu, pan fo gwybodaeth newydd yn dod i law neu pan fo newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r person sy'n ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd, ar yr amod ym mhob achos fod yr awdurdod priodol yn ystyried ei bod yn briodol ei amrywio neu ei ddirymu (rheoliad 4).

O dan reoliad 5, caiff person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd adran 167A geisio ei gael wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu ar y sail bod yr euogfarn, y rhybuddiad neu'r canfyddiad o dan sylw wedi ei diddymu neu wedi ei ddiddymu, bod yr euogfarn neu'r rhybuddiad o dan sylw wedi ei disbyddu neu wedi ei ddisbyddu neu'n dod yn warchodedig, neu fod cyfnod o bum mlynedd wedi mynd heibio ers i'r canfyddiad o dan sylw gael ei wneud. Caiff person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd ar sail ymddygiad geisio ei gael wedi ei amrywio neu wedi ei ddirymu ar y sail bod gwybodaeth newydd wedi dod i law neu pan fo newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r person sy'n ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd.

Mae adran 167B(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau mewn cysylltiad â chyfarwyddydau adran 167A. Mae rheoliad 6 yn cynnwys cyfyngiad ar bŵer y Tribiwnlys Haen Gyntaf i ystyried apelau mewn perthynas â chyfarwyddydau adran 167A a roddir ar sail euogfarnau. Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer pwerau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar ganiatáu apêl mewn perthynas â chyfarwyddyd adran 167A. Pan fo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn ystyried nad yw'r penderfyniad i roi'r cyfarwyddyd, neu nad yw'r penderfyniad i beidio â'i amrywio neu ei ddirymu, yn briodol caiff orchymyn i'r awdurdod priodol amrywio neu ddirymu'r cyfarwyddyd.

Mae rheoliad 8 yn nodi'r amgylchiadau y bydd person sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 yn union cyn i adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 ddod i rym yn cael ei drin fel pe bai'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd adran 167A gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau i rym.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Chwefror 2024 a chânt eu gosod fel rhan o gyfres o reoliadau gyda Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Defnyddir y term "the appropriate authority" drwy gydol y Rheoliadau hyn, ond nid yw wedi'i ddiffinio ac ni roddwyd ystyr iddo. Nid yw'r ystyr a roddir gan ddiffiniad "the appropriate authority" yn adran 167A(6)(b) o Ddeddf Addysg 2002 ymhlyg yn y Rheoliadau hyn gan nad yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 (gweler *Drafftio Deddfau i Gymru*, 4.12). Yn ogystal, ni fydd yr ystyr a roddir i'r term yn y Nodyn Esboniadol ac yn nhroednodyn (1) ar dudalen 4 yn diffinio "the appropriate authority" at ddibenion y Rheoliadau hyn gan nad ydynt yn rhan weithredol o'r offeryn. Felly, dylai'r term "the appropriate authority" fod wedi cael ei ddiffinio yn rheoliad 1(2) oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio drwy'r Rheoliadau hyn i gyd.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cymhlethdod y Rheoliadau hyn, a'r anhawster posibl o ran eu dehongli a'u cymhwyso oherwydd eu cynnwys a natur y drafftio. O'r herwydd, rydym yn falch o nodi paragraff 62 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n datgan, "*Cyhoeddir canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol ochr yn ochr â'r Rheoliadau sy'n dod i rym yn gynnar yn 2024*."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt adrodd 1.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan Mewn Rheoli) (Cymru) 2024***

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi Adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cyfeirio at y diffiniad yn adran 167A(6)(b) o Ddeddf Addysg 2002. Bydd Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan Mewn Rheoli) (Cymru) 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt hwn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

# SL(6)435 – Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cefndir a Diben

Deddfwyd Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") i nodi'r wybodaeth benodol sydd i'w chynnwys yn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a phenawdau yr oedd yr wybodaeth ofynnol i'w chynnwys odanynt.

Mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Cod Rhan 8") a ddyroddwyd o dan Ran 8, adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r pŵer i ddyroddi codau. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

Caniateir diwygio'r Cod Rhan 8 sy'n rhoi'r cyfle i ddyroddi canllawiau newydd i awdurdodau lleol i'w helpu i lunio eu hadroddiadau blynyddol gan eu cysoni â'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023 yn diwygio Rheoliadau 2017 i ddiweddaru'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol a phenawdau y mae'r wybodaeth ofynnol i'w darparu odanynt. Bydd hyn yn cyd-fynd â gofynion y Cod Rhan 8 diwygiedig.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod hwn.

1. Ar ddechrau'r Cod, mae datganiad yn nodi bod y Cod hwn yn dirymu'r Cod Rhan 8 a ddyroddwyd yn ôl y testun Saesneg "in March 2016". Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'n nodi bod y Cod blaenorol wedi'i ddyroddi "ym **16** mis Mawrth 2016" sy'n cynnwys "16" ychwanegol ond nid yw'n gwneud synnwyr gramadegol. Felly, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg oherwydd yr "16" ychwanegol yn y cyfieithiad.

2. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn datgan bod y Cod a gyhoeddwyd wedi'i gyhoeddi gyntaf a'i ddiweddaru ddiwethaf ar 24 Mai 2019, felly mae rhywfaint o ddryswch wrth nodi fersiwn y Cod i'w ddirymu. Yn hyn o beth, y confensiwn yw cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol gan gynnwys y dyddiad cyhoeddi, y fersiwn a'r ISBN a fydd yn helpu i nodi cyhoeddiadau megis Cod.

3. Yn y rhaglith, ym mharagraff 1, diffinnir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel "y Ddeddf". Fodd bynnag, ym mharagraffau 2 a 3 o'r Cod, a phennawd Pennod 3 o'r Cod, nid yw'r diffiniad bob amser yn cael ei ddefnyddio ond caiff teitl y Ddeddf honno ei ailadrodd yn llawn.

4. Yn y testun Saesneg, mae teitl y Ddeddf yn anghywir ym mharagraff 1 gan y dylai fod cysylltnod yn sillafiad "Wellbeing". Yn nhestunau'r ddwy iaith, nodir teitl y Ddeddf yn anghywir hefyd yn y frawddeg gyntaf ym mharagraff 2 gan fod y flwyddyn "2014" ar goll (er y dylid defnyddio'r diffiniad ym mharagraff 2 ym mhob lle).

5. Ym mharagraff 4, ceir cyfeiriad at "adran 147" ond nid yw'n nodi lle y ceir y ddarpariaeth honno drwy gyfeirio yn unig at y gair 'Deddf' wedyn. Mewn lleoedd eraill, mae'r cyfeiriadau yn cynnwys y geiriau hynny neu deitl llawn Deddf yn y paragraff wrth nodi'r ddeddf benodol lle y ceir adran, e.e., "adran 8 **y Ddeddf**" ym mharagraff 15, ac "adran 27 **Deddf Plant 2004**" ym mharagraff 49.

6. Ym mharagraff 9, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "a code of practice **issued** under section 145 of the Act". Yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd "issued" fel "a gyflwynir" sy'n awgrymu ystyr "presented" neu "submitted" yn hytrach nag "issued". Yn flaenorol, yn y datganiad dirymu ar ddechrau'r Cod ac ym mharagraffau 1 a 6, defnyddiwyd y gair "gyhoeddwyd" neu amrywiad gramadegol "Cyhoeddir" i gyfieithu "issued" yn yr un cyd-destun sy'n cyfleu ystyr "issue" (fel y byddai "dyroddir" a ddefnyddir yn y Ddeddf). Felly, mae "a gyflwynir" fel y cyfieithwyd "issued" ym mharagraff 9 hefyd yn anghyson â'r hyn a geir yn y paragraffau cynharach hynny yn nhestun Cymraeg y Cod neu a geir yn y Ddeddf. Mae'r un broblem yn digwydd yn ddiweddarach ym mharagraffau 15, 41, 43, 52 a 82 o'r Cod mewn cyd-destunau tebyg.

7. Ym mharagraff 15 ac mewn lleoedd eraill yn y Cod, yn y testun Cymraeg, mae "role" wedi'i gyfieithu fel "swyddogaeth" wrth gyfeirio at "the role of the director of social

services". Fodd bynnag, mae "role" wedi'i gyfieithu'n flaenorol fel "rôl" yn nheitl y Cod hwn ac yn y Cod blaenorol ynghyd â'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig cysylltiedig ar gyfer y Cod hwnnw – OS 2016/414 (Cy. 132). Felly, mae'r dewis gair yn anghyson â'r hyn a geir yn nhestun Cymraeg teitlau'r Cod presennol a'r Codau blaenorol. Mae'n wir y gall "swyddogaeth" gyfleu ystyr "role" fel y nodir yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, ond fe'i defnyddir hefyd i gyfieithu "function(s)" yn nhestun Cymraeg y Cod. O ganlyniad, mae'n golygu ei bod yn fwy anodd gwahaniaethu rhwng "role" a "function" yn nhestun Cymraeg y Cod. O ganlyniad, mae'n ymddangos y byddai'n well defnyddio "rôl" i gyfieithu "role" yn y cyd-destun hwn yn y Cod.

8. Ym mharagraff 45(d), mae'r testun Saesneg yn nodi "experiencing abuse **<u>of</u>** neglect" ond yn y testun Cymraeg mae wedi'i gyfieithu i olygu "experiencing abuse **<u>or</u>** neglect". Felly, mae gwahaniaeth ystyr rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae drafftio darpariaethau eraill yn y testun Saesneg megis paragraff 45(c) yn awgrymu mai'r testun Cymraeg sy'n gywir.

9. Ym mharagraffau 81, 85 ac yn Atodiad 2, cyfieithwyd y term "well-being" fel "lles" yn y testun Cymraeg. Fodd bynnag, "llesiant" yw'r gair a ddefnyddir i gyfieithu "well-being" yn nhestun Cymraeg Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mewn lleoedd eraill yn y Cod hwn. Felly, mae'n anghyson â therminoleg y Ddeddf a gweddill y Cod. At hynny, mae hefyd yn gallu drysu darllenydd y testun Cymraeg gan fod "lles" wedi'i ddefnyddio i gyfieithu "welfare" mewn lleoedd eraill yn y Cod hwn megis y cofnodion yn Atodiad 1 o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984 a Deddf Plant 1989, ac yn Atodiad 2 yn y cofnod ar gyfer "Lles".

10. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf o dan "Deddfiad", nodir darpariaethau penodol o'r deddfiad neu defnyddir yr ymadrodd "Y Ddeddf gyfan". Fodd bynnag, yn y cofnodion ar gyfer "Deddf Mabwysiadu 1976" a "Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002" ni nodir unrhyw adrannau penodol ac ni ddefnyddir yr ymadrodd "Y Ddeddf gyfan", felly nid yw'n glir a geir y swyddogaethau yn y Deddfau cyfan hynny neu mewn unrhyw ddarpariaethau penodol ynddynt.

11. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf neu'r ail golofn, defnyddir yr ymadrodd "y Ddeddf" (neu amrywiad ar hynny) yn y cofnodion ar gyfer "Deddf Plant 1989", "Deddf Addysg 1996" a "Deddf Galluedd Meddyliol 2005" i gyfeirio yn ôl pob tebyg at y Deddfau penodol hynny. Fodd bynnag, diffiniwyd y term "y Ddeddf" yn flaenorol i olygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym mharagraff 1 o'r Cod hwn. Felly, gallai defnyddio'r ymadrodd "y Ddeddf" beri dryswch yn y cofnodion hyn yn Atodiad 1 gan ei fod eisoes yn derm diffiniedig ar gyfer Deddf wahanol.

12. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf, ceir cofnod ar gyfer "**<u>Y</u>** Ddeddf **<u>hon</u>**" y mae'n ymddangos ei bod yn cyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014. Fodd bynnag, diffiniwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eisoes fel "**y** Ddeddf" ym mharagraff 1 o'r Cod hwn. Felly, dylid defnyddio'r term diffiniedig "**Y** Ddeddf" yng ngholofn gyntaf y cofnod yn hytrach nag "**Y** Ddeddf **hon**". At hynny, defnyddiwyd "y Ddeddf hon" hefyd yn ail golofn y cofnod ar gyfer "Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984" wrth gyfeirio yn ôl pob tebyg at y Ddeddf honno yn hytrach nag at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ychwanegu at y dryswch.

13. Yn Atodiad 1, yn yr ail golofn ar gyfer y cofnod "Deddf Iechyd Meddwl 1983", mae gwahaniaeth bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "approved mental health **professionals**" ond nid oes gair i gyfateb i "professionals" yn y testun Cymraeg.

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi *"Mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Cod Rhan 8") a ddyroddwyd o dan Ran 8, adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r gofynion amrywiol ar gyfer yr adroddiad blynyddol."* Gall hyn beri dryswch i'r darllenydd gan fod adran 145 o Ddeddf 2014 yn nodi'r pŵer i ddyroddi codau ac mai adran 144A o Ddeddf 2014 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am yr amser sydd wedi ei neilltuo i graffu ar y Cod Ymarfer drafft, a'r sylw a roddwyd i fanylion wrth wneud hynny.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y materion sydd wedi eu crybwyll. Fodd bynnag, cynigir gyda pharch mai mân faterion golygyddol yw'r rhain ac, er eu bod yn faterion i'w cywiro, nad ydynt yn newid gweithrediad y Cod na'i effaith. Yn wir, mae'r materion sydd wedi eu crybwyll mewn perthynas â'r Cod drafft i gyd yn ymwneud â thestun a fu ar goedd ers i'r Cod Ymarfer blaenorol gael ei ddyroddi a'i ddwyn i rym yn 2016.

O ystyried y sylw hwn, mae'r Llywodraeth yn cynnig i'r Pwyllgor fod y Llywodraeth yn gwneud y cywiriadau golygyddol, fel y'u hamlinellir yn fanylach isod, cyn dyroddi'r Cod Ymarfer. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hwn yn ymateb pragmatig a chymesur a fydd yn sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi heb amhendantrwydd, nac oedi diangen.

**Pwyntiau craffu 1 a 2:**

Gosodwyd y Cod blaenorol gerbron y Senedd ar 28 Ionawr 2016 ac fe'i dyroddwyd ar 16 Mawrth 2016; nid oedd wedi ei ddiwygio wedi hynny. Bydd y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn cael eu diwygio i gynnwys y dyddiad dyroddi a'r ISBN.

**Pwynt craffu 3:**

Bydd y term diffiniedig "y Ddeddf" yn cael ei roi yn lle enw llawn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym mharagraffau 2 a 3 o'r Cod, ac ym mhennawd Pennod 3 o'r Cod. Bydd hyn yn gyfwerth â'r diwygiad i'r testun Saesneg.

**Pwynt craffu 4:**

Yn y testun Saesneg, ym mharagraff 1, bydd cysylltnod yn cael ei ychwanegu at y gair "wellbeing" sydd wedi ei sillafu'n anghywir yn enw'r Ddeddf. Yn y ddau destun, bydd y term diffiniedig "y Ddeddf" neu "the Act" yn cael ei ddefnyddio ym mrawddeg gyntaf paragraff 2 (gan gael ei roi yn lle enw llawn y Ddeddf a chywiro'r gwall sy'n ymwneud â hepgor "2014" o enw'r Ddeddf).

**Pwynt craffu 5:**

Ym mharagraff 4, yn dilyn y cyfeiriad at "adran 147", bydd y geiriau "o'r Ddeddf" yn cael eu hychwanegu er mwyn nodi ymhle y mae'r ddarpariaeth i'w chael.

**Pwynt craffu 6:**

Yn y testun Cymraeg, bydd "a ddyroddir o dan adran 145" yn cael ei roi yn lle "a gyflwynir dan adran 145". Bydd paragraffau 15, 41, 43, 52 a 82 yn cael eu cywiro mewn cyd-destun tebyg.

**Pwynt craffu 7:**

Ym mharagraff 15 ac mewn mannau eraill yn y Cod, yn y testun Cymraeg, bydd "rôl" yn cael ei ddefnyddio i gyfieithu "role" wrth gyfeirio at "the role of the director of social services", er mwyn bod yn gyson ag enw'r Cod a'r Cod blaenorol, ynghyd â'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig ar gyfer y Cod hwnnw.

**Pwynt craffu 8:**

Ym mharagraff 45(d) o'r testun Saesneg, bydd "experiencing abuse **or** neglect", sef yr hyn sy'n gyfwerth â'r testun Cymraeg, yn cael ei roi yn lle "experiencing abuse **of** neglect".

**Pwynt craffu 9:**

Ym mharagraffau 81 a 85 ac yn Atodiad 2, bydd "llesiant" yn cael ei ddefnyddio i gyfieithu'r term "well-being".

**Pwynt craffu 10:**

Nid yw Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a atgynhyrchir yn Atodiad 1 i'r Cod, yn nodi unrhyw adrannau penodol nac yn defnyddio'r ymadrodd "Y Ddeddf gyfan" yn y cofnodion ar gyfer "Deddf Mabwysiadu 1976" a "Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002".

**Pwynt craffu 11:**

Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf neu'r ail golofn:

1. Yn y cofnod ar gyfer "Deddf Plant 1989", bydd term a ddiffinnir o'r newydd, sef "**Deddf 1989**", yn cael ei roi yn lle "y Ddeddf" (sef y term diffiniedig a ddefnyddir yn y Cod ar hyn o bryd ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) er mwyn osgoi unrhyw amwysedd o ran y Ddeddf y cyfeirir ati yn y darn hwn; h.y. drwy roi "Deddf 1989 yn ei chyfanrwydd" yn lle "Y Ddeddf gyfan", a rhoi "o fewn ystyr Deddf 1989" yn lle "o fewn ystyr y Ddeddf honno".

2. Yn yr un modd, yn y cofnod ar gyfer "Deddf Addysg 1996", bydd term a ddiffinnir o'r newydd, sef "**Deddf 1996**", yn cael ei roi yn lle "y Ddeddf" (neu amrywiad ar hynny).

3. Yn y cofnod ar gyfer "Deddf Galluedd Meddyliol 2005", bydd term a ddiffinnir o'r newydd, sef "**Deddf 2005**", yn cael ei roi yn lle "y Ddeddf" (neu amrywiad ar hynny).

Bydd y termau diffiniedig yn gyfwerth â'r rhai yn y testun Saesneg.

**Pwynt craffu 12:**

Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf, wrth gyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd "Y Ddeddf" yn cael ei roi yn lle "Y Ddeddf hon". Bydd hyn yn gyfwerth â'r diwygiad i'r testun Saesneg.

**Pwynt craffu 13:**

Yn Atodiad 1, yn yr ail golofn ar gyfer y cofnod "Deddf Iechyd Meddwl 1983", yn y testun Cymraeg, defnyddir "penodi **gweithwyr** iechyd meddwl sydd wedi'u cymeradwyo" i gyfieithu "approved mental health **professionals**". Nid oedd y gair "proffesiynol" wedi ei gynnwys yn y frawddeg o dan sylw gan ei fod wedi ei hepgor o fersiwn Gymraeg Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Sylwer y bydd "wedi eu" yn cael ei roi yn y Cod sydd i'w ddyroddi, yn lle'r ffurf dalfyredig "wedi'u" a ddefnyddir yn y Cod drafft, er mwyn iddo gyfateb i Ddeddf 2014 (yn y Gymraeg: "gweithwyr iechyd meddwl sydd **wedi eu** cymeradwyo"; yn y Saesneg: "approved mental health professionals").

**Pwynt craffu 14:**

Dyroddwyd y Cod Ymarfer o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'r Cod yn nodi'r gofynion amrywiol ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Barn Llywodraeth Cymru yw mai risg fach iawn sydd o beri dryswch i'r darllenydd drwy ddefnyddio'r ymadrodd fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd ac, os bydd unrhyw ddryswch yn cael ei achosi mewn gwirionedd, mai goblygiad mân iawn fyddai'n deillio o hynny o gofio bod gofynion adran 144A wedi eu manylu yn adran 3 o'r Memorandwm Esboniadol.

Yn ogystal â'r newidiadau a wneir o ganlyniad i adroddiad y Pwyllgor, mae mân newidiadau dilynol wedi eu nodi a byddant hefyd yn cael eu cywiro wrth ddyroddi'r Cod. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Ym mharagraff 8, bydd "Rhagfyr 2023" yn cael ei roi yn lle "Chwefror 2016" er mwyn ei gwneud yn glir bod y tabl a geir yn Atodiad 1 wedi ei ddiweddaru ers dyroddi'r Cod blaenorol. Bydd hyn yn gyfwerth â'r cywiriad i'r testun Saesneg.

2. Ym mharagraff 13 o'r testun Cymraeg, bydd yr ail "cymdeithasol" yn cael ei ddiwygio i "cyhoeddus" (yng nghyd-destun "gwasanaethau cyhoeddus" yn hytrach na "gwasanaethau cymdeithasol"), er mwyn cyfateb i'r testun Saesneg.

Bydd cywiriadau o ran fformadu a theipograffeg hefyd yn cael eu cyflawni cyn cyhoeddi.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

E-bost: seneddDCC@senedd.cymru

30 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2024, ynghylch rhagor o wybodaeth am Reoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau Gwasanaethau) 2023.

Er bod y ddwy weinyddiaeth yn gwrthwynebu'r ymosodiad ar ddatganoli y mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ei gynrychioli, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gweithredu mewn modd gwahanol. Ni allaf ond wneud sylw ar y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn edrych ar bob cais fesul achos, gan roi caniatâd neu beidio yn seiliedig ar ei rinweddau. Yn yr achos hwn, cytunwyd nad oedd rheswm polisi i atal caniatâd ar gyfer maes a gadwyd yn ôl heb unrhyw effaith uniongyrchol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn cael ei hysbysu lle rydym yn bwriadu cydsynio i reoliadau.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

18 Ionawr 2024

Annwyl Vaughan

Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwahardd Gwasanaethau) 2023

Diolch am eich ymateb dyddiedig 19 Rhagfyr 2023 i fy llythyr dyddiedig 22 Medi 2022 mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod, a nododd fy Mhwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024. Er ein bod yn ddiolchgar am y wybodaeth a ddarparwyd gennych, byddem yn croesawu cael rhagor o fanylion mewn perthynas â rhai materion er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> *"Welsh Ministers consented to the instrument. However, consent from all Devolved Governments has not been provided within the period of one month beginning the day on which it was sought. In reliance on section 18(9) of UKIMA, the Secretary of State may make the instrument without that consent. As this instrument is made without the consent of these Governments, the Secretary of State has published an explanatory statement in accordance with section 18(10) of UKIMA."*

Yn ei datganiad esboniadol a wnaed ar 20 Gorffennaf 2023, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach, er nad oedd cydsyniad yr holl lywodraethau datganoledig wedi dod i law, ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau gan eu bod yn bwysig i sicrhau bod cwmpas cymhwyso'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Rhan 2 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn adlewyrchu'n well sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio ledled y DU ar hyn o bryd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- nodi natur unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban mewn perthynas â'r rheoliadau ac egluro, os gallwch, a wrthododd Llywodraeth yr Alban gydsyniad, neu na chyhoeddodd ymateb i gais yr Ysgrifennydd Gwladol;

- esbonio ymhellach benderfyniad Gweinidogion Cymru i gydsynio i'r offeryn, yng ngoleuni'r ffaith nad yw cydsyniad Llywodraeth yr Alban wedi dod i law Llywodraeth y DU, ac, os yw'n berthnasol, esbonio pam y daeth Gweinidogion Cymru i benderfyniad gwahanol;

- nodi a gawsoch unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am y Rheoliadau yn y 12 mis yn fras rhwng rhoi cydsyniad a gosod y Rheoliadau, ac os felly, natur y trafodaethau hynny.

Rwy'n cydnabod eich esboniad nad oedd digon o amser i ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd cyn gwneud y penderfyniad i gydsynio i'r offeryn hwn. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymrwymo i gynnal ymgysylltiad o'r fath yn y dyfodol yn absenoldeb unrhyw amgylchiadau esgusodol.

A fyddech cystal â darparu ymateb i'r llythyr hwn erbyn 24 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Alun Davies AS
Cadeirydd Dros Dro
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

26 Ionawr 2024

Annwyl Alun

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2024. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Gan y bydd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2, rwy'n rhag-weld y bydd gan nifer sylweddol o Aelodau ddiddordeb ynddo. Gyda hyn mewn golwg, rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgorau cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a phob Aelod o'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad | Ymateb |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o fewn dau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1. | **Derbyn**<br><br>Derbynnir yr argymhelliad hwn, a gweithredir arno drwy'r ymateb a nodir isod. |
| **Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyhoeddi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl yng Nghyfnod 1. | **Nodwyd**<br><br>Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cynnwys datganiad gennyf i, fel yr Aelod sy'n gyfrifol, bod y darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Un o'r profion cymhwysedd yw na ddylai'r darpariaethau fod yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. Mae'r datganiad hwn felly'n gadarnhad fy mod wedi fy modloni bod y darpariaethau yn y Bil yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. |
| **Argymhelliad 3.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor i roi manylion am yr amserlen i lunio a gweithredu ail-ddatganiad Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau) a chraffu arno, sy'n ofynnol ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026. | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor mewn perthynas â'r mater hwn maes o law. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau a fyddai'r mater a gedwir yn ôl mewn perthynas ag adran 25(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ei farn ef, yn atal ailddatgan y Bil ai peidio. | **Derbyn**<br><br>Mae'r cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol wedi'u cynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae paragraff 7(1) o Atodlen 7B yn darparu bod y darpariaethau yn Neddf 2006 wedi'u diogelu rhag eu haddasu gan ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau rhag y cyfyngiad hwnnw yn gymwys i adran 25(1)(a) o Ddeddf 2006 ac felly mae'n cael ei diogelu rhag ei haddasu yn ddarostyngedig i'r eithriadau cyffredinol rhag y cyfyngiadau.<br><br>Mae Rhan 2 o Atodlen 7B yn darparu ar gyfer eithriadau cyffredinol rhag y cyfyngiadau. Nid yw paragraff 13(1)(a) yn rhwystro Deddf gan y Senedd rhag ailddatgan y gyfraith (neu ei hailddatgan gyda'r cyfryw addasiadau nas rhwystrir gan Ran 1). |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, gweler ymhellach fy ymatebion i argymhellion 5 a 6. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno diwygiad i adran 4 o'r Bil at ddiben cydgrynhoi (ac yn amodol ar argymhelliad 4 ailddatgan) adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, o fewn ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. | **Gwrthod**<br><br>Gweler fy ymateb i argymhelliad 6. |
| **Argymhelliad 6.** Os na ellir cyflawni argymhelliad 5 oherwydd cyfyngiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, yn hytrach na'i fod yn ddewis drafftio, dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi esboniad manwl dros hyn. | **Derbyn**<br><br>Yn fy marn i, ni ddylid cydgrynhoi adran 25 ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ond yn hytrach dylai barhau i fod yn un o ddarpariaethau Deddf 2006. Darperir ar gyfer y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu Senedd Cymru yn Rhannau A1 ac 1 o Ddeddf 2006. Mae'r darpariaethau ar gyfer y Llywydd (a'r Dirprwy Lywydd) sydd wedi'u cynnwys yn adran 25 yn rhan annatod o'r fframwaith hwn. Mae nifer o gyfeiriadau a chroesgyfeiriadau at y deiliaid swyddi hyn a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau drwy gydol Deddf 2006.<br><br>Mae modd gwahaniaethu rhwng y dull a ddilynir yn adran 4 o'r Bil (Dirprwy Lywydd ychwanegol) a'r dull a ddilynir yn adrannau 8 (Etholiadau Cyffredinol) a 9 (Seddi gwag). Mae adran 8 o'r Bil yn disodli adrannau 6 i 9 o Ddeddf 2006 ac mae adran 9 yn rhoi adran 11 newydd yn lle'r un bresennol. Mae hyn yn adlewyrchu newid arfaethedig sylweddol i'r system etholiadol, a fydd yn newid o System Aelodau Cymysg i system rhestr gyfrannol gaeedig lawn. Mewn cyferbyniad, nid yw'r darpariaethau presennol sy'n llywodraethu'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, yn eu hanfod, yn cael eu heffeithio. Mae'r diwygiadau arfaethedig i adran 25 o Ddeddf 2006 wedi'u cyfyngu i ddarparu ar gyfer ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol a chanlyniadau'r digwyddiad hwnnw.<br><br>Er y derbynnir bod hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfres o ddiwygiadau i destun adran 25, mae effaith gyffredinol y diwygiadau hynny yn gyfyngedig fel y disgrifiwyd.<br><br>Ar ôl i adran 4 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ddod i rym, bydd adran 25 o Ddeddf 2006 yn darllen fel y'i diwygiwyd, fel y gwelir yn yr adran |

| | |
|---|---|
| | berthnasol o'r atodlen o ddiwygiadau sydd wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Ni fyddai disodli adran 25 o Ddeddf 2006 yn ei chyfanrwydd yn arwain at wahaniaeth arwyddocaol i'r defnyddiwr terfynol. Mae'n gwestiwn hefyd, o ran eglurder a hygyrchedd y gyfraith, a fyddai disodli'r adran yn ei chyfanrwydd yn fuddiol yn yr achos hwn, o ystyried bod y dull presennol yn darparu ar gyfer sicrhau bod y diwygiadau yn amlwg yn hynny o beth; gan gynrychioli ychwanegiad, yn hytrach na newid, i ddarpariaeth sefydledig.<br><br>Nid oes hepgoriadau i ddarpariaethau presennol adran 25 o Ddeddf 2006. |
| **Argymhelliad 7.** Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 5(b). | **Gwrthod**<br><br>Mae cynnwys y pŵer yn adran 5(b) yn darparu ar gyfer paratoi at y dyfodol, gan alluogi'r Llywodraeth i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i amgylchiadau, heb ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol, at ddiben cynyddu'r terfyn deddfwriaethol drwy ychwanegu un neu ddau Weinidog. Gallai hyn fod yn angenrheidiol yn sgil datganoli pwerau pellach, neu amgylchiadau eraill pan ystyrir bod cynnydd yn briodol. |
| **Argymhelliad 8.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ein sylwadau ar adran 7 o'r Bil a'i phriodoldeb cyfansoddiadol, ac ystyried a yw'n briodol cynnwys adran 7 yn y Bil. | **Gwrthod**<br><br>Pe bai'r Pwyllgor Busnes yn derbyn argymhelliad 42 o adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio, nid yw gwaith o'r fath yn anghydnaws ag adran 7 o'r Bil. Pe bai'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd tymor y Senedd hon, gallai'r seithfed Senedd wrthod y cynnig y darperir ar ei gyfer yn adran 7. Gweler hefyd fy ymateb manylach i argymhellion 41 a 42 o adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio, a'm hymateb i argymhelliad 9 isod. |
| **Argymhelliad 9.** Os bydd y Cwnsler Cyffredinol yn penderfynu cadw adran 7 yn y Bil, dylai ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil a nodi'n fanwl pam y mae'n gyfansoddiadol briodol i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Chweched Senedd basio deddfwriaeth a fyddai'n gosod dyletswyddau ar y Seithfed Senedd a'i Llywydd, gan dorri'r egwyddor, wrth wneud hynny, na ddylai Deddf Senedd | **Derbyn**<br><br>Yr unig ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan adran 7 yw i'r Llywydd gyflwyno cynnig o fewn amserlen benodol ar y mater o rannu swyddi. Nid yw'n ddigynsail i ddyletswyddau gael eu gosod ar Lywydd. Gellir gweld enghraifft o ddyletswydd o'r fath yn adran 110(3)(a)(b) o Ddeddf 2006 pan osodir dyletswydd ar y Llywydd i wneud penderfyniad ynghylch a yw Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y |

| | |
|---|---|
| gyfyngu ar ryddid Senedd yn y dyfodol i weithredu. | Senedd ai peidio, ac i ddatgan y penderfyniad hwnnw.<br><br>Yn unol â Rheol Sefydlog 12.22, caiff unrhyw Aelod newid y cynnig. Caniateir gwrthod y cynnig hefyd, gan arwain at beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>Ar y sail hon, ac o ystyried y rhyddid sydd gan y Senedd o hyd i benderfynu sut mae'n ymateb i unrhyw gynnig o'r fath, ni ystyrir bod y darpariaethau yn adran 7 yn cyfyngu ar ryddid Senedd yn y dyfodol i weithredu.<br><br>Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn glir yn ei argymhellion y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio'r heriau dichonoldeb a deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi ethol ar sail rhannu swyddi. Yn absenoldeb unrhyw ymrwymiad cyhoeddus clir gan y Senedd i ystyried y mater hwn yn fanwl ar draws ystod eang o swyddi, mae adran 7 o'r Bil yn darparu llwybr ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar adeg briodol yn y dyfodol.<br><br>Yn ôl y gofyn, rydym wedi anfon copi o'r ymateb hwn at yr holl Aelodau. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyfiawnhau pam y mae adran 49J newydd (i'w mewnosod gan Atodlen 2 i'r Bil) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (i'w hailenwi yn rhinwedd adran 11 o'r Bil) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau, i weithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (i'w ailenwi yn rhinwedd adran 12 o'r Bil) ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd a gynhelir ar ôl 1 Ebrill 2030, gael eu gosod o fewn chwe mis ac, yn unol â hynny, esbonio pam na ddewiswyd cyfnod 4 mis fel y'i defnyddir mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol y DU. | **Nodwyd**<br><br>Rwyf wedi derbyn argymhelliad 31 o adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio, a byddaf yn cyflwyno diwygiad i leihau'r cyfnod ar gyfer gwneud rheoliadau o 6 mis i 4 mis. |
| **Argymhelliad 11.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ein sylwadau ar briodoldeb cyfansoddiadol adran 19 o'r Bil ac ystyried a yw adran 19 yn ddarpariaeth briodol i'w chynnwys yn y Bil. | **Nodwyd**<br><br>Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ar adran 19. Gan fod y Bil yn deillio o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, mae'n briodol bod y Senedd yn gyfrifol am adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth. Mae adran 19 yn rhoi mecanwaith i'r Senedd nesaf ystyried hyn. Gweler fy ymateb manylach i argymhelliad 41 o adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 12.** Os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn penderfynu cadw adran 19, dylai ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac esbonio pam y mae'n credu na fyddai pwyllgor o'r Seithfed Senedd ar ei liwt ei hun mewn sefyllfa well i wneud gwaith craffu priodol ar ôl deddfu ac, wrth wneud hynny, benderfynu ei gylch gorchwyl a'i amserlen ei hun ar gyfer y gwaith hwnnw. | **Derbyn**<br><br>Fel yn achos adran 7, yr unig ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan adran 19 yw i'r Llywydd gyflwyno cynnig o fewn amserlen benodol ar y mater o adolygiad ôl-ddeddfwriaethol. Nid yw'n ddigynsail i ddyletswyddau gael eu gosod ar Lywydd. Gellir gweld enghraifft o ddyletswydd o'r fath yn adran 110(3)(a)(b) o Ddeddf 2006 pan osodir dyletswydd ar y Llywydd i wneud penderfyniad ynghylch a yw Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio, ac i ddatgan y penderfyniad hwnnw.<br><br>Yn unol â Rheol Sefydlog 12.22, caiff unrhyw Aelod newid y cynnig. Caniateir gwrthod y cynnig hefyd, gan arwain at beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>Ar y sail hon, ac o ystyried y rhyddid sydd gan y Senedd o hyd i benderfynu sut mae'n ymateb i unrhyw gynnig o'r fath, ni ystyrir bod y darpariaethau yn adran 19 yn cyfyngu ar ryddid Senedd yn y dyfodol i weithredu.<br><br>O ystyried natur y diwygiadau, mae'n bwysig cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol. Gan fod y Bil yn deillio o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gymeradwywyd gan y Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn dal o'r farn y byddai'n briodol i'r Senedd gael rôl arweiniol mewn unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth. |
| **Argymhelliad 13.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'n fanwl sut y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod elfennau democratiaeth iach wedi'u hymgorffori wrth baratoi a drafftio'r Bil. | **Derbyn**<br><br>Diben cyffredinol y Bil yw cryfhau democratiaeth Cymru, gan wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cynyddu capasiti'r Senedd o 60 i 96 o Aelodau, gan ei galluogi i wneud y canlynol yn fwy effeithiol:<br>    o dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, |

| | |
|---|---|
| | ◦ goruchwylio a gwella polisi, deddfwriaeth a gwariant, a chraffu ar y rhain, a<br>◦ chynrychioli a gwasanaethu pobl Cymru, ac ymateb iddynt.<br><br>• Cael gwared ar y system "cyntaf i'r felin," sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael ei ethol o restrau cyfrannol.<br><br>• Cynyddu pa mor aml y gall pleidleiswyr gael gwared ar fandad llywodraeth neu ei adnewyddu, drwy leihau hyd tymhorau'r Senedd o bump i bedair blynedd.<br><br>• Atal ymyrraeth wleidyddol mewn penderfyniadau am ffiniau etholaethau'r Senedd, drwy ddirprwyo'r cyfrifoldeb i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru sy'n gorff annibynnol, heb unrhyw gyfleoedd i naill ai Lywodraeth Cymru na'r Senedd eu diwygio.<br><br>• Sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cael eu hethol i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd yn preswylio yng Nghymru, sy'n golygu bod deddfwyr yn y Senedd yn ddarostyngedig i'r cyfreithiau hynny y maent yn eu gwneud. |
| **Argymhelliad 14.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac esbonio pam na wnaeth gynnwys mecanwaith i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad ac effaith y Bil hwn (os caiff ei ddeddfu a phan fydd hynny'n digwydd), yn debyg i ddarpariaethau a gynhwyswyd mewn deddfwriaeth flaenorol. | **Derbyn**<br><br>Fel yr wyf wedi nodi yn fy ymateb i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, mae'n bwysig nodi bod y Bil hwn yn deillio o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gymeradwywyd yn ddiweddarach gan y Senedd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn dal o'r farn y byddai'n briodol i'r Senedd gael rôl arweiniol mewn unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth, yn hytrach na Gweinidogion Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor y dylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd i ymateb i adroddiad gan y Senedd yn dilyn adolygiad o'r fath. Er y byddai Gweinidogion Cymru, fel rheol, yn ymateb i'r adroddiad - ac felly nid yw diwygiad o'r fath yn hollol angenrheidiol - byddaf yn anelu at gyflwyno diwygiad i'r perwyl hwn. |

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

26 Ionawr 2024

Annwyl David

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2024. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Gan y bydd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2, rwy'n rhag-weld y bydd gan nifer sylweddol o'r Aelodau ddiddordeb ynddo. Gyda hyn mewn golwg felly, rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgorau cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a phob Aelod o'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad | Ymateb |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ond, drwy gydol eu gwaith craffu parhaus ar y Bil, dylai Aelodau o'r Senedd roi sylw i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiad. ....... Tudalen 42 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol, er bod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r argymhelliad. |
| **Argymhelliad 2.** Os yw'r Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai Comisiwn y Senedd ysgrifennu atom cyn trafodion Cyfnod 2 i amlinellu beth fyddai'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon ariannol pe bai'r amcangyfrifon wedi'u seilio ar Benderfyniad 2023-24 yn hytrach na Phenderfyniad 202-23. Yna, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymgorffori'r amcangyfrifon hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a osodir ar ôl Cyfnod 2......... Tudalen 6 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Comisiwn y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma ond bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater ymhellach â Chomisiwn y Senedd ynghylch unrhyw oblygiadau o ran y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Argymhelliad 3** Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai Comisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth am unrhyw ryngweithio rhwng y cynigion ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (os caiff ei basio) a phrosiect swyddfeydd Bae Caerdydd 2032. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau'n effeithio ar gostau posibl prosiect 2032. Os nad yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o'r costau ar hyn o bryd, dylai Comisiwn y Senedd nodi yn ei ymateb pryd y gallai'r wybodaeth fod ar gael. Dylai Comisiwn y Senedd hefyd ymrwymo i roi diweddariadau i'r Senedd, ac i'r cyhoedd, ar y materion hyn. ......Tudalen 61 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Comisiwn y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 4** Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod y gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso unrhyw broses i ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol o dan adran 25(1A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil). ......Tudalen 67 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Busnes y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ddefnyddio'r pŵer yn adran 25(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i bennu mai'r teitlau a ddefnyddir yn | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Busnes y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |

| | |
|---|---|
| Saesneg ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fydd “Speaker” a “Deputy Speaker” yn y drefn honno......Tudalen 68 | |
| **Argymhelliad 6.** Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 5(b) o'r Bil (y pŵer i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru drwy reoliadau). ....... Tudalen 77 | **Gwrthod**<br><br>Mae cynnwys y pŵer yn adran 5(b) yn darparu ar gyfer paratoi at y dyfodol, gan alluogi'r Llywodraeth i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i amgylchiadau, heb ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol, er mwyn cynyddu'r terfyn deddfwriaethol drwy ychwanegu un neu ddau Weinidog. Gallai hyn fod yn angenrheidiol yn sgil datganoli pwerau pellach, neu amgylchiadau eraill pan ystyrir bod cynyddu'r terfyn yn briodol. |
| **Argymhelliad 7** Os nad yw’r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i’w mewnosod gan adran 5 o’r Bil) i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod wedi’u cymeradwyo gan uwchfwyafrif o Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd. ... Tudalen 77 | **Derbyn**<br><br>Yn gyffredinol, bydd cymhwyso uwchfwyafrif yn anghydnaws â bwriad is-ddeddfwriaeth i alluogi Llywodraeth i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i amgylchiadau.<br><br>Fodd bynnag, wrth ystyried yr argymhelliad hwn, rwy'n ystyriol bod gan y pŵer hwn effaith gyfatebol ar gapasiti'r Senedd. Am y rheswm hwn, byddaf yn llunio gwelliant i roi effaith i argymhelliad y Pwyllgor. O ganlyniad, mae derbyn yr argymhelliad hwn yn digwydd yn sgil natur benodol y Bil Cyfansoddiadol hwn a'r amgylchiadau cyfyng sy'n gysylltiedig â'r pŵer hwn. |
| **Argymhelliad 8** Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 6, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 51(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd i'w mewnosod gan adran 5 o'r Bil) i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru oni bai eu bod yn cynnwys darpariaeth machlud ynddynt sydd â’r effaith y daw’r rheoliadau i ben (a bod y terfyn a bennir mewn deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei ailosod) cyn bod y Prif Weinidog a enwebir gan y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol nesaf yn penodi unrhyw Weinidogion Cymru. ....... Tudalen 78 | **Gwrthod**<br><br>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried y potensial ar gyfer gwelliannau o'r math hwn. Fodd bynnag, mae'r broses hon wedi nodi y byddai gwelliannau o'r fath yn debygol o effeithio ar adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae adran 48 wedi'i diogelu rhag cael ei haddasu gan baragraff 7(1) yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O ganlyniad, nid wyf yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i roi effaith i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 9.** Yn ei ymateb i’n hadroddiad, dylai’r Aelod sy’n gyfrifol esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â lleihau hyd tymhorau | **Derbyn**<br><br>Yn dilyn codi'r cwestiwn ynghylch tymhorau llywodraeth leol ym Mhapur |

| | |
|---|---|
| llywodraeth leol ar yr un pryd ag y mae'n lleihau hyd tymhorau'r Senedd. Dylai ymateb yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar y pwynt hwn, a pha fecanweithiau deddfwriaethol y byddai eu hangen i wneud unrhyw newidiadau i hyd tymhorau llywodraeth leol.........Tudalen 93 | Gwyn Llywodraeth Cymru ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol yn 2022, lle'r oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid parhau â thymhorau pum mlynedd o hyd, pan gynigiwyd tymhorau pedair blynedd o hyd ar gyfer y Senedd, cafwyd trafodaethau ag arweinyddiaeth CLILC a oedd yn nodi bod llywodraeth leol yn dal i ffafrio parhau â thymhorau pum mlynedd o hyd.<br><br>Nodir hyd tymor ar gyfer aelodau etholedig lleol yn adran 26 (prif gynghorau) ac adran 35 (cynghorau tref a chymuned) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i'w newid. Er mwyn sicrhau y gellir symud etholiadau lleol i osgoi gwrthdaro ag etholiadau eraill, neu ar adegau pan fo argyfyngau cenedlaethol neu leol, mae gan Weinidogion Cymru bwerau, yn dilyn ymgynghori'n briodol, i newid dyddiad etholiadau cyffredin llywodraeth leol yn adran 37ZA o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.<br><br>Mae'r pwerau hyn wedi'u defnyddio yn flaenorol, er enghraifft, i symud yr etholiad cyffredin i ethol aelodau i Gyngor Ynys Môn o fis Mai 2012 i fis Mai 2013, a hefyd, cyn i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddiwygio Deddf 1972 i alluogi tymhorau pum mlynedd o hyd, symudwyd pob etholiad llywodraeth leol o fis Mai 2021 i fis Mai 2022 er mwyn osgoi gwrthdaro ag etholiadau'r Senedd. |
| **Argymhelliad 10** Heb oedi, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori ar leihau'r cyfnod o amser rhwng etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned o bum mlynedd i bedair blynedd, gyda golwg ar wneud y newid hwn oni bai bod tystiolaeth gref i'r gwrthwyneb........Tudalen 93 | **Gwrthod**<br><br>Fel y nodir yn yr ymateb i argymhelliad 9, ymgynghorwyd yn flaenorol ar hyd tymhorau llywodraeth leol yn rhan o'r Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol yn 2022. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd wedi ymgysylltu ag arweinwyr llywodraeth leol, sy'n fodlon bod y tymhorau presennol pum mlynedd o hyd yn parhau'n briodol ar gyfer llywodraeth leol. |

| | |
|---|---|
| | Mae llywodraeth leol yn cynnwys cynghorau tref a chymuned ac mae gweithgor annibynnol yn adolygu eu hiechyd democrataidd ar hyn o bryd. |
| **Argymhelliad 11** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn ymgynghoriad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ymgymryd â gwaith pellach i amcangyfrif goblygiadau cost adran 3 (etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml) ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2..........Tudalen 93 | **Derbyn** |
| **Argymhelliad 12** Dylai Comisiwn y Senedd, fel rhan o'i Raglen i Ddiwygio'r Senedd, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r prosesau ar gyfer ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan y Senedd (neu a arweinir gan Gomisiwn y Senedd) i gyfrif am gylchoedd etholiadol amlach.........Tudalen 94 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Comisiwn y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 13**. Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu pa ystyriaeth a roddwyd i hyd y tymhorau ar gyfer penodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r bwriad i newid i dymhorau Senedd pedair blynedd, yn benodol y rhai y mae cytundeb y caiff y Senedd gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar eu cyfer......Tudalen 94 | **Derbyn**<br><br>Yn sgil y cynnig i symud i dymhorau pedair blynedd o hyd ar gyfer y Senedd, mae hyd tymhorau penodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru wedi'u hystyried. Nid oes unrhyw oblygiadau deddfwriaethol wedi'u nodi o ganlyniad i'r ystyriaeth hon. Yn sgil y cynnig i symud i dymhorau pedair blynedd o hyd ar gyfer y Senedd, mae unrhyw oblygiadau ymarferol sy'n codi o ran penodiadau cyhoeddus unigol yn parhau i gael eu hystyried. |
| **Argymhelliad 14** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd i ddod i gytundeb ar sut y gellid diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y system etholiadol yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ac yn sicrhau bod Aelodau'r dyfodol yn fwy atebol i'w hetholwyr. .......Tudalen 127 | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n nodi argymhelliad y Pwyllgor; fodd bynnag, rwy'n parhau i fod yn hyderus y bydd cynigion y Bil, sydd, i bob pwrpas, yn rhoi effaith i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, yn sicrhau'r uwchfwyafrif angenrheidiol yn y Senedd. Rwyf hefyd yn nodi argymhellion 15 a 50 y Pwyllgor mewn perthynas â'r papur pleidleisio a'r prosesau adalw, a fyddai'n |

| | |
|---|---|
| | cyfrannu rhywfaint at sicrhau llais cryfach i bleidleiswyr a gwella atebolrwydd Aelodau i'w hetholwyr. |
| **Argymhelliad 15** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i bapurau pleidleisio gynnwys enwau pob ymgeisydd, gan gynnwys enwau ymgeiswyr sy'n sefyll ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestedig...... Tudalen 128 | **Derbyn**<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn Ymddygiad[1] yn ei gwneud yn ofynnol i'r papur pleidleisio o ran rhestrau pleidiau mewn etholiadau rhanbarthol nodi enwau ymgeiswyr ar restrau pleidiau, yn ogystal ag enwau ymgeiswyr unigol. Y bwriad yw y bydd y Gorchymyn Ymddygiad newydd yn parhau i osod y gofyniad hwn mewn perthynas â rhestrau pleidiau a gyflwynir mewn etholaethau yn rhan o'r drefn newydd. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bydd gofyniad ar wyneb y Bil i sicrhau bod enwau'r holl ymgeiswyr ar y papur pleidleisio yn rhoi sicrwydd i'r Aelodau a'r etholwyr ar y pwynt hwn, a bydd swyddogion yn bwrw ati i lunio gwelliannau i'r perwyl hwn. |
| **Argymhelliad 16.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi llenwi'r holl seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau, gan gynnwys seddi gwag sy'n cael eu gadael gan Aelodau a etholwyd fel rhai annibynnol, neu gan Aelodau a etholwyd i gynrychioli pleidiau nad yw eu rhestrau ymgeiswyr yn cynnwys rhagor o ymgeiswyr cymwys neu ymgeiswyr sy'n fodlon gwasanaethu. ....... Tudalen 128 | **Gwrthod**<br><br>Mae'r amlder y mae seddi'r Senedd yn dod yn wag o dan unrhyw amgylchiadau yn gymharol brin. Byddai cymhwyso'r gyfradd o seddi gwag a welwyd rhwng y pum Senedd gyntaf a'r Senedd sydd â 96 o Aelodau - sy'n eistedd am bedair blynedd - yn awgrymu y byddai 4 i 5 sedd wag y tymor.<br><br>Hyd yma, nid oes yr un sedd ranbarthol sydd wedi dod yn wag wedi aros felly. Mae pob sedd wag wedi'i llenwi gan ymgeisydd sydd ar restr plaid. Mae caniatáu i wyth ymgeisydd fod ar restr plaid yn caniatáu i ymgeiswyr na chânt eu hethol yn ffurfiol mewn etholiad cyffredinol lenwi seddi gwag a allai godi.<br><br>Mewn sefyllfa annhebygol o restr plaid wedi'i disbyddu, ystyrir mai cadw seddi gwag yw'r ateb mwyaf priodol, gan y bydd hyn yn cadw'r cydbwysedd o ran cynrychiolaeth yn yr etholiad diwethaf yn |

[1] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

| | |
|---|---|
| | agosach, ac felly'n parhau i gynrychioli bwriadau'r pleidleiswyr yn yr etholiad hwnnw orau.<br><br>Mae nifer o'r awdurdodaethau y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt wrth ystyried y mater hwn yn cadw seddi gwag pe bai rhestr plaid wedi'i disbyddu. |
| **Argymhelliad 17** Dylai'r Pwyllgor Busnes, fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, confensiynau neu arferion i liniaru'r effaith ar fusnes y Senedd, gan gynnwys y system bwyllgorau, naill ai yn sgil seddi gwag na ellir eu llenwi, neu newidiadau yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Senedd rhwng etholiadau cyffredinol. ....... Tudalen 128 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Busnes y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 18** Yn ei ymateb i'n adroddiad, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'n glir pwy fydd yn arwain, yn hyrwyddo ac yn cydlynu gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth lleol a chenedlaethol am y diwygiadau etholiadol, a'r system etholiadol newydd yn benodol........ Tudalen 129 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnull Bwrdd Cyflawni ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd gyda phartneriaid allweddol, a bydd ymwneud pellach ynghylch y pwynt hwn yn digwydd drwy'r fforwm hwnnw.<br><br>Mae gan nifer o sefydliadau gyfrifoldebau statudol yn hyn o beth, gan gynnwys Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol ac Awdurdodau Lleol. Yn ogystal, bydd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol rôl i'w chwarae os caiff Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ei basio gan y Senedd. Er ei bod yn bwysig parchu dyletswyddau a phwerau statudol unigol, mae dyhead cyffredin ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth cenedlaethol a lleol ynglŷn â diwygio etholiadol yn cael eu cynllunio a'u cydgysylltu'n effeithiol ac yn effeithlon. Nod hyn yw osgoi dyblygu gwaith a sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar ganlyniadau arfaethedig ymgyrchoedd o'r fath.<br><br>Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 19** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi sicrwydd i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth ariannol a'r cymorth a'r adnoddau eraill sydd eu hangen ar gyfer rhoi'r darpariaethau yn y Bil ar waith. ....... Tudalen 129 | **Derbyn**<br><br>Rwy'n hapus i roi'r sicrwydd hynny. Os cânt eu pasio gan y Senedd, bydd helpu'r broses o roi'r ddeddfwriaeth hon a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar waith yn llwyddiannus, yn flaenoriaeth dros nifer o flynyddoedd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol, gan gynnwys y Bwrdd Cyflawni ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ynglŷn â sut i gyflawni'r gwaith orau. |
| **Argymhelliad 20** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 4(1)(c) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 13 o'r Bil i leihau nifer aelodau (ac eithrio'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ddim mwy na phump.......Tudalen 146 | **Nodwyd**<br><br>Nid yn unig y mae'r cynnydd yn nifer uchaf y Comisiynwyr y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer yn adlewyrchu'r broses o drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygu ffiniau'r Senedd, sy'n swyddogaeth nad yw'n bodoli ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (drwy'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig).<br><br>Mae nifer uchaf y Comisiynwyr arfaethedig yn is, sef naw, na'r nifer uchaf cyfunol presennol o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (cyfanswm o ddeuddeg). Mae adroddiad y Pwyllgor yn cymharu nifer arfaethedig y Comisiynwyr â nifer Boundaries Scotland, sydd â llai o swyddogaethau i'r rhai a gynigir ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.<br><br>Fodd bynnag, byddaf yn cynnal trafodaethau pellach â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ganfod a fyddai gostwng nifer uchaf y Comisiynwyr yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 21**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol wneud rhagor o waith gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn:<br>▪ Sefydlu nifer y comisiynwyr ychwanegol sydd i'w recriwtio (gan gynnwys sgiliau, cyfrifoldebau ac amseriad penodol penodiadau o'r fath).<br>▪ Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amrywiaeth ddaearyddol comisiynwyr.<br>▪ Nodi unrhyw ofynion am gymorth ysgrifenyddol ychwanegol. ....... Tudalen 146 | **Derbyn**<br><br>Mae gwaith ar y materion hyn eisoes yn mynd rhagddo yn sgil sefydlu Bwrdd Prosiect Gweithredu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr ac Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac Aelodau o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â'r sefydliadau drwy gydol y broses o ddatblygu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig. |
| **Argymhelliad 22** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu ar wyneb y Bil bod rhaid i benodiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i rolau'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd, y comisiynwyr a'r prif weithredwr gael eu cynnal drwy'r broses penodiadau cyhoeddus......... Tudalen 146 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Gan y bydd argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cael eu rhoi ar waith yn syth, heb unrhyw rôl diwygio i Lywodraeth Cymru na'r Senedd, rwy'n cytuno ei bod yn hollbwysig penodi aelodau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn modd agored, diduedd a thryloyw, fel y darperir ar ei gyfer gan y broses penodiadau cyhoeddus. Fel y nodir yn adroddiad y Pwyllgor, mae penodiadau Comisiynwyr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eisoes yn cael eu gwneud drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ac yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynir yn newid hyn, felly byddaf yn ystyried ymhellach pa fesurau diogelu neu eglurhad pellach y gellir eu darparu.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi bod y Prif Weithredwr yn gyflogai i gorff corfforaethol y Comisiwn, ac felly caiff ei recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored, fel unrhyw Brif Weithredwr arall o Gorff Hyd Braich (yn hytrach na thrwy'r broses penodiadau cyhoeddus). |
| **Argymhelliad 23** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnwys personau eraill a gyflogir gan Lywodraeth Cymru neu bleidiau | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Byddaf yn mynd ati i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i'r argymhelliad hwn. |

| | |
|---|---|
| gwleidyddol, ac i sicrhau bod mesurau diogelu cadarn tebyg ar waith i atal gweithgarwch gwleidyddol tra byddant yn y swydd. ........Tudalen 147 | |
| **Argymhelliad 24** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a yw'r termau "aelod o staff Senedd Cymru" a "person a benodwyd i gynorthwyo Aelod o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau'r Aelod", sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 a gaiff ei hailenwi gan adrannau 14(1)(b), 14(2) ac 16(1)(b)(ii) o'r Bil, yn ddigon clir ac yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall. .......Tudalen 147 | **Derbyn**<br>Byddaf yn ystyried a yw'r termau'n ddigon clir a chyson â therminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaethau eraill. |
| **Argymhelliad 25** Fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried modelau priodol o atebolrwydd ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ran ei swyddogaethau mewn perthynas â ffiniau etholaethau'r Senedd, gan gynnwys y defnydd posibl o Bwyllgor y Llywydd. Dylai'r model atebolrwydd a roddir ar waith gynnwys yr opsiwn i un o bwyllgorau perthnasol y Senedd, os yw'n dymuno gwneud hynny, gynnal gwrandawiad cyn penodi fel rhan o'r prosesau ar gyfer penodi cadeirydd a phrif weithredwr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru........ Tudalen 148 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Busnes y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 26** Os bydd y Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ysgrifennu atom ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i'r cynnig egwyddorion cyffredinol gael ei dderbyn, yn nodi ei farn ar bob un o'r argymhellion ar gyfer newidiadau technegol i Atodlenni 1 a 2 a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig inni. Dylai'r llythyr hwn gynnwys, ar gyfer pob argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, eglurhad a yw'n cytuno â'r Comisiwn bod angen y newid ai peidio, y rhesymau dros ei farn, a chadarnhad ynghylch a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i roi effaith i'r argymhelliad ai peidio. .....Tudalen 173 | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor o fewn amserlen yr argymhelliad, gan nodi barn ar newidiadau technegol a awgrymir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig. |
| **Argymhelliad 27** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg wrth feithrin a chynnal |

| | |
|---|---|
| 2 i'r Bil, i ddarparu bod effaith ar y Gymraeg yn un o'r clymau lleol y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hystyried wrth bennu ffiniau etholaethau'r Senedd.........Tudalen 174 | cysylltiadau cymunedol, a'r effaith y gall ffiniau etholaethau ei chael ar y cymunedau hynny.<br><br>Byddaf yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r amcan hwn drwy'r cyfarwyddiadau deddfwriaethol y mae'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau.<br><br>Mae'n werth nodi, yn ystod adolygiadau llywodraeth leol blaenorol, fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi ystyried y Gymraeg fel agwedd ar glymau lleol, ac efallai y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn penderfynu gwneud hynny eto ar gyfer adolygiadau'r Senedd. Mae Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Cymru hefyd wedi datgan yn flaenorol mewn tystiolaeth i un o bwyllgorau Senedd y DU fod y Comisiwn yn ystyried y Gymraeg yn gwlwm cymunedol, wrth drafod clymau lleol. |
| **Argymhelliad 28** Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r amrywiant a ganiateir o ±10 y cant........Tudalen 174 | **Gwrthod**<br><br>Er bod adolygiadau ffiniau seneddol y DU bellach yn cymhwyso amrywiant statudol o 5% o gwota etholiadol y DU, nid yw hon yn rheol ers amser maith. Cyflwynwyd yr ystod etholyddiaeth statudol hon yn 2011, ac adolygiad Ffiniau Seneddol y DU yn 2023 oedd yr adolygiad cyntaf a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r ystod amrywiant hon.<br><br>O ran adolygiadau ffiniau ar gyfer Senedd yr Alban, dylai etholaethau fod "mor agos at y cwota etholiadol ag sy'n ymarferol," felly nid oes amrywiant rhifol ar waith.<br><br>Byddai cyflwyno amrywiant llai i ffwrdd o'r cwota etholiadol hefyd yn debygol o olygu mwy o newid yn ffiniau etholaethau'r Senedd rhwng etholiadau'r Senedd yn 2026 a 2030 a llai o hyblygrwydd i Gomisiwn Democratiaeth |

| | |
|---|---|
| | a Ffiniau Cymru ystyried ffactorau eraill yn rhan o'i adolygiadau.<br><br>Felly, ystyrir bod amrywiant o 10% yn briodol ar gyfer etholaethau amlaelod, gan ganiatáu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gydbwyso ffactorau ehangach ar y cyd â phwysigrwydd cynnal lefel o gynrychiolaeth gyfartal. |
| **Argymhelliad 29** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49C(3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i ddarparu y dylid cynnwys etholwyr a'r rhai a fydd yn dod i oed wrth gyfrifo'r cwota etholiadol. .......Tudalen 175 | **Gwrthod**<br><br>Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ddefnyddio'r gofrestr etholiadol llywodraeth leol ddiweddaraf (a gyhoeddir o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983) ar y dyddiad adolygu, er mwyn cyfrifo'r cwota etholiadol. Ystyrir mai'r fersiwn hon o'r gofrestr yw'r un fwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer cyfrifo, gan mai'r fersiwn hon sy'n cael ei chydgrynhoi yn ddiweddarach gan y SYG ac sydd felly yn destun nifer o wiriadau.<br><br>Nid yw'r fersiwn hon o'r gofrestr yn cynnwys manylion y rhai o dan 16 oed; fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gwahardd Swyddogion Cofrestru Etholiadol rhag cyhoeddi, cyflenwi neu ddatgelu gwybodaeth am berson ifanc, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Felly, ni allaf dderbyn yr argymhelliad, gan nad yw manylion y rhai a fydd yn dod i oed wedi'u cynnwys yn y fersiwn o'r gofrestr sy'n cael ei hystyried, at ei gilydd, i fod y fersiwn fwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer adolygu ffiniau. |
| **Argymhelliad 30** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49I(1) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i nodi dyddiad cynharach erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a'u hanfon at Weinidogion Cymru er mwyn osgoi | **Gwrthod**<br><br>Gan fod disgwyl i adolygiad ffiniau llawn gymryd tua dwy flynedd a hanner i'w gwblhau, byddai dod â'r dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad terfynol ymlaen o 1 Rhagfyr yn gwneud y gwaith cyflawni'n heriol. Pe bai'r dyddiad yn cael ei symud ymlaen, mae'n bosibl y byddai angen i |

| | |
|---|---|
| gwrthdaro â'r terfyn amser o 1 Rhagfyr a bennwyd eisoes i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi'r gofrestr etholwyr ddiwygiedig yn dilyn y canfasiad blynyddol. .....Tudalen 175 | adolygiad ffiniau 2030 ddechrau cyn etholiad Senedd 2026, gan achosi dryswch i bleidleiswyr a'r cyhoedd.<br><br>Yn ogystal, nid yw adroddiad terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a gyhoeddir yn golygu bod unrhyw ffiniau newydd sydd wedi'u cynnwys ynddo yn bodoli yn y gyfraith ar y dyddiad y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi. Nid yw hyn yn digwydd hyd nes y cânt eu gweithredu gan reoliadau, sawl mis yn ddiweddarach. Felly, efallai y byddai'n well gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol beidio â diwygio eu cofrestrau nes bod rheoliadau sy'n rhoi'r ffiniau newydd ar waith wedi'u gwneud ac yn bodoli yn y gyfraith. |
| **Argymhelliad 31** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 49J(1)(b) a (3) newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, i leihau'r cyfnod y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynddo i roi effaith i argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o chwe mis i bedwar mis...... Tudalen 176 | **Derbyn**<br>Byddaf yn mynd ati i gyflwyno gwelliannau i roi effaith i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 32** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar enw neu enwau arfaethedig etholaethau'r Senedd (ac unrhyw newidiadau i'r enw neu'r enwau arfaethedig), a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir. ........ Tudalen 176 | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ymwneud â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau arfaethedig etholaethau er mwyn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad y polisi yw y byddai hyn hefyd yn cynnwys unrhyw enwau uniaith arfaethedig, ond bydd cyflwyno gwelliant i wneud hyn yn glir ar wyneb y Bil yn cael ei ystyried ymhellach.<br><br>Byddai hyn yn digwydd cyn i'r adroddiad cyntaf a'r ail adroddiad (terfynol) gael eu cyhoeddi ac felly cyn i'r cyfnodau ymgynghori ffurfiol ddechrau. Gan ystyried yr amseru hwn o ran yr adolygiad, mae'r ddyletswydd i ymgysylltu wedi'i chyfyngu i sylwadau technegol ar yr orgraff. Bydd yn ofynnol i |

| | |
|---|---|
| | Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried sylwadau Comisiynydd y Gymraeg a wneir yn rhan o'r ymwneud hwn. Byddaf yn ystyried hyn ymhellach. |
| **Argymhelliad 33**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu y dylid rhoi enw uniaith ar bob un o etholaethau'r Senedd (oni bai bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o'r farn bod rhesymau penodol pam y mae enwau dwyieithog yn briodol). .........Tudalen 176 | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn cyflwyno gwelliant fel bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi un enw uniaith i etholaethau'r Senedd os yw'n dderbyniol o ran cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Os nad yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o'r farn bod enw uniaith yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yna mae'n rhaid iddo gynnig enw ar gyfer etholaeth y Senedd er mwyn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag enw ar gyfer etholaeth y Senedd er mwyn cyfathrebu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| **Argymhelliad 34** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu mai yn Gymraeg yn unig y caiff enw etholaeth fod os rhoddir enw uniaith iddi. ....Tudalen 177 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mewn ymateb i argymhelliad 33, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant fel bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru roi un enw uniaith i etholaethau'r Senedd, os yw'r Comisiwn o'r farn ei fod yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae hyn yn golygu na fyddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cynnig enw nad yw'n un Cymraeg fel yr enw uniaith, gan na fyddai'n ei ystyried yn dderbyniol i'w ddefnyddio wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid ystyrir felly fod angen i'r ddeddfwriaeth ddatgan bod yn rhaid i'r enw uniaith fod yn Gymraeg.  Fodd bynnag, byddaf yn ystyried y ffordd orau o roi effaith i'r argymhelliad hwn wrth ddatblygu'r gwelliant y cyfeirir ato uchod. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 35** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rôl Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholaethau arfaethedig yn gymwys i bob enw etholaeth arfaethedig (neu newidiadau i'r enwau hynny), p'un a yw'r cynigion at ddibenion adnabod etholaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gyfrwng y Saesneg, neu drwy enw uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall. .......Tudalen 177 | **Derbyn yn rhannol**<br>Mae'r Bil eisoes yn darparu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymwneud â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch orgraff enwau arfaethedig etholaethau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg cyn cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol (ac ar adegau perthnasol wedi hynny). Bwriad y polisi yw y byddai'r gofyniad hwn hefyd yn cwmpasu unrhyw enwau uniaith ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall, ond bydd cyflwyno gwelliant i wneud hyn yn glir ar wyneb y Bil yn cael ei ystyried ymhellach. |
| **Argymhelliad 36**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i Atodlenni 1 a 2 i'r Bil i ddarparu bod rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru weithredu unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag orgraff enwau etholathau arfaethedig. Yn unol â'n Argymhelliad 35, dylai hyn gynnwys orgraff enwau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac unrhyw enwau uniaith ar gyfer cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall....Tudalen 177 | **Gwrthod**<br><br>Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i enwi etholaethau'r Senedd (gan ystyried y cyngor arbenigol a dderbynir gan Gomisiynydd y Gymraeg a'i gydbwyso â'r safbwyntiau a geir gan eraill yn rhan o'r cyfnodau ymgynghori ehangach).<br><br>Drwy ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru weithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg, i bob pwrpas, trosglwyddir swyddogaeth enwi etholaethau o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i Gomisiynydd y Gymraeg. Byddai dyletswydd o'r fath hefyd yn golygu na allai unrhyw sylwadau a wneir gan ddarpar etholwyr o ran enwi gael eu hystyried gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.<br><br>Fodd bynnag, rwy'n cydnabod (gan fanteisio ar brofiadau adolygiadau ffiniau llywodraeth leol), y gallai fod o fudd sicrhau consensws eang ymhlith rhanddeiliaid allweddol o ran egwyddorion a chonfensiynau polisi enwi a sefydlwyd cyn adolygiad ffin y Senedd. Bydd swyddogion yn ystyried opsiynau ymhellach o ran y broses y byddai angen i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ei dilyn i ymgynghori â rhanddeiliaid megis Comisiynydd y |

| | |
|---|---|
| | Gymraeg, yn ogystal â chyhoeddi polisi enwi ar ddechrau adolygiad. |
| **Argymhelliad 37** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymrwymo i gynnwys gofyniad i ymgeiswyr ddarparu eu cyfeirnod cofrestr etholiadol ar y papurau enwebu a ragnodir yn y gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel rhan o'r adolygiad a'r ymgynghoriad i lywio'r broses o wneud y gorchymyn, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data i sicrhau y gellir cymryd unrhyw gamau priodol mewn perthynas â'r rhai sy'n gymwys i gofrestru'n ddienw. .......Tudalen 189 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd y Gorchymyn Ymddygiad yn nodi'r union brosesau a'r datganiadau y mae'n rhaid i ymgeisydd eu gwneud yn rhan o'u proses enwebu.<br><br>Ar hyn o bryd, y bwriad yw y bydd y Gorchymyn Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddatgan enw'r Awdurdod Lleol lle y mae wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol, a hynny yn rhan o'i gydsyniad i gael ei enwebu.<br><br>Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, mae ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd rannu ei rif cofrestru etholiadol yn codi materion posibl mewn perthynas â'r unigolion hynny sy'n gymwys i gofrestru'n ddienw.<br><br>Gan y bydd swyddogion canlyniadau yn derbyn yr wybodaeth ar y papurau enwebu "ar ei golwg gyntaf" - hynny yw, ni fyddent yn gwirio'r wybodaeth i gadarnhau bod y datganiadau a wneir yn gywir, ystyrir bod ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud y datganiad fel y nodir uchod yn cyflawni'r bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 38** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 6 o'r Bil i ddarparu cyfnod gras priodol fel y gall Aelod apelio os caiff ei enw ei ddileu o'r gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru, i'w atal rhag colli ei sedd o ganlyniad i ddileu ei enw ar ddamwain o'r gofrestr......Tudalen 190 | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n nodi argymhellion y pwyllgor a byddaf yn ystyried ymhellach unrhyw fesurau diogelu neu sicrwydd pellach y gellir eu darparu. |
| **Argymhelliad 39** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mecanwaith i ymgeisydd wrth gefn, a fyddai fel arall yn gymwys i gymryd sedd wag sy'n codi yn ystod tymor Senedd, gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Dylai'r mecanwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod rhesymol o amser y byddai'n ofynnol i'r darpar Aelod fodloni'r cymhwystra yn unol ag ef........Tudalen 191 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Byddaf yn ystyried opsiynau i alluogi "ymgeisydd wrth gefn", a fyddai fel arall yn gymwys i dderbyn sedd wag sy'n codi yn ystod tymor y Senedd i gael ei gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 40** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau na fydd person y mae ei brif breswylfa y tu allan i Gymru yn bodloni'r gofyniad preswylio yn adran 6 o'r Bil os yw ei enw ar y gofrestr etholwyr mewn cyfeiriad yng Nghymru oherwydd bod ganddo ail gartref........ Tudalen 191 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig mai dim ond pobl sydd wir yn byw yng Nghymru sy'n gallu sefyll yn ymgeiswyr yn Etholiadau'r Senedd, ac i eistedd yn Aelodau o'r Senedd.<br><br>Fel y mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn nodi, ni fyddai bod yn berchen ar ail eiddo yng Nghymru yn caniatáu i unigolyn sefyll i gael ei ethol, neu eistedd fel Aelod, ac mae'n annhebygol y byddai bod yn berchen ar ail eiddo yr ymwelir ag ef at ddibenion hamdden yn unig yn bodloni'r gofyniad preswylio. Byddai angen i unigolyn o'r fath allu dangos i swyddog cofrestru etholiadol fod ganddo rywfaint o sefydlogrwydd mewn cyfeiriad er mwyn cael ei ystyried yn "breswylydd", ac felly yn gymwys ar gyfer cofrestru etholiadol.<br>Os yw unigolyn yn gallu dangos ei fod yn "preswylio" ddigon yng Nghymru, fel bod Swyddog Cofrestru Etholiadol o'r farn ei fod yn gymwys i gael ei gofrestru, yna byddai'n briodol i'r unigolyn hwnnw allu sefyll i gael ei ethol i'r Senedd.<br>Dylai pob amgylchiad barhau i gael ei ystyried gan Swyddogion Canlyniadau fesul achos, ac mae'n bwysig bod unrhyw feini prawf anghymhwyso yn parhau i fod yn wrthrychol glir i ymgeiswyr, i bleidiau, i weinyddwyr ac, yn y pen draw, i lysoedd. |
| **Argymhelliad 41**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adrannau 7 (adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd) a 19 (adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026) o'r Bil ar y sail bod y darpariaethau yn broblematig o safbwynt cyfansoddiadol ac yn ddiangen o safbwynt cyfreithiol.......Tudalen 206 | **Gwrthod**<br><br>Pe bai'r Pwyllgor Busnes yn derbyn argymhelliad 42, nid yw gwaith o'r fath yn anghydnaws ag adran 7 o'r Bil. Os bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd y Senedd hon, gallai'r seithfed Senedd, yn syml, wrthod y cynnig y darperir ar ei gyfer yn adran 7. Gweler fy ymateb manylach i argymhellion 8 a 9 o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.<br><br>Gan fod y Bil wedi deillio o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, mae'n briodol mai'r Senedd sy'n gyfrifol am adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o weithrediad ac effeithiau'r |

| | |
|---|---|
| | ddeddfwriaeth. Mae adran 19 yn darparu mecanwaith i'r Senedd nesaf ystyried hyn.<br><br>Yn achos y ddwy ddarpariaeth, nid yw'r Bil yn ceisio cyfyngu ar ymreolaeth y Senedd yn y dyfodol - byddai gan y Senedd nesaf hawl i bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynigion a roddir fel y mae'n dewis, yn unol â'r drefn arferol. |
| **Argymhelliad 42** Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried naill ai cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd i archwilio i ba raddau y dylai personau allu dal y swyddi a restrir yn adran 7(3) o'r Bil ar y cyd, gan gynnwys i ba raddau y dylai person allu dal swydd o'r fath dros dro tra nad yw'r person a etholir neu a benodir i'r swydd honno ar gael, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gwaith perthnasol ymgymryd â gwaith o'r fath. Os bydd un o bwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith o'r fath, dylai'r Pwyllgor Busnes drefnu amser yn y Cyfarfod Llawn er mwyn i'r Senedd drafod y canlyniadau....Tudalen 207 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Busnes y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwrthod argymhelliad 41 yn anghydnaws â'r ffaith bod y Pwyllgor Busnes yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn. Os bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd y Senedd hon, gallai'r seithfed Senedd, yn syml, wrthod y cynnig y darperir ar ei gyfer yn adran 7. |
| **Argymhelliad 43** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad ar weithrediad Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio'r penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Seneddau'r dyfodol a'u pwyllgorau o ran p'un a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol, ac os felly, pryd a sut......Tudalen 207 | **Gwrthod**<br><br>Gan fod y Bil wedi deillio o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, ac a gymeradwywyd gan y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd y byddai'n briodol i'r Senedd gael rôl arweiniol mewn unrhyw adolygiad o weithrediad ac effeithiau'r ddeddfwriaeth. |
| **Argymhelliad 44** Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor a sefydlir i gynnal adolygiad o faterion sy'n ymwneud ag adolygu'r Ddeddf ac i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2026).........Tudalen 208 | **Gwrthod**<br><br>Mae angen terfyn amser 12 mis o hyd er mwyn rhoi digon o amser ar ôl cyhoeddi'r adolygiad i'r seithfed Senedd, os yw'n dymuno, i wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'r adolygiad a cheisio eu gweithredu cyn etholiad Senedd 2030.<br><br>Pe bai'r Senedd nesaf yn dymuno darparu ar gyfer terfyn amser gwahanol, gellir cyflawni hyn drwy gyfrwng gwelliant i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd o dan adran 19. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 45** Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn Argymhelliad 41 nac Argymhelliad 44, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 19(2)(b) i ddileu'r gofyniad presennol bod rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd bennu bod gwaith y pwyllgor i'w gwblhau o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2026 a rhoi yn ei le ddarpariaeth y caiff y cynnig gynnwys terfyn amser arfaethedig erbyn pryd y mae rhaid cwblhau adroddiad y pwyllgor. ......Tudalen 209 | **Gwrthod**<br>Mae angen terfyn amser 12 mis o hyd er mwyn rhoi digon o amser ar ôl cyhoeddi'r adolygiad i'r seithfed Senedd, os yw'n dymuno, i wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'r adolygiad a cheisio eu gweithredu cyn etholiad Senedd 2030.<br><br>Pe bai'r Senedd nesaf yn dymuno darparu ar gyfer terfyn amser gwahanol, gellir cyflawni hyn drwy gyfrwng gwelliant i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd o dan adran 19. |
| **Argymhelliad 46** Drwy fwyafrif, rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol, os nad yw'n derbyn ein Hargymhelliad 41, gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 19(2)(a)(ii) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig bod pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru).......Tudalen 209 | **Gwrthod**<br><br>Bydd effaith y newidiadau deddfwriaethol ac etholiadol y darperir ar eu cyfer gan y Bil yn ymestyn y tu hwnt i effeithiau penodol y darpariaethau deddfwriaethol eu hunain. Mae'n bwysig bod yr adolygiad hefyd yn ystyried unrhyw effeithiau ehangach ar elfennau democratiaeth iach yng Nghymru. Rhoddir enghreifftiau yn y Memorandwm Esboniadol o feysydd posibl y gellid eu hystyried yn rhan o adolygiad sy'n ymwneud ag i ba raddau y mae elfennau o ddemocratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru. |
| **Argymhelliad 47** Os nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn derbyn ein Hargymhelliad 41, dylai gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fewnosod yn adran 19 ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 7(5) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i'r adroddiad a gyflwynir a'r argymhellion a wneir gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig o dan adran 19(1).........Tudalen 210 | **Derbyn**<br><br>Pe bai'r Senedd nesaf yn penderfynu sefydlu'r pwyllgor i adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf, ac y byddai'r pwyllgor hwnnw'n llunio adroddiad, yna byddai Gweinidogion Cymru, yn ôl confensiwn, yn ymateb i'r adroddiad. Felly, er nad yw gwelliant o'r fath yn gwbl angenrheidiol, byddaf yn anelu at gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn. |
| **Argymhelliad 48** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i adolygu'r adnoddau a'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru at ddibenion datblygu polisi, ac i ba raddau y mae cymhwystra ar gyfer adnoddau a chyllid o'r fath, a'r modd y cânt eu dyrannu, yn adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig, cefnogaeth etholiadol i'r pleidiau yng Nghymru a'u cynrychiolaeth | **Nodwyd**<br><br>Byddaf yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach, ar y cyd â'r cyrff perthnasol. |

| | |
|---|---|
| yn y Senedd. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, y dylid ei gwblhau a'i gyhoeddi mewn digon o bryd i ganiatáu i'r canlyniadau gael eu gweithredu o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026, dylid ystyried lefelau cyllido, trefniadau llywodraethu, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd....... Tudalen 215 | |
| **Argymhelliad 49** Wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn y Bil, dylai Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ystyried unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall y gellid ei darparu drwy ei Benderfyniad. Yn ystod y broses hon, dylai ystyried yn benodol i ba raddau y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r lefel a'r mathau o gymorth sydd ar gael mewn mannau eraill, gan gynnwys Arian Short ac Arian Cranborne yn Senedd y DU. Dylid gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026....... Tudalen 215 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Bwrdd Annibynnol y Senedd ar Gydnabyddiaeth Ariannol y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 50** Dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad weithio gyda'r Comisiynydd Safonau, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol. Dylai hyn gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026. ......Tudalen 220 | **Nodwyd**<br><br>Ar gyfer Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

26 Ionawr 2024

Annwyl Peredur

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2024. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Gan y bydd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2, rwy'n rhag-weld y bydd gan nifer sylweddol o Aelodau ddiddordeb ynddo. Gyda hyn mewn golwg, rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgorau cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a phob Aelod o'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad | Ymateb |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os bydd newidiadau sylweddol i'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Senedd, fod y Gweinidog yn cynnal y gwaith modelu angenrheidiol ynghylch costau posibl ac y dylid diweddaru'r rhain mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ................................................Tudalen 15 | **Derbyn** |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn modelu'r arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ...............Tudalen 15 | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n croesawu'r cyfle i fodelu ymhellach yr arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd. Fodd bynnag, ni fydd cynnal ymarfer o'r fath i safon gadarn yn gydnaws â'r amserlenni sy'n gysylltiedig â hynt y Bil drwy'r Senedd, sydd eu hunain yn angenrheidiol er mwyn i'r diwygiadau gael eu cyflawni mewn pryd ar gyfer yr etholiad yn 2026.<br><br>Rwyf hefyd yn ymwybodol bod nifer o astudiaethau academaidd wedi archwilio'n flaenorol yr her o asesu effaith seneddau.<br><br>Y tu allan i gyd-destun y Bil hwn, mae deall effaith craffu yn fater mwy priodol i'r Senedd, a phwyllgorau'r Senedd o ran effeithiolrwydd craffu gan bwyllgorau.<br><br>Er enghraifft, ym mis Mai 2021, dywedodd yr Athro Diana Stirbu: "Un o'r rhwystrau mwyaf wrth ddatblygu fframwaith cydlynol ar gyfer gwerthuso gwaith pwyllgorau yw na all popeth fod yn hawdd ei feintioli a'i fesur. Er enghraifft, mae llawer wedi sôn am effaith 'ataliol' gwaith pwyllgorau yn ein cyfweliadau, ond mae hyn yn anodd ei fesur yn gyffredinol. O ran mesur effaith anuniongyrchol gwaith pwyllgorau, mae'n bosibl dangos tystiolaeth drwy astudiaeth ansoddol o naratifau a chanfyddiadau gweinidogion y Llywodraeth a'r fiwrocratiaeth sy'n eu cefnogi. Mae White yn pwysleisio mor bwysig yw defnyddio ffynonellau ansoddol a meintiol i ddangos |

| | |
|---|---|
| | effeithiolrwydd pwyllgorau."[1] Fodd bynnag, yn yr un adroddiad, nododd yr Athro Stirbu nifer o fesurau y gellid eu defnyddio i bennu effeithiolrwydd pwyllgorau dros y tymor hir.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ymgysylltu ag unrhyw waith y gallai pwyllgorau'r Senedd, a/neu Fforwm y Cadeiryddion, ddymuno ei wneud i ddeall effaith pwyllgorau yn well yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy’n ymwneud â diwygio’r Senedd fel rhai sydd wedi’u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. ....Tudalen 15 | **Nodwyd**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer Comisiwn y Senedd. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig............. Tudalen 29 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Credaf fod y dull a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi cynrychiolaeth fwy cywir o'r costau tebygol.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau ar adeg benodol ac mewn ffordd gyson ar draws sefydliadau. Gellid darparu ffigurau sy'n darparu ystod o gostau staff fel atodiad ar wahân, ac mae trafodaethau ar y gweill â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud gwaith modelu i ddeall effaith cynnydd yn nifer y pwyllgorau, y tu hwnt i’r tri phwyllgor ychwanegol a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ar y manteision o ran gwaith craffu sy’n deillio o’r Bil, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig........... Tudalen 29 | **Nodwyd**<br><br>Yn y pen draw, mae'r rhain yn benderfyniadau gweithredol ar gyfer Senedd/Pwyllgor Busnes yn y dyfodol i benderfynu ar nifer y pwyllgorau, eu rôl etc. Gwnaed rhagdybiaethau er mwyn rhoi syniad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau posibl, ond nid gyda'r bwriad o rwymo Senedd yn y dyfodol.<br><br>Rwy'n fodlon trafod y mater hwn ymhellach â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 6.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal dadansoddiad cost a budd o nifer y pwyllgorau ychwanegol y gallai fod eu hangen ac y dylid cynnwys y wybodaeth | **Gwrthod**<br><br>Yn y pen draw, mae'r rhain yn benderfyniadau gweithredol ar gyfer Senedd/Pwyllgor Busnes yn y dyfodol i benderfynu ar nifer y pwyllgorau, eu rôl etc. Gwnaed rhagdybiaethau er mwyn rhoi syniad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau |

[1] Yr Athro Diana Stirbu, Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau’r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, Mai 2021, https://senedd.wales/media/xtqk0ojr/gen-ld14672-e.pdf; tudalen 70.

| | |
|---|---|
| hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. .... Tudalen 29 | posibl, ond nid gyda'r bwriad o rwymo Senedd yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:<br>• asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac<br>• asesiad o'r defnydd o ynni. ............... Tudalen 29 | **Nodwyd**<br><br>Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 8.** Yng ngoleuni'r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu'r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ......... Tudalen 29 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater ymhellach â Chomisiwn y Senedd, yn enwedig o ran unrhyw effaith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddaru'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:<br>• gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac<br>• yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae'r Penderfyniad yn ei ganiatau). Tudalen 30 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau ar adeg benodol ac mewn ffordd gyson ar draws sefydliadau. Os bydd ffigurau penderfyniad newydd yn cael eu cyfrifo, byddem yn cynnig cynnwys y rhain mewn atodiad ar wahân.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i gynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol, ond dylai hyn ddefnyddio'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 er mwyn bod yn gyson â'r ffigurau eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy'n cael eu hethol o'r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau. ............... Tudalen 30 | **Nodwyd**<br><br>Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. ............. Tudalen 30 | Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth i gadarnhau'r honiad na fydd angen unrhyw staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnydd yn aelodaeth y Senedd. ...............Tudalen 33 | **Derbyn**<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol o ganlyniad i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Fodd bynnag, mae ffactorau anhysbys a allai, wrth wneud penderfyniadau yn ddiweddarach, effeithio ar yr amcangyfrifon (o ran costau neu arbedion).<br><br>Mae'n arfer arferol i'r Llywodraeth ailflaenoriaethu adnoddau i fynd i'r afael â blaenoriaethau newydd ac ymateb i heriau heb yr angen i ehangu maint y gwasanaeth sifil (er enghraifft, pandemig Covid-19). Mae'r adnoddau presennol yn darparu ar gyfer cyfrifoldebau presennol Llywodraeth Cymru a rhagwelir na fyddai ond angen adnoddau ychwanegol, er enghraifft, pe bai newid mewn cyfrifoldebau datganoledig. |
| **Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd cynnydd mwyaf yn nifer Gweinidogion Cymru yn ei chael ar nifer yr Aelodau sydd ar gael i ymgymryd â rôl graffu, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arbedion posibl o ganlyniad i waith craffu gwell y cyfeiriodd y Gweinidog atynt..............Tudalen 33 | **Derbyn**<br><br>Ar gyfer yr holl senarios, a nodir yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, mewn perthynas â chynnydd yn nifer Gweinidogion Cymru, mae cyfran y weithrediaeth o'i chymharu â'r Senedd yn lleihau.<br><br>Mewn termau cymesur, mae Llywodraeth Cymru (12 Gweinidog ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn gyfystyr â 23.3% o'r 60 Aelod sydd yn y Senedd ar hyn o bryd. Mewn Senedd fwy, byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 17 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 19.8% o'r 96 Aelod yn y Senedd.<br><br>Byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 19 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 21.9% o'r 96 Aelod yn y Senedd. Felly, mae'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru y darperir ar ei gyfer yn adran 5 yn sicrhau bod y cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd yn fwy na maint y weithrediaeth mewn unrhyw achos. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n fodlon ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach gyda'r bwriad o ddarparu dadansoddiad pellach. O ystyried cwmpas yr argymhelliad, bydd angen gwneud unrhyw waith o'r fath mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad o'r costau posibl a nodwyd i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol o ganlyniad i gylch etholiadol pedair blynedd............. Tudalen 40 | **Derbyn** |
| **Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau unwaith y bydd yr holl newidiadau perthnasol i'r ffiniau wedi'u cwblhau, a hynny er mwyn galluogi'r Pwyllgor neu bwyllgor cyllid yn y dyfodol i ddeall effaith ariannol lawn y Bil. .... Tudalen 40 | **Derbyn** |

Eitem 8.5

HOUSE OF LORDS

**Delegated Powers and Regulatory Reform Committee**

London SW1A 0PW

30 January 2024

Huw Irranca-Davies MS
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

Dear Huw,

**Data Protection and Digital Information Bill**

Thank you for your letter of 26 January regarding your report on the Welsh Government's Supplementary Legislative Consent Memorandum (Memorandum No.3) on the Data Protection and Digital Information Bill. It is very helpful that you have drawn your concerns to our attention, and we will fold them into our consideration of the Bill to the extent that they fall within our Committee's remit.

Yours ever,

Patrick

**The Rt Hon. Lord McLoughlin CH**
*Chair of the Delegated Powers and Regulatory Reform Committee*

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd
McLoughlin CH, Cadeirydd, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a
Diwygio Rheoleiddio
Tŷ'r Arglwyddi

26 Ionawr 2024

Annwyl Arglwydd McLoughlin

**Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

Mae ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol wedi'i osod gerbron y Senedd heddiw. Rwyf wedi amgáu copi o'r adroddiad er gwybodaeth i chi.

Hoffwn dynnu eich sylw at y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) a ychwanegwyd at y Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Byddwch yn nodi o'n hadroddiad ein bod o'r farn bod y materion sy'n ymwneud â darpariaethau'r NUAR yn rhai difrifol; byddwch yn nodi ymhellach fod gan Lywodraeth Cymru "bryderon polisi cyfansoddiadol" am yr un darpariaethau.

Os bydd ein hadroddiad yn eich cyrraedd mewn pryd i chi gael ystyried y Bil, rwy'n gobeithio ei fod yn ddefnyddiol i aelodau eich pwyllgor.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

31 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Ar 25 Ionawr 2024, gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth gyda nifer o randdeiliaid fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

Yn ystod ein sesiwn gyntaf, ategodd y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant bryderon a nodwyd ganddo yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, sef bod y defnydd helaeth o bwerau rheoleiddiol eang yn y Bil hwn yn tanseilio gwaith hanfodol y Senedd, a phartïon eraill sydd â buddiant, wrth graffu ar waith y llywodraeth ac ar ei chynigion deddfwriaethol. Ychwanegodd y Sefydliad, yn ei farn ef, y dylai is-ddeddfwriaeth yn gyffredinol gael ei chadw yn ôl ar gyfer materion gweinyddol, ac ar gyfer gosod cyfraddau.

O ystyried ei berthnasedd i'ch cylch gwaith a gwaith craffu eich Pwyllgor ar y Bil, cytunwyd i dynnu eich sylw at y drafodaeth. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor, ac yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar y Bil.

Yn gywir



Senedd Cymru
Welsh Parliament

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

**<u>Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)</u>**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2023 yn amlinellu cwestiynau ynghylch Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2023.

**Hawliau dynol**

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried holl erthyglau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Pan fo'r hawliau hynny wedi'u hamodi, rwyf yn fodlon y gellir cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth bosibl â hwy ar y sail bod y darpariaethau'n angenrheidiol ac yn gymesur yn unol â nod dilys. Yng nghyfarfod y pwyllgor, cynigiais ddarparu asesiad pellach ynghylch adrannau 6 a 12.

Mae adran 6 yn nodi amodau ychwanegol i'w bodloni gan elusen mewn perthynas â hereditament heb ei feddiannu cyn y gall rhyddhad llawn rhag ardrethi annomestig fod yn gymwys. Rwyf yn fodlon bod y darpariaethau yn yr adran hon yn gymesur ac yn gyfreithlon, gan roi sylw penodol i gydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae gan y darpariaethau sylfaen resymol gan eu bod yn ceisio lleihau'r cyfle i osgoi atebolrwydd am ardrethi annomestig lle nad oes bwriad dilys i ddefnyddio'r eiddo at ddibenion elusennol (nod cyfreithlon a chymesur).

Mae adran 12 yn cymhwyso nifer o baragraffau yn Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i hereditamentau yng Nghymru, i osod dyletswyddau ar dalwyr ardrethi a thalwyr ardrethi posibl i hysbysu swyddogion prisio o wybodaeth sy'n ymwneud â'u hatebolrwydd am ardrethi annomestig mewn perthynas â hereditament, ac yn darparu ar gyfer gorfodi'r dyletswyddau drwy gosbau sifil a throseddol. Fel gydag adran 6, rwyf yn fodlon bod y darpariaethau yn yr adran hon yn gymesur ac yn gyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau a chosbau. Mae'r troseddau a'r cosbau cyfatebol wedi'u diffinio'n glir yn y ddeddfwriaeth, gan sicrhau cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Pan osodir cosbau, bydd gan dalwyr ardrethi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hawl hefyd i gael gwrandawiad teg a chyhoeddus gan lys annibynnol a diduedd. Yn gyson â'r dull a ddefnyddir yn achos yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau ochr yn ochr â'r Bil fel sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys https://www.llyw.cymru/bil-cyllid-llywodraeth-leol-cymru-asesiad-effaith-integredig-o-ran-diwygio-ardrethi-annomestig ac https://www.llyw.cymru/bil-cyllid-llywodraeth-leol-cymru-asesiad-effaith-integredig-o-ran-diwygior-dreth-gyngor sydd ymhlith pethau eraill yn ystyried yr effaith ar hawliau dynol pobl

**Cymhariaeth rhwng y pwerau a ddarperir gan y Bil a'r rhai sydd ar gael i Weinidogion y DU**

Mae elfennau sylweddol o'r systemau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth ers blynyddoedd lawer. Mae'r Bil yn cynnig rhai elfennau ychwanegol i'w cynnal gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn gyflunio'r systemau trethi lleol mewn modd ystwyth a chyson, er mwyn diwallu anghenion Cymru. Mae cymhariaeth o'r pwerau is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu ceisio yn y Bil â'r rhai sydd ar waith yn Lloegr a'r Alban wedi'i chynnwys yn **Atodiad A**.

O ran ardrethi annomestig mae'r mwyafrif helaeth o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a ddarperir gan y Bil yr un fath â phwerau cyfatebol sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr a/neu'r Alban, neu'n debyg o ran eu heffaith. Mewn achosion lle mae'r pwerau a ddarperir yn y Bil i Weinidogion Cymru yn mynd ymhellach na'r rhai sydd ar waith yn Lloegr, mae pwerau sydd ag effaith debyg ar gael yn gyffredinol i Weinidogion yr Alban. Er bod rhai gwahaniaethau gweinyddol rhwng y system ardrethi annomestig yng Nghymru a'r Alban, yr un dreth yn y bôn ydyw sy'n cael ei gweithredu mewn cyd-destun datganoledig tebyg.

O ran y dreth gyngor, bydd y pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru i fod yn fwy adweithiol a hyblyg wrth ymateb i newid cymdeithasol-economaidd. Bydd yn cyd-fynd â'r system NDR, i'r graddau y caiff ailbrisiadau rheolaidd eu gosod ar sail statudol, gan adlewyrchu pwysigrwydd system dreth sy'n adlewyrchu amgylchiadau economaidd cyfredol. Mae rhai pwerau a roddir yn rhai technegol i raddau helaeth ac unwaith eto byddant yn caniatáu i strwythur sylfaenol gadarn y dreth gyngor gael ei ddiogelu at y dyfodol a bod yn fwy ymatebol. Mae'r gwahaniaeth yn y cymysgedd o bwerau o'i gymharu â Lloegr a'r Alban yn fach iawn, gan roi'r pŵer yn ogystal i Weinidogion Cymru ddiwygio blwyddyn ailbrisio a bennir mewn deddfwriaeth sylfaenol, un o nodau polisi allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer system decach. Yn gymharol, gall Gweinidogion y DU a'r Alban ddiwygio mewn gorchymyn pan fydd ailbrisio yn digwydd. Mae pennu cylch ailbrisio mewn deddfwriaeth sylfaenol yn nodi disgwyliad y bydd yr ailbrisio yn digwydd. Nid yw hyn yn wir yn Lloegr a'r Alban. Mae adolygiad cynhwysfawr o'r ystod gyfan o ddisgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau yn cael ei gynnal yng Nghymru. Bydd y Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o'i gymharu â'r ddeddfwriaeth hynod gyfyngol bresennol sy'n gymwys yn y maes hwn. Er hynny, mae'n dal yn wir bod llawer o agweddau ar y fframwaith disgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau eisoes yn cael eu diwygio mewn is-ddeddfwriaeth ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

**Atebion i gwestiynau penodol**

Gallaf ymateb i'r cwestiynau a nodir yn yr Atodiad i'ch llythyr fel a ganlyn:

Cyffredinol

- **Cwestiwn 1** - Cwestiwn 1 - Wrth edrych yn ôl, ydych chi’n credu y byddai hi wedi bod yn well i Lywodraeth Cymru gyflwyno’r Bil yn gynharach er mwyn ymgorffori’r newidiadau a wnaed mewn perthynas â Chymru gan Ddeddf Ardrethi Annomestig 2023 yn hytrach na dibynnu ar Lywodraeth y DU a Bil y DU a’r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol canlyniadol?

Ni fyddai dull o'r fath wedi bod yn bosibl. Rydym wedi cyflwyno'r Bil hwn cyn gynted ag y gallem ac roedd yn hanfodol sicrhau nad oedd ei ddatblygiad yn cael ei ruthro. Mae ein dull gweithredu wedi sicrhau bod y Bil wedi'i deilwra'n briodol i ddiwallu anghenion Cymru. Mae'r Bil yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'n diwygiadau ardrethi annomestig sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, lle na fydd gwahaniaeth mewn amseru yn arwain at ganlyniadau negyddol i Gymru.

Ar ôl ystyried yr opsiynau a'r ymagwedd at gyflawni ein hagenda ddiwygio NDR ehangach, penderfynais ei bod yn well i rai darpariaethau penodol i Gymru gael eu gwneud o fewn Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (“Deddf 2023”). Gwnaed darpariaethau i sicrhau nad oedd talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais (er enghraifft, mewn perthynas â darparu rhyddhadau newydd) ac mewn achosion lle y rhoddwyd swyddogaethau newydd i gyrff Llywodraeth y DU (CThEM ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio). Mae'r materion hyn wedi'u nodi'n fanwl yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac mewn ymateb i Bwyllgorau.

- **Cwestiwn 2** - A oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch hygyrchedd y gyfraith ar ardrethi annomestig o ganlyniad i ddatblygu’r Bil hwn a hefyd gweithio ar yr un pryd â Llywodraeth y DU ar Ddeddf 2023?

Gallaf gadarnhau nad oes gennyf unrhyw bryderon o'r fath. Datblygwyd y Bil hwn gyda gwybodaeth lawn am yr hyn sydd bellach yn Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, felly gwyddom fod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gweithio ar y cyd â'i gilydd. Cafodd Deddf 2023 y Cydsyniad Brenhinol cyn i'n Bil gael ei gyflwyno.

Mae'r corff o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'n systemau ar gyfer ardrethi annomestig a'r dreth gyngor 30 oed ac mae wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith, felly mae'n gymhleth iawn. Mae'r angen am hygyrchedd, yn enwedig mewn perthynas â chymhwyso'r darpariaethau, wedi llywio'r dull gweithredu a gymerwyd yn y Bil. Er enghraifft, mae darpariaethau'n cael eu hailddatgan mewn adrannau newydd lle y bernir bod hyn yn gwella cyflwyniad y gyfraith a fydd yn gymwys i Gymru yn unig.

- **Cwestiwn 3** - Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi bod y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ar gyllid llywodraeth leol yn cyfyngu ar allu’r Llywodraeth i wneud addasiadau amserol ar gyfer aelwydydd, trethdalwyr a busnesau. A allech chi egluro pa gyfyngiadau yr oeddech yn cyfeirio atynt?

Rydym wedi gweld, yn enwedig tra buom yn gweld pwysau economaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nad yw'r fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer sefydliadau ac aelwydydd. Mae'r pwysau ar sefydliadau ac aelwydydd yn newid yn gyson felly mae angen system sy'n hyblyg ac yn ymatebol.

Er mwyn rhoi enghraifft o'r anawsterau presennol, ar hyn o bryd nid oes pŵer yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ddiwygio dyddiad ailbrisio ardrethi annomestig. Roedd angen inni ddefnyddio Deddf Twf a Seilwaith 2013 i ohirio ailbrisiad 2015 tan 2017 ac wedyn Deddf Rhestrau Ardrethu Annomestig 2021 i ohirio ailbrisiad 2022 tan 2023. Er hynny, byddai'r

pŵer newydd a gynigir yn adran 4 o'r Bil hwn yn caniatáu i'r dyddiad ailbrisio gael ei newid yn fwy effeithlon i Gymru.

Bydd y pwerau gwneud rheoliadau yn lleihau'r angen am fesurau anneddfwriaethol brys a byddant yn darparu mwy o gyfleoedd i gyflawni polisi i Gymru mewn modd amserol, heb orddibynnu ar ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU. Mae'r ateb i gwestiwn 4(a) isod yn rhoi enghreifftiau pellach mewn perthynas â rhai o'r cyfyngiadau presennol y bydd y Bil yn mynd i'r afael â hwy.

- **Cwestiwn 4** - a) Yn y Memorandwm Esboniadol, wrth drafod a allai darpariaethau sylweddol fod wedi'u nodi'n briodol ar wyneb y Bil, daethoch i'r casgliad “er y gallai manylion gael ei hoptimeiddio ar gyfer yr amgylchiadau cyfredol - eu bod yn annhebygol o sefyll prawf amser”. Pa ddarpariaethau yr ydych yn cyfeirio atynt? b) Pam na fyddai hi wedi bod yn gynnig gwell i gynnig deddfwriaeth sylfaenol i ymdrin â'r amgylchiadau presennol ac yna cyflwyno bil arall yn y dyfodol pan fydd angen newid pellach wedi'i nodi?

a) Mae llawer sy'n perthyn i'r categori hwn – gan gynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â'r systemau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor sy'n ein galluogi i ddarparu cymorth i sefydliadau ac aelwydydd yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn rhoi manylion llawn ynghylch sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r darpariaethau sy'n rhoi bywyd i'r ystod eang o ffactorau sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n effeithio ar y ddwy system dreth.

Gan gymryd rhyddhad ardrethi annomestig fel enghraifft, ni allwn ragweld yr holl newidiadau a allai fod yn ddymunol yn y dyfodol. Yn ddiweddar, rydym wedi cymryd darpariaethau yn Neddf Ardrethu Annomestig 2023 Llywodraeth y DU ar gyfer rhyddhadau newydd, na ellid bod wedi cael eu cyflawni yn unol â'r un amserlen gan ddefnyddio'r Bil hwn. Mae llawer o ryddhadau eisoes wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth ac felly mae'r cwmpas ar gyfer gwneud newidiadau amserol i'r cymorth cyffredinol sydd ar gael, felly, yn anghyson.

O ran y lluosydd ardrethi annomestig mae'r lluosydd sengl presennol wedi cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ymateb i Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn ddiweddar. Mae rhai aelodau wedi galw arnom i adlewyrchu'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr, drwy rewi'r lluosydd ar gyfer busnesau bach. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, ni allem hyd yn oed ystyried dull gweithredu tebyg sy'n adlewyrchu'r sylfaen dreth wahanol ac anghenion Cymru. Er bod gennym eisoes y pŵer i bennu'r lluosydd sengl i Gymru ar unrhyw lefel gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ni allwn ragnodi lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu.

O ran osgoi ardrethi annomestig, fel enghraifft arall, mae technegau yn esblygu'n barhaus ac rydym am allu ymateb yn amserol pan nodir materion newydd. Mae'r Bil hwn yn darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael ag osgoi trethi. Mae angen cynnwys pŵer i wneud rheoliadau gan na allwn ragweld pa ymddygiadau osgoi newydd a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol.

b) Nid wyf yn credu y byddai'n rhesymol, yn gymesur neu'n ddymunol cyflwyno Bil bob tro y bydd angen inni wneud newid i'r gyfraith yn y maes hwn. Rydym eisoes yn defnyddio is-ddeddfwriaeth i gynnal sawl agwedd ar y system drethu leol felly bydd y Bil hwn yn creu mwy o gysondeb, yn hytrach na gwyro mewn ffordd radical oddi wrth arferion sefydledig yn y maes hwn.

- **Cwestiwn 5** - Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y cynigion yn y Bil sy’n rhoi cyfle i “graffu'n fanylach ar ddeddfwriaeth yng Nghymru”. A allech chi egluro pam eich bod chi’n meddwl bod hynny’n wir a pham na fyddai’n fwy priodol disodli Bil y DU â Bil Llywodraeth Cymru?

Yn allweddol, bydd y mwyafrif o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Senedd. Felly, bydd yn destun craffu sy'n cynnwys pwyllgorau a chyda'r un trothwy ar gyfer llwyddiant (h.y. cefnogaeth fwyafrifol) â deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r cynigion yn ceisio cynyddu dylanwad y Senedd o fewn cyd-destun pwysau amser ar gyfer gwneud deddfwriaeth sylfaenol a'r brys sydd yn aml yn gysylltiedig â newidiadau sy'n annisgwyl weithiau.

Mae'r Bil yn ceisio sefydlu trefniadau lle y gall y Senedd oruchwylio'n realistig y gwaith o gynnal y systemau trethi lleol hyn mewn modd amserol a chyson. Mae cyllid llywodraeth leol yn faes technegol iawn o'r gyfraith lle mae llawer o'r system bresennol yn cael ei llywodraethu gan is-ddeddfwriaeth. Mae'r system yn gofyn am waith cynnal a chadw rheolaidd, gan ofyn am ddiweddariadau blynyddol mewn llawer o achosion, lle na fyddai'n briodol nac yn ymarferol gwneud deddfwriaeth sylfaenol.

- **Cwestiwn 6** - Rydych chi wedi datgan, ers 2011, fod angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Biliau Llywodraeth y DU o leiaf 13 gwaith i gyflawni newidiadau angenrheidiol i’n systemau ardrethi annomestig a’r dreth gyngor. a) A allech chi egluro pa newidiadau yr oeddech yn cyfeirio atynt? b) Beth oedd y rhesymau pam na wnaeth y Llywodraeth achub ar y cyfle i gynnig deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd ar bob un o’r achlysuron hynny?

a) Mae manylion yr adegau ers 2011 lle mae Deddfau Llywodraeth y DU wedi cael eu defnyddio i gyflwyno newidiadau i'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yng Nghymru wedi'u hamlinellu yn **Atodiad B**.

b) Nid oes newidiadau wedi'u gwneud ond lle mae nodau polisi cyffredin ar draws Cymru, ac mae perygl y byddai peidio â gwneud hynny yn peri anfantais i dalwyr ardrethi a threthdalwyr yng Nghymru.

- **Cwestiwn 7** - Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor Cyllid, yn ystod ei waith ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) (cyn iddo ddod yn Fil 2022), dywedodd Syr Paul Silk mai gwaith y ddeddfwrfa yw sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cadw ac nad yw’n ildio ei rôl ddeddfwriaethol (“it is the job of the legislature to ensure that appropriate checks are kept in place and that it does not surrender its legislative role”. Pam eich bod chi’n credu nad yw’r Senedd mewn perygl o wneud hynny yn y maes hwn o drethiant Cymreig os caiff y Bil hwn ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol?

O fewn cyd-destun y Bil hwn, rwyf yn anelu at ddatblygu trefniadau sy'n addas i'r diben o fewn ein strwythurau datganoledig ac sydd, felly, yn briodol i Gymru. Yn ychwanegol at fy ymateb i gwestiwn 5 uchod, rwyf yn credu y bydd y trefniadau a gynigir yn y Bil hwn yn gwella rôl y Senedd yn sylweddol, o'i gymharu â lle'r ydym yn awr. Mae'n dal yn wir y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i newid agweddau sylfaenol ar y systemau trethi lleol, megis cyfrifo'r swm a godir yn achos ardrethi annomestig cyn rhyddhad a'r symiau sylfaenol o'r dreth gyngor. Er bod y Bil, mewn rhai achosion, yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau is-ddeddfwriaeth, ni fernir bod testun y darpariaethau o arwyddocâd mwy neu ehangach na'r rhai sydd eisoes yn gallu cael eu newid trwy is-ddeddfwriaeth, mewn perthynas â systemau'r

dreth gyngor ac ardrethi annomestig . Gellir addasu agweddau sylweddol ar y ddwy system ar hyn o bryd trwy is-ddeddfwriaeth.

- **Cwestiwn 8** - Pam na fyddai hi'n fwy priodol i benderfyniadau sylweddol ynghylch atebolrwydd am drethi lleol aros gyda'r Senedd a bod yn destun craffu manwl?

Fel yr eglurwyd yn fy ateb i gwestiwn 4(b) uchod, nid wyf yn credu y byddai'n rhesymol, yn gymesur neu'n ddymunol cyflwyno Bil bob tro y bydd angen i ni wneud newid i'r gyfraith yn y maes hwn. Rydym eisoes yn defnyddio is-ddeddfwriaeth ar gyfer sawl agwedd, gan gynnwys cydrannau allweddol sy'n effeithio ar atebolrwydd am drethi lleol. Felly, ni fernir bod y trefniadau a gynigir yn tanseilio rôl y Senedd wrth benderfynu a ddylai pobl fod yn ddarostyngedig i drethi datganoledig ac i ba raddau. Bydd y Bil hwn yn creu mwy o gysondeb, yn hytrach na gwyro mewn ffordd radical oddi wrth arferion sefydledig yn y maes hwn. Cynigir defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau sylweddol drwy is-ddeddfwriaeth, sy'n gosod y penderfyniadau terfynol ar gyfer newidiadau yn nwylo'r Senedd.

<u>Ardrethi Annomestig</u>

- **Cwestiwn 9** - Yn y Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y pwerau i roi, amrywio neu dynnu rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl, rydych yn nodi bod pwerau presennol Gweinidogion Cymru yn anghyson â darpariaethau a gymerir ym Miliau Senedd y DU ar sawl achlysur i alluogi rhyddhad ardrethi newydd yng Nghymru. a) Pam eich bod chi'n credu mai'r ffordd i ddatrys hyn yw mwy o bwerau gwneud rheoliadau Harri VIII i'r Llywodraeth? b) Pam nad yw'n ateb gwell i'r Senedd graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol a'i phasio, ac y gellid cyflymu'r broses lle bo angen?

Mae'r system bresennol yn cynnwys nifer o feysydd sy'n cael eu llywodraethu gan gymysgedd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd, hyd yn oed mewn perthynas â'r un agweddau ar y system. Mae hyn yn wir am ryddhadau. Er enghraifft, gellir gwneud newidiadau i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach yn bennaf trwy is-ddeddfwriaeth, tra byddai newidiadau i Ryddhad Ardrethi Elusennol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Nid oes rhesymeg glir o ran pam y mae angen i rai newidiadau ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol ar hyn o bryd pan fo arwyddocâd y newidiadau hynny'n gyfyngedig o'i gymharu â'r hyn y gellir ei wneud eisoes trwy is-ddeddfwriaeth.

Rwyf o'r farn ein bod yn iawn i wneud y system yn fwy cyson o ran defnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth. Mae hwn yn faes allweddol lle y mae angen cysondeb i alluogi'r system i ymateb i bwysau sy'n newid. Byddai dibynnu'n fwy ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn ein symud ymhellach byth i ffwrdd o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Byddai'n debygol o'n hatal rhag defnyddio amser deddfwriaethol cyfyngedig i fwrw ymlaen â gwaith mwy trawsnewidiol, parhau i gyfyngu ar newidiadau yn y maes hwn, neu arwain at yr angen i wneud defnydd ehangach byth o Filiau Llywodraeth y DU, yn dibynnu ar y cyd-destun ar unrhyw adeg benodol.

- **Cwestiwn 10** - Mewn perthynas â rhyddhad ar gyfer eiddo a feddiennir, mae adran 5(2) o'r Bil yn mewnosod pŵer newydd ym mharagraff 9A o Atodlen 4ZA i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i Weinidogion Cymru newid y rheolau ym mharagraff 9 o'r Atodlen pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys. Nid ydym yn credu bod y pŵer yn cyfeirio at Ran 3A newydd o'r Atodlen a fewnosodwyd gan adran 5(2). A ydych yn fodlon bod drafftio adran 5(2) yn cyflawni ei fwriad? Os na, ydych chi'n credu bod oes angen gwelliant i'r Bil?

Rwyf yn fodlon bod adran 5(2) o'r Bil yn gweithio fel y bwriadwyd. Nid oes angen i'r pŵer ym mharagraff 9A gyfeirio ond at Rannau 2 a 3 o Atodlen 4ZA.

- **Cwestiwn 11** - Mae'n ymddangos bod y Datganiad o Fwriad Polisi yn cyfiawnhau cymryd pwerau i roi, amrywio a thynnu'n ôl esemptiadau ardrethi annomestig ar sail darparu cysondeb rhwng pwerau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a'r pwerau arfaethedig newydd ar gyfer rhyddhad a) Pam eich bod chi'n ystyried hyn yn sail briodol ar gyfer cymryd pwerau Harri VIII eang i bennu esemptiadau treth? b) Pa esemptiadau posibl sydd wedi'u nodi a fyddai'n cyfiawnhau cymryd y pŵer hwn?

a) Mae amrywiaeth o ffyrdd sy'n bodoli eisoes o leihau atebolrwydd talwr ardrethi i sero. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth neu bwerau dewisol presennol yr awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad llawn. Mae esemptiadau yn ddewis amgen i ddarparu rhyddhad llawn, pan fernir y dylai swm yr ardrethi annomestig a godir ar gyfer eiddo fod yn sero. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfyngedig ar hyn o bryd i ragnodi esemptiadau mewn rheoliadau, gyda fawr ddim hyblygrwydd ymarferol. Gan fod pob eithriad wedi'i nodi ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth sylfaenol (yn wahanol i ryddhadau), pŵer Harri'r VIII yw'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r bwriad polisi i allu gwneud newidiadau.

b) Mae mathau o eiddo y bernir bod esemptiad rhag ardrethi annomestig ar sail hirdymor neu barhaol ar ei gyfer yn fwy priodol na rhyddhad llawn. Er enghraifft, pan fyddai prisiad yn anodd ei wneud neu pan na fyddai prisiad yn darparu unrhyw fanteision diriaethol. Nid yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol yn ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol a dewisol eraill sydd eisoes yn bodoli. Er nad ydym wedi nodi unrhyw newidiadau penodol i esemptiadau ar hyn o bryd, efallai mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer tirwedd gyffredinol cymorth ardrethi annomestig mewn amgylchiadau penodol.

- **Cwestiwn 12** - - Mae'r Bil yn cynnig pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o eiddo. Fodd bynnag, mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi "ni fwriedir defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd". Sut ydych chi'n cyfiawnhau cymryd y pŵer hwn os nad oes gennych unrhyw gynlluniau i'w ddefnyddio?

Mae lluosyddion haenog yn bodoli mewn mannau eraill yn y DU a byddai'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi lluosydd gwahanol ar gyfer rhan benodol o'r sylfaen drethu - er enghraifft i ysgogi buddsoddiad neu newid ymddygiad neu gymorth targed, yn unol â blaenoriaethau polisi ehangach. Er bod gennym eisoes y pŵer i bennu'r lluosydd sengl i Gymru ar unrhyw lefel gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ni allwn ragnodi lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu.

Fel yn achos rhyddhadau ac esemptiadau, nid oes modd rhagweld newidiadau penodol a allai fod yn ddymunol yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r lluosydd sengl presennol wedi cyfyngu'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ymateb i Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn ddiweddar. Mae rhai aelodau o'r Senedd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i adlewyrchu'r dull sy'n cael ei gymryd yn Lloegr, fel y llwyddodd Llywodraeth yr Alban i wneud, drwy rewi'r lluosydd ar gyfer busnesau bach. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, ni allem hyd yn oed ystyried dull tebyg, wedi'i deilwra fel y bo'n briodol i adlewyrchu'r sylfaen dreth wahanol ac anghenion Cymru.

- **Cwestiwn 13** - Mae Rhan 3A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ar gyfer trethi datganoledig. Ydych chi'n credu y byddai'n well dilyn yr honno yn y Bil hwn a phennu egwyddorion cyffredinol mewn deddfwriaeth sylfaenol ar benderfynu a yw trefniadau ardrethu annomestig yn artiffisial?

Na, nid wyf o'r farn y byddai hyn yn ddull gwell, oherwydd gwahaniaethau sylfaenol yn y cyd-destun ar gyfer gweithredu'r darpariaethau atal osgoi yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a'r Bil hwn. Mae darpariaethau Deddf 2016 yn cael eu cymhwyso gan un sefydliad arbenigol (Awdurdod Cyllid Cymru) sy'n gyfrifol am weinyddu nifer o drethi datganoledig. Mae hyn yn sicrhau eglurdeb a chysondeb ar draws y sylfeini treth perthnasol mewn perthynas â chymhwyso'r egwyddorion penodedig.

I'r gwrthwyneb, mae'r darpariaethau atal osgoi yn y Bil yn gymwys i ardrethi annomestig yn unig, gan roi cyfle i fod yn fwy penodol ynghylch y trefniadau y bydd y darpariaethau yn mynd i'r afael â hwy. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael eu cymhwyso gan 22 o awdurdodau lleol (mewn perthynas â'r rhestrau ardrethu lleol) a Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â'r rhestrau ardrethu canolog) yn eu rolau wrth weinyddu ardrethi annomestig. Gallai hyn arwain at roi egwyddorion cyffredinol ar waith yn anghyson a thrin trefniadau osgoi artiffisial yn wahanol gan wahanol awdurdodau bilio. Felly, bydd y dull a gynigir yn y Bil, felly, yn sicrhau eglurder, cysondeb a thegwch drwy ragnodi'r trefniadau y mae rhaid i bob awdurdod bilio eu gwrthweithio.

- **Cwestiwn 14** - Pam eich bod chi'n ystyried ei bod hi'n briodol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a allai gyfyngu ar weithgarwch osgoi y gall eraill deimlo ei fod yn briodol, a hynny heb i'r Senedd graffu'n llawn, fel y byddai'n digwydd pe bai cynigion o'r fath yn cael eu cynnwys mewn Bil gerbron y Senedd?

Amcangyfrifwyd bod osgoi ardrethi annomestig yn arwain at golli £10m i £20m bob blwyddyn mewn cyllid hanfodol ar gyfer gwasanaethau lleol. Nid yw'n deg i'r mwyafrif helaeth o dalwyr ardrethi sy'n talu'r hyn sy'n ddyledus ac mae'n cael effaith negyddol ar y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol ddarparu gwasanaethau i gymunedau ledled Cymru. Mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i roi ystod o gamau gweithredu penodol ar waith: mae'r rhain yn cynnwys datblygu darpariaethau gwrthweithio osgoi trethi.

Mae ein gwaith i fynd i'r afael ag osgoi trethi wedi tynnu sylw at gyfyngiadau presennol yn y fframwaith deddfwriaethol a'r angen am ddull mwy addasol o ymateb i faterion sy'n codi yn y dyfodol. Mae rhesymeg polisi a ystyrir yn ofalus yn sail i ddatblygu ein darpariaethau i atal osgoi trethi. Mae technegau i osgoi treth yn esblygu'n gyson mewn ffyrdd nad yw'n bosibl eu rhag-weld ac nid yw ardrethi annomestig yn eithriad. Mae angen y darpariaethau atal osgoi yn y Bil hwn, ynghyd â phŵer deddfu cyfyngedig priodol, i fynd i'r afael ag ymddygiadau osgoi penodol sydd wedi'u nodi mewn modd amserol. Bydd yn ofynnol i reoliadau bennu'r union ymddygiadau osgoi y bydd darpariaethau'r Bil yn cael eu defnyddio i'w gwrthweithio o bwynt mewn amser yn y dyfodol.

Byddai parhau i ddibynnu ar ddeddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â threfniadau osgoi unigol a nodwyd yn debygol o arwain at oedi sylweddol wrth roi newidiadau ar waith, gan adael y pwrs cyhoeddus yn agored i risg refeniw am gyfnod hwy. Bydd rheoliadau o'r fath yn destun gwaith craffu o dan y weithdrefn gadarnhaol.

- **Cwestiwn 15** - Pa gyfyngiadau sydd ar y pŵer i bennu trefniadau artiffisial a gynigir yn adran 13 o'r Bil a fyddai'n diogelu trethdalwyr sy'n ymwneud â chynllunio treth yn gyfreithlon?

Er mwyn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch yr ymddygiadau osgoi a fydd yn cael eu gwrthweithio, bydd rheoliadau'n disgrifio'r trefniadau osgoi artiffisial penodol a gaiff eu cwmpasu gan y darpariaethau. Mae'r diffiniad o “artiffisial” o fewn y Bil yn darparu ar gyfer cyfyngiadau pwysig a mesur diogelwch yn hyn o beth. Ni chaiff rheoliadau bennu ond math o drefniant na fyddai'n gyfystyr â chamau gweithredu rhesymol mewn perthynas â darpariaethau ardrethi annomestig, gan roi sylw i faterion a ragnodir o fewn y diffiniad. Ni fydd yn bosibl i reoliadau wrthweithio ymddygiadau osgoi mewn termau amhenodol neu gyffredinol ac ni fyddant yn gallu dadwneud na chosbi achosion o osgoi trethi a gododd cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

Bydd y rheoliadau hefyd yn gallu darparu ar gyfer mesur diogelwch ychwanegol i'r person gael ei drin fel atebol, lle bo'n briodol ar gyfer y math o drefniant a bennir. Bydd y mesur diogelwch yn galluogi'r awdurdod bilio neu Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'r rhestrau ardrethu lleol a chanolog, yn y drefn honno) i benderfynu nad yw trefniant yn artiffisial mewn achosion unigol, gan roi sylw i'r holl amgylchiadau. Bydd yr elfen hon o ddisgresiwn yn galluogi ystyriaeth i gael ei rhoi i unrhyw amgylchiadau sy'n berthnasol i'r unigolyn ac fe allai arwain at ddyfarniad nad yw'r trefniant yn artiffisial yn yr achos hwnnw. Os nodir trefniant o'r math a bennir mewn rheoliadau, bydd yn drefniant artiffisial y mae rhaid ei wrthweithio, hyd nes ac oni bai y penderfynir yn wahanol.

Mae'r pŵer cyfyngedig i wneud rheoliadau wedi'i fframio o fewn strwythur cyffredinol i'r darpariaethau sy'n egluro'r broses a ddefnyddir i ddisgrifio a gwrthweithio ymddygiadau osgoi a nodwyd. Bydd ymgynghoriad ar gynigion penodol yn sicrhau y gellir disgwyl i randdeiliaid wybod bod ymddygiad penodol wedi'i nodi a'i fod yn debygol o gael ei atal yn y dyfodol, cyn i reoliadau cael eu gwneud.  Mae ardrethi annomestig yn dreth leol ar fusnesau a sefydliadau eraill. Mae'n annhebygol y bydd trefniadau osgoi yn cael eu hecsbloetio ar eu pennau eu hunain neu yn absenoldeb cynghorwyr proffesiynol, y mae'n fusnes iddynt ddeall y datblygiadau polisi a deddfwriaethol diweddaraf er mwyn cynghori eu cleientiaid yn unol â hynny.

- **Cwestiwn 16** - Pam eich bod chi'n cynnig lefelau dirwyon uchaf yn y Bil ar gyfer cosbau ariannol ynghylch osgoi trethi artiffisial tra'n cynnig pwerau Harri VIII ar yr un pryd i gynyddu'r lefelau hynny, a sut fyddech chi'n ymateb i'r awgrym y gallai pennu lefelau uchaf yn y modd hwn gael ei ystyried yn gamarweiniol?

Mae'n bwysig ein bod yn gallu darparu ar gyfer cosbau sifil, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod dull gwirioneddol o atal ymddygiadau osgoi parhaus penodol. Heb hyn, bydd effeithiolrwydd y darpariaethau osgoi yn cael ei beryglu. Bydd y pŵer dan sylw yn sicrhau y gellir cadw'r gosb uchaf ar lefel briodol yn y tymor hwy. Nid yw pŵer o'r fath yn anarferol. Er enghraifft, mae pŵer tebyg eisoes ym mharagraff 6AA(6) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mewn perthynas â'r gosb y gellir ei gosod am fethu â darparu'r wybodaeth ofynnol. Mae'r pwerau hyn yn galluogi swm y gosb uchaf i gael ei ddiwygio os bydd newidiadau yn yr economi, er enghraifft, yn golygu bod y swm presennol yn dod yn amhriodol.  Bydd ymgynghoriad ar newidiadau a chyfathrebu clir er mwyn osgoi camarwain unrhyw un.

- **Cwestiwn 17** - Pa ddarpariaethau y byddech yn disgwyl eu gwneud mewn rheoliadau mewn perthynas â chasglu a gorfodi cosbau, a pham nad yw'r darpariaethau hynny wedi'u nodi ar wyneb y Bil?

Pan fydd talwr ardrethi yn parhau i fod yn rhan o'r trefniant osgoi artiffisial a nodwyd ar ôl y dyddiad perthnasol (yr hwyraf o: y diwrnod y gwnaed y trefniant, y diwrnod y daw'r rheoliadau i rym, neu ddiwrnod y darperir ar ei gyfer yn y rheoliadau), mae'r bil yn darparu y bydd yr awdurdod bilio yn dyroddi hysbysiad a fydd, i bob pwrpas, yn gofyn am dalu'r diffyg mewn atebolrwydd ers y dyddiad perthnasol. Y bwriad yw y bydd yr hysbysiad yn cynnwys terfyn amser ar gyfer talu a manylion y gosb y gellir ei chodi os na chaiff ei bodloni. Os na fydd y talwr ardrethi yn rhoi'r gorau i'r trefniant ac yn methu â thalu swm sy'n ddyledus o ganlyniad i wneud y trefniant, bydd yr awdurdod bilio wedyn yn gallu gosod cosb sifil (os bydd y rheoliadau'n nodi y gellir gosod cosb).

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r cwestiwn ai'r peth mwyaf priodol fyddai nodi manylion sy'n ymwneud â chasglu a gorfodi yn y Bil. Nodir y trefniadau presennol ar gyfer casglu a gorfodi atebolrwydd ardrethi annomestig mewn is-ddeddfwriaeth hirsefydlog (Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestr Ganolog) 1989). Pan fydd osgoi trethi yn cael ei wrthweithio gan ddefnyddio'r darpariaethau Bil, bydd y person atebol yn ddarostyngedig i'r rheoliadau casglu a gorfodi presennol yn barhaus. Bernir ei bod yn fwy priodol diwygio'r rheoliadau hynny, fel sy'n ofynnol yn y dyfodol, i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith casglu a gorfodi presennol. Bydd angen ystyried manylion y newidiadau hyn pan fyddwn yn gwneud rheoliadau o dan y darpariaethau atal osgoi trethi er mwyn pennu'r trefniadau artiffisial sydd i'w gwrthweithio.

<u>Y Dreth Gyngor</u>

- **Cwestiwn 18** - Rydych chi'n cyfeirio at y pŵer yn adran 17 yn cael ei ddefnyddio i newid labelu unrhyw strwythur bandiau. A yw hyn yn cyfeirio at y pwerau presennol yn Neddf Ardrethi Annomestig 1992 sy'n cael eu hailddatgan gan adran 17 o'r Bil hwn?

Mae Adran 17 o'r Bil yn rhyngwynebu ag adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn hytrach na Deddf Ardrethu Annomestig 1992. Mae adran 17(c) o'r Bil yn cynnwys ailddatganiad o adran 5(4)(a) a (b) bresennol o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r darpariaethau hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid nifer y bandiau a disgrifiadau (labeli) y bandiau hynny.

Mae adran 17(c) o'r Bil hefyd yn darparu pwerau newydd fel bod sail glir ar gyfer diwygio'r cyfeiriadau at "D" yn y fformiwlâu a ddarperir yn adrannau 36(1) a 47(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae hwn yn welliant technegol i ddarparu awdurdod clir ar gyfer diwygio'r fformiwlâu hynny fel bod y system yn dal yn gydlynol ac nid ydym wedi'n cyfyngu i ddefnyddio Band D fel y prif 'gyfeiriad' neu 'bwynt canol' yng nghyfrifiadau'r dreth gyngor. Nid yw'r newid yn y band y cyfeirir ato yn y fformiwlâu hynny yn effeithio ar y swm a delir am unrhyw fand pwynt canol.

- **Cwestiwn 19** - A ellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i ddileu'r disgownt person sengl yn llwyr, neu ofyn am brawf modd?

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Gweinidogion Cymru i leihau neu gynyddu lefel y ganran ar gyfer y disgownt person sengl, ond nid heb effeithio ar y disgownt ar gyfer eiddo heb breswylydd na lle mae'r holl breswylwyr yn cael eu diystyru, sy'n gorfod bod yn ddwywaith y swm. Bydd y Bil yn torri'r cyswllt cyfyngol hwn ac yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Weinidogion Cymru ychwanegu categorïau newydd o ddisgowntiau, neu i bennu amodau ar gyfer disgowntiau, gan gynnwys ardrethi newydd. Byddai newidiadau o'r

fath yn caniatáu i wahanol gyfraddau o ddisgowntiau gael eu cymhwyso i wahanol sefyllfaoedd.

Er hynny, rwyf wedi bod yn glir na fydd unrhyw newidiadau i ddisgownt person sengl presennol y dreth gyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae'r disgownt cael ei gadw ar wyneb y Bil felly ni ellir ei ddileu, ac rwyf wedi cadarnhau y bydd y disgownt ar gyfer aelwydydd un oedolyn yn dal yn 25%. Byddai'r Bil yn caniatáu i'r disgownt fod yn destun prawf modd os byddai hynny'n ddewis polisi yn y dyfodol.

- **Cwestiwn 20** - Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn cyfeirio at y Bil yn galluogi newidiadau yn ystod y flwyddyn i gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Sut y byddai'r pŵer i wneud cynllun cenedlaethol yn mynd i'r afael â chyfyngiadau ar wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn na allai'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud eu cynlluniau eu hunain wneud?

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gymeradwyo eu cynlluniau erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. O ganlyniad, ni all Gweinidogion Cymru wneud un offeryn statudol yn unig i ymgorffori newidiadau i'r system fudd-daliadau heb ei datganoli a diweddariadau eraill ar gyfer pob blwyddyn ariannol erbyn canol mis Ionawr.

Mae enghreifftiau diweddar o ble na fu newidiadau yn ystod y flwyddyn yn bosibl wedi cynnwys ymateb i'r pandemig ac i gynorthwyo pobl o Wcráin ac Affganistan. Yn yr achosion hyn, roedd Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar bwerau dewisol yr awdurdodau lleol i roi'r newidiadau hyn ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol y digwyddodd materion o'r fath, nes y gellid gwneud y "ddeddfwriaeth flynyddol" nesaf. Nid oes unrhyw sicrwydd, ychwaith, y byddai'r awdurdodau lleol yn defnyddio eu disgresiwn i wneud hynny.

Er nad yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn atal "newidiadau yn ystod y flwyddyn" yn benodol, effaith ymarferol ei gwneud yn ofynnol i awdurdod wneud neu ddiwygio cynllun yn flynyddol yw na ellir gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn. Byddai cynllun cenedlaethol, felly, yn caniatáu i'r rheoliadau gael eu newid yn gyflymach (gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth) i ddelio â materion newydd neu achosion brys.

<u>Darpariaethau Cyffredinol</u>

- **Cwestiwn 21** - Mae adran 14 o'r Bil yn ailddatgan darpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a rheoliadau. A yw pob un o'r pwerau yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn graffu gan y Senedd ag y maent ar hyn o bryd?

Mae adran 14 yn gyffredinol yn ailddatgan darpariaethau adran 143 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd ynghylch pwerau newydd Gweinidogion Cymru.

Byddai rheoliadau a wneir o dan baragraff 1(2) o Atodlen 4ZB i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu fel y'i drafftiwyd tra bo'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ar hyn o bryd. Mae'n briodol i'r weithdrefn gadarnhaol gael ei chymhwyso gan fod y pŵer yn galluogi fformiwla ar gyfer cyfrifo symiau a godir i gael eu disodli. Roedd hyn yn amryfusedd adeg ei gyflwyno a

byddwn yn ceisio gwelliant yng Nghyfnod 2 fel y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn dal yn gymwys.

Mae paragraff 6AA(6) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn bŵer i ddiwygio swm cosb sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ar hyn o bryd. O gofio natur y pŵer, dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Felly, mae'r adran newydd 143A(5)(n) yn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir o dan baragraff 6AA(6).

Cydsyniad y Brenin

- **Cwestiwn 22** – Dywedwyd wrthym y gofynnir am gydsyniad Ei Fawrhydi'r Brenin mewn perthynas â darpariaethau ardrethi annomestig yn ymwneud ag adran 5, adran 7, adran 10, adran 12 ac adran 13, ac "yn unol â phrosesau arferol", y gofynnir am y cydsyniad hwn ar ddiwedd Cyfnod 2. A yw'n arferol i drafodaethau rhagarweiniol gael eu cynnal gyda swyddfa Ei Fawrhydi'r Brenin ar faterion o'r fath?

Mae proses ar waith ar gyfer gohebu â'r Aelwyd Frenhinol a nodi'r darpariaethau y bernir bod arnynt angen cydsyniad.

Dod i rym

- **Cwestiwn 23** - A ddylai'r Bil gael ei basio a'i ddeddfu, pryd ydych chi'n gweld y bydd holl ddarpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'r Bil mewn grym yn llawn?

Mae ein hamserlen bresennol yn rhag-weld y caiff y Bil ei gyflwyno ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2024 os caiff ei basio gan y Senedd. Bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau'n cael eu cychwyn yn yr amserlen a bennir yn gyffredinol o ddau fis yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, gyda darpariaethau cyffredinol yn cael eu cychwyn y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol yn unol ag arfer gyffredin.

Bydd adrannau 6 (hereditamentau heb eu meddiannu : rhyddhad ardrethi elusennol), 10 ac 11 (Cyfrifo lluosyddion ardrethi annomestig) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025. Am resymau gweinyddol, bernir mai'r peth gorau yw i'r adrannau hyn gael eu cychwyn ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd.

Bydd Adran 12 (Gwybodaeth i'w darparu i swyddog prisio) yn cael ei chychwyn drwy offeryn statudol pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon y gellir disgwyl yn rhesymol i drethdalwyr gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd. Disgwylir i hyn ddigwydd yn ystod y rhestr ardrethu nesaf, a fydd yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 os caiff y Bil ei ddeddfu yn unol â'r cynnig.

Caiff adrannau 18 a 19 eu cychwyn ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Rydym yn aros am ganlyniad y gweithgorau a sefydlwyd i wneud y gwaith manwl i adolygu disgowntiau a diystyriadau'r dreth gyngor. Bwriad y polisi presennol yw y caiff rheoliadau eu gwneud ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2026, Yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r broses adolygu.

Cydgrynhoi yn y dyfodol

- **Cwestiwn 24** - Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Atodlen Keeling arwyddocaol. A roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth treth leol Cymru, neu'n gyffredinol i wneud y maes hwn o'r gyfraith yn fwy hygyrch?

Ystyriwyd ystod gynhwysfawr o opsiynau ar gyfer yr ymagwedd at y Bil hwn. Byddai cydgrynhoi deddfwriaeth yn y maes hwn yn ymgymeriad dwys a hirfaith, o gofio'r amser y mae'r ddeddfwriaeth wedi bod ar waith a'r llu o newidiadau a wnaed iddi dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae hygyrchedd y gyfraith wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r Bil hwn ac, o'r herwydd, mae darpariaethau'n cael eu hailddatgan mewn adrannau newydd lle y bernir bod hyn yn gwella cyflwyniad y gyfraith a fydd yn gymwys i Gymru yn unig.

Rwyf yn gobeithio y bydd fy ymatebion i'ch cwestiynau yn hwyluso ystyriaeth y pwyllgor o'r Bil hwn.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Atodiad A**

| **Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** | **Effaith** | **Pŵer cyfatebol yn Lloegr** | **Pŵer cyfatebol yn yr Alban** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid blwyddyn ailbrisio ardrethi annomestig neu'r cyfnod rhwng ailbrisio blynyddoedd drwy reoliadau. | Ddim pŵer cyfatebol. | Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o “year of revaluation” yn adran 37(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1975. | Mae pŵer gyda'r un effaith yn bodoli yn yr Alban. |
| 5 | Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi, amrywio neu dynnu rhyddhad yn ôl drwy reoliadau. | Pwerau mewn perthynas â rhai rhyddhadau yn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Pwerau eang i Weinidogion Cymru ragnodi rheolau i bennu'r swm sy'n daladwy yn adran 153 o Ddeddf Llywodraeth Leol etc (yr Alban) 1994 ac i wneud darpariaeth ynghylch rhyddhadau ar gyfer eiddo newydd a gwell yn adran 14 o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020. | Mae pwerau sydd ag effaith gyffredinol debyg yn bodoli yn yr Alban. Mae ystod eang o bwerau mwy penodol yn bodoli yn Lloegr (ac yng Nghymru ar hyn o bryd) nad ydynt yn gyson ar draws y dirwedd ryddhadau. |
| 9 | Yn disodli'r pŵer cyfyngedig presennol â phŵer newydd i Weinidogion Cymru roi, amrywio neu dynnu esemptiadau'n ôl, drwy reoliadau. | Pŵer cyfyngedig i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu eithriadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Pŵer i Weinidogion yr Alban ddileu eithriadau yn adran 8D o Ddeddf Prisio ac Ardrethu (yr Alban) 1956. | Mae pwerau tebyg yn galluogi esemptiadau i gael eu darparu yn Lloegr a'u dileu yn yr Alban. Bydd y pŵer yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y ddau. |

| **Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** | **Effaith** | **Pŵer cyfatebol yn Lloegr** | **Pŵer cyfatebol yn yr Alban** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|
| 10 | Yn ailddatgan pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â lluosyddion ac yn mewnosod pŵer newydd i bennu lluosyddion gwahaniaethol ar sail gwerth ardrethol hereditament, ei leoliad neu'r disgrifiad ohono ar restr ardrethi leol, neu ar sail gwerth ardrethol hereditament ar y rhestr ardrethu ganolog. | Pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ragnodi pa luosydd (busnes safonol neu fach) sy'n gymwys i wahanol hereditamentau ac i bennu'r lluosyddion hynny yn Atodlenni 4ZA a 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd blynyddol yn adran 7B o Ddeddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1975 a rhagnodi rheolau pellach i bennu'r swm sy'n daladwy yn adran 153 o Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (yr Alban) 1994. | Tebygrwydd ag effaith pwerau yn Lloegr a'r Alban. |
| 13 | Yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r math o drefniant sydd i'w drin fel un artiffisial ac a fydd trefniadau penodol yn peidio â chael eu trin fel rhai artiffisial os gwneir penderfyniad i'r perwyl hwnnw. | Ddim pŵer cyfatebol. | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau atal osgoi yn adran 37(1) o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020. | Mae pŵer tebyg yn bodoli yn yr Alban. Yn wahanol i Weinidogion yr Alban, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n galluogi cosb i gael ei gorfodi. Er hynny, mewn ffyrdd eraill, mae'r drefn atal osgoi yn yr Alban yn ehangach na'r dull arfaethedig yng Nghymru gan fod y Bil yn nodi dull penodol o fynd i'r afael ag ymddygiad osgoi. |
| 17 | Yn ailddatgan y pwerau i Weinidogion Cymru ddisodli cyfrannau a bandiau prisio. | Pwerau yn adran 5(4) o Ddeddf | Pwerau yn adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992. | Yn unol â Lloegr a'r Alban. |

| **Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** | **Effaith** | **Pŵer cyfatebol yn Lloegr** | **Pŵer cyfatebol yn yr Alban** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|
| | | Llywodraeth Leol 1992. | | |
| 17 | Yn darparu pwerau newydd i Weinidogion Cymru ddisodli'r band prisio a ddefnyddir yng nghyfrifiadau'r dreth gyngor. | Ddim pŵer cyfatebol. | Nid oes pŵer cyfatebol wedi'i nodi er nad oes unrhyw ddarpariaethau cyfrifo cyfatebol ar gyfer y dreth gyngor wedi'u nodi ychwaith. | Pŵer unigryw i Weinidogion Cymru. |
| 18 | Mae'r adran hon yn datgan darpariaethau sy'n ymwneud â'r disgownt person sengl a'r disgownt lle mae holl drigolion annedd yn cael eu diystyru.<br><br>Mae gweddill y darpariaethau'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r lefelau a rhagnodi amodau neu feini prawf sy'n gorfod bodoli i'r disgownt person sengl neu ddisgowntiau eraill fod yn gymwys a rhagnodi categorïau o breswylydd sy'n cael eu diystyru at ddibenion disgownt. Effaith hyn fydd gosod yr holl fanylion sy'n ymwneud â disgowntiau eraill ac amodau a disgrifiadau person sy'n cael ei ddiystyru at ddibenion disgownt i gyd mewn un lle o fewn rheoliadau. | Pwerau cyfyngedig yn adrannau 11 ac 11A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Pwerau cyfyngedig yn adran 79 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Mae bodolaeth y disgownt a'r disgownt person sengl lle mae holl drigolion annedd yn cael eu diystyru yn cael eu cynnal fel y maent yn Lloegr a'r Alban.<br><br>O ran y diwygiadau eraill, nid yw'r Alban na Lloegr yn bwriadu mabwysiadu'r un polisi ar hyn o bryd. |

Tudalen y pecyn 88

| Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) | Effaith | Pŵer cyfatebol yn Lloegr | Pŵer cyfatebol yn yr Alban | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | Yn cadw effaith adran 12 (1) o Ddeddf 1992 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau ddosbarthiadau o anheddau y caiff awdurdod bilio drwy ddyfarniad naill ai ddatgymhwyso neu leihau disgownt mewn perthynas â hwy. | | | |
| 19 | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cynllun cenedlaethol ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn os oes angen.<br>Caiff y ddyletswydd ei harfer gan Weinidogion Cymru i nodi cynllun gostyngiadau cenedlaethol gyda dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun ar lefel leol.<br>Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r cynllun i ymateb i sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg. | Pwerau yn adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Pwerau yn adran 80 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Yn unol â'r Alban yn fras lle mae cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor cenedlaethol. Yn Lloegr mae pŵer o hyd i wneud rheoliadau ynghylch symiau wedi'u gostwng. |
| 21 | Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cylch ailbrisio rheolaidd i'r dreth gyngor yng Nghymru, gydag ailbrisiadau wedi'u trefnu yn cael eu cynnal bob pum mlynedd. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau lle y byddai'n | Pwerau yn adran 22B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i bennu'r dyddiad ailbrisio. Gellid | Pŵer i bennu dyddiad ailbrisio drwy'r addasiadau sy'n cael effaith drwy adran 88(3)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Yn Lloegr a'r Alban yn y drefn honno, gall Gweinidogion y DU a Gweinidogion yr Alban ddefnyddio gorchmynion i amserlennu ailbrisiadau. |

| Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) | Effaith | Pŵer cyfatebol yn Lloegr | Pŵer cyfatebol yn yr Alban | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | fuddiol i ddyddiad ailbrisiad wedi'i drefnu gael ei newid – er enghraifft, os bydd pandemig arall neu anwadalrwydd economaidd. Felly, mae'r Bil yn caniatáu i'r flwyddyn ailbrisio gael ei symud. | defnyddio'r pŵer hwn hefyd i ddiwygio ailbrisio a oedd wedi'i amserlennu. | | |
| 21 | Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i gopi o'r rhestr brisio newydd ddrafft gael ei anfon i awdurdodau bilio o fewn saith mis i'r dyddiad y mae'r rhestr newydd yn cael ei chwblhau ac y daw i rym. Gydag ailbrisiadau amlach, gallai'r dyddiad cau hwn ddod yn anymarferol. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y newid technegol hwn i derfyn amser y rhestr ddrafft os bydd angen. | Ddim pŵer cyfatebol. | Pŵer i bennu dyddiad ailbrisio drwy'r addasiadau sy'n cael effaith drwy adran 88(3)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Yn unol â'r Alban. |
| 23 | Yn galluogi darpariaeth ganlyniadol a throsiannol i gael ei gwneud. | O ran ardrethi annomestig - pwerau yn adran 17 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023.<br><br>O ran y dreth gyngor - pwerau | O ran ardrethi annomestig – pwerau yn adran 43 o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020.<br><br>O ran y dreth gyngor - pwerau yn adran 114 o | Yn unol â Lloegr a'r Alban. |

| **Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** | **Effaith** | **Pŵer cyfatebol yn Lloegr** | **Pŵer cyfatebol yn yr Alban** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|
| | | yn adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | |
| 24 | Yn galluogi darpariaethau yn y Bil i gael eu cychwyn. | O ran ardrethi annomestig – pwerau yn adran 19 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023.<br><br>O ran y dreth gyngor – pwerau yn adran 119 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | O ran ardrethi annomestig a'r dreth gyngor – adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol yn yr Alban 2003. | Yn unol â Lloegr a'r Alban. |
| Paragraff 12(2)(m) o'r Atodlen | Yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr hysbysiadau y gellir eu cyhoeddi o dan baragraffau 4M a 5ZC o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Rhoddir yr un pŵer is-ddeddfwriaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Lloegr, ym mharagraff 5F(A1) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid | Mae pwerau is-ddeddfwriaeth tebyg yn bodoli i Weinidogion yr Alban yn adran 30(12) o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020. | Yn unol â Lloegr a'r Alban yn fras. |

| **Adran o Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** | **Effaith** | **Pŵer cyfatebol yn Lloegr** | **Pŵer cyfatebol yn yr Alban** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|
| | | Llywodraeth Leol 1988. | | |
| Paragraff 12(2)(n) o'r Atodlen | Yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gynyddu neu leihau swm unrhyw gosb a roddir o dan baragraffau 5ZC neu 5ZD o Atodlen 9 i Ddeddf  Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Rhoddir yr un pwerau is-ddeddfwriaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Lloegr, ym mharagraff 5FB o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | Mae pwerau deddfwriaethol eilaidd tebyg yn bodoli i Weinidogion yr Alban yn adran 30(8) o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020. | Yn unol â Lloegr a'r Alban yn fras. |

**Atodiad B**

**Achlysuron ers 2011 lle y mae deddfwriaeth Llywodraeth y DU wedi'i defnyddio i gyflawni newidiadau i'r dreth gyngor ac NDR yng Nghymru**

| Teitl y ddeddfwriaeth | Blwyddyn | Diben y ddeddfwriaeth |
|---|---|---|
| Deddf Lleoliaeth | 2011 | Diben cyffredinol y darpariaethau oedd gwella rhyddid llywodraeth leol i weithredu.<br><br>Diwygiodd darpariaethau Ddeddf Ychwanegiadau Ardrethi Busnes 2009 i ddarparu y byddai angen i bob cynnig ar gyfer gosod atodiad ardrethi gael ei u gymeradwyo gan bleidlais o'r holl bersonau sy'n gymwys i bleidleisio yn hytrach na'r sefyllfa flaenorol lle nad oedd angen pleidlais ond pe bai'r atodiad yn ariannu mwy nag un rhan o dair o gyfanswm cost y prosiect yr oedd yr atodiad yn ymwneud ag ef.<br><br>Diwygiodd darpariaethau hefyd adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ddisodli'r amgylchiadau cyfyngedig lle gallai'r awdurdodau lleol ddarparu rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl disgresiwn â phŵer i roi rhyddhad ardrethi o dan unrhyw amgylchiadau. Roedd hyn yn ddarostyngedig i'r amod na all yr awdurdod lleol, ac eithrio o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a nodwyd, roi rhyddhad ond os byddai'n rhesymol gwneud hynny gan roi sylw i fuddiannau talwyr y dreth gyngor yn ei ardal. Roedd y diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a ddylid rhoi rhyddhad o dan adran 47. |
| Deddf Cyllid Llywodraeth Leol | 2012 | Darpariaethau sy'n diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i alluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru (yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddod â Budd-dal y Dreth Gyngor i ben).<br><br>Darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau gyhoeddi gwybodaeth ragnodedig am y dreth gyngor ac ardrethu annomestig mewn modd rhagnodedig.<br><br>Pwerau gweithredol i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cyflwyno pwerau i ymchwilio ac erlyn twyll a gwallau gordalu tebyg i'r rhai y gellid eu defnyddio mewn perthynas â thwyll budd-dal y dreth gyngor. |

| Teitl y ddeddfwriaeth | Blwyddyn | Diben y ddeddfwriaeth |
|---|---|---|
| Deddf Twf a Seilwaith | 2013 | Symudwyd y bwriad i ailbrisio ardrethi annomestig 2015 i 2017 yn dilyn gorchymyn a wnaed o dan bwerau a fewnosodwyd yn Neddf 1988. |
| Deddf Menter | 2016 | Darpariaethau i ddileu rhwystr rhag gweinyddu ardrethi annomestig yn effeithlon drwy alluogi data penodol CThEM/VOA ynghylch eiddo i gael ei rannu ag awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| Deddf Telathrebu a Seilwaith (Rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig) | 2018 | Cyflwynodd y darpariaethau ar gyfer Cymru gynllun rhyddhad pum mlynedd ar gyfer band eang ffeibr.<br><br>O safbwynt datblygu economaidd, y bwriad oedd ysgogi buddsoddiad mewn ffeibr, ond hefyd annog cystadleuaeth gan ddarparwyr llai mewn marchnad sy'n tueddu i gael ei monopoleiddio gan un chwaraewr mawr. |
| Deddf Ardrethu (Eiddo Mewn Meddiannaeth Gyffredin) a'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag) | 2018 | Darpariaeth ar gyfer newidiadau i brisio eiddo annomestig mewn meddiannaeth gyffredin at ddibenion ardrethu.  Am resymau amseru, yn y diwedd, roedd y Bil yn gymwys i Loegr yn unig. |
| Deddf Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) | 2018 | Roedd y ddarpariaeth yn ceisio sicrhau bod tir ac adeiladau meithrinfeydd a phlanhigion yn parhau i fod wedi'u hesemptio rhag ardrethi annomestig.  Dilynodd benderfyniad gan y Llys Apêl a wnaeth wyrdroi dull blaenorol y VOA sef darparu esemptiad rhag atebolrwydd ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath.<br><br>Y diben oedd osgoi effeithiau cost anghymesur ar y sectorau ffermio a chynhyrchu bwyd yng Nghymru. |
| y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) | 2019 | Diben y Bil oedd pennu ailbrisio ar gyfer 2021.<br>**Noder:** methodd y Bil oherwydd bod Senedd y DU yn cael ei haddoedi, ond cafodd ei ailgyflwyno. |
| Fil Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) | 2019 | Y diben oedd neilltuo atebolrwydd ardrethi annomestig sero i doiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain.<br><br>Bwriad y polisi oedd cynyddu argaeledd toiledau cyhoeddus yng Nghymru (a oedd yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd).<br>**Noder:** methodd y Bil oherwydd bod Senedd y DU yn cael ei haddoedi, ond cafodd ei ailgyflwyno. |

| Teitl y ddeddfwriaeth | Blwyddyn | Diben y ddeddfwriaeth |
|---|---|---|
| y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) | 2020 | Gwnaeth y Bil ddwyn ymlaen y broses ailbrisio ardrethi annomestig o 2022 i 2021 ac addasu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o Fis Medi i fis Rhagfyr yn y flwyddyn ailbrisio flaenorol. Cafodd ei ddisodli gan Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021. |
| Deddf Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) | 2021 | Y diben oedd neilltuo atebolrwydd ardrethi annomestig sero i doiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain. |
| Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2) / Deddf Ardrethu Annomestig (Rhestri) | 2021 | Diben y Bil oedd gohirio'r dyddiad ailbrisio ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2022 i 1 Ebrill 2023 ac addasu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ailbrisio flaenorol. |
| Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) | 2021 | Cafodd apeliadau newid perthnasol mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig â Covid ar gyfer ardrethi annomestig eu tynnu'n ôl (arweiniodd hyn at reoliadau a ddatblygwyd ar gyfer 1 Ebrill 2023 ymlaen). |
| Deddf Ardrethu Annomestig | 2023 | Newidiadau amrywiol gan gynnwys y gallu i gyflwyno rhyddhadau newydd cyn y Bil, gan ganiatáu i fwy o wybodaeth gael ei rhannu â thalwyr ardrethi, a sefydlu'r rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes*.<br><br>Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023 gyda'r rhyddhadau newydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2024. |

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Rhagfyr 2023

Annwyl Rebecca,

Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Cyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Rhagfyr 2023

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 11 Rhagfyr i drafod Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).. Dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda chwestiynau nad oeddem, oherwydd cyfyngiadau amser, wedi gallu gofyn i chi yn ystod y cyfarfod. Mae'r cwestiynau hyn i'w gweld yn yr Atodiad.

Gwnaethoch hefyd gytuno i roi mwy o fanylion inni am yr ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i hawliau dynol wrth baratoi'r Bil, yn enwedig mewn perthynas ag adrannau 6 a 12 (gweler paragraff 10 o'r trawsgrifiad). Yn ogystal, gwnaethoch gytuno i ddarparu'r asesiad sy'n eich arwain at y casgliad nad yw'r pwerau eilaidd yr ydych yn eu ceisio yn y Bil hwn yn mynd yn sylweddol bellach na'r pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion y DU (gweler paragraff 75 o'r trawsgrifiad).

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'n cwestiynau a'r wybodaeth ychwanegol erbyn dydd Iau 18 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

<u>Cyffredinol</u>

Cwestiwn 1 - Wrth edrych yn ôl, ydych chi'n credu y byddai hi wedi bod yn well i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil yn gynharach er mwyn ymgorffori'r newidiadau a wnaed mewn perthynas â Chymru gan *Ddeddf Ardrethi Annomestig 2023* yn hytrach na dibynnu ar Lywodraeth y DU a Bil y DU a'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol canlyniadol?

Cwestiwn 2 - A oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch hygyrchedd y gyfraith ar ardrethi annomestig o ganlyniad i ddatblygu'r Bil hwn a hefyd gweithio ar yr un pryd â Llywodraeth y DU ar Ddeddf 2023?

Cwestiwn 3 - Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi bod y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ar gyllid llywodraeth leol yn cyfyngu ar allu'r Llywodraeth i wneud addasiadau amserol ar gyfer aelwydydd, trethdalwyr a busnesau. A allech chi egluro pa gyfyngiadau yr oeddech yn cyfeirio atynt?

Cwestiwn 4 - a) Yn y Memorandwm Esboniadol, wrth drafod a allai darpariaethau sylweddol fod wedi'u nodi'n briodol ar wyneb y Bil, daethoch i'r casgliad "er y gallai manylion gael ei hoptimeiddio ar gyfer yr amgylchiadau cyfredol – eu bod yn annhebygol o sefyll prawf amser". Pa ddarpariaethau yr ydych yn cyfeirio atynt? b) Pam na fyddai hi wedi bod yn gynnig gwell i gynnig deddfwriaeth sylfaenol i ymdrin â'r amgylchiadau presennol ac yna cyflwyno bil arall yn y dyfodol pan y bydd angen newid pellach wedi'i nodi?

Cwestiwn 5 - Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y cynigion yn y Bil sy'n rhoi cyfle i "graffu'n fanylach ar ddeddfwriaeth yng Nghymru". A allech chi egluro pam eich bod chi'n meddwl bod hynny'n wir a pham na fyddai'n fwy priodol disodli Bil y DU â Bil Llywodraeth Cymru?

Cwestiwn 6 - Rydych chi wedi datgan, ers 2011, fod angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Biliau Llywodraeth y DU o leiaf 13 gwaith i gyflawni newidiadau angenrheidiol i'n systemau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. a) A allech chi egluro pa newidiadau yr oeddech yn cyfeirio atynt? b) Beth oedd y rhesymau pam na wnaeth y Llywodraeth achub ar y cyfle i gynnig deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd ar bob un o'r achlysuron hynny?

Cwestiwn 7 - Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, yn ystod ei waith ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) (cyn iddo ddod yn Fil 2022), dywedodd Syr Paul Silk mai gwaith y ddeddfwrfa yw sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cadw ac nad yw'n ildio ei rôl ddeddfwriaethol ("it is the job of the legislature to ensure that appropriate checks are kept in place and that it does not surrender its legislative role"). Pam eich bod chi'n credu nad yw'r Senedd mewn perygl o wneud hynny yn y maes hwn o drethiant Cymreig os caiff y Bil hwn ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol?

Cwestiwn 8 - Pam na fyddai hi'n fwy priodol i benderfyniadau sylweddol ynghylch atebolrwydd am drethi lleol aros gyda'r Senedd a bod yn destun craffu manwl?

Ardrethi Annomestig

Cwestiwn 9 - Yn y Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y pwerau i roi, amrywio neu dynnu rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl, rydych yn nodi bod pwerau presennol Gweinidogion Cymru yn anghyson â darpariaethau a gymerir ym Miliau Senedd y DU ar sawl achlysur i alluogi rhyddhad ardrethi newydd yng Nghymru. a) Pam eich bod chi'n credu mai'r ffordd i ddatrys hyn yw mwy o bwerau gwneud rheoliadau Harri VIII i'r Llywodraeth? ? b) Pam nad yw'n ateb gwell i'r Senedd graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol a'i phasio, ac y gellid cyflymu'r broses lle bo angen?

Cwestiwn 10 - Mewn perthynas â rhyddhad ar gyfer eiddo a feddiennir, mae adran 5(2) o'r Bil yn mewnosod pŵer newydd ym mharagraff 9A o Atodlen 4ZA i *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* i Weinidogion Cymru newid y rheolau ym mharagraff 9 o'r Atodlen pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys. Nid ydym yn credu bod y pŵer yn cyfeirio at Ran 3A newydd o'r Atodlen a fewnosodwyd gan adran 5(2). A ydych yn fodlon bod drafftio adran 5(2) yn cyflawni ei fwriad? Os na, ydych chi'n credu bod oes angen gwelliant i'r Bil?

Cwestiwn 11 - Mae'n ymddangos bod y Datganiad o Fwriad Polisi yn cyfiawnhau cymryd pwerau i roi, amrywio a thynnu'n ôl esemptiadau ardrethi annomestig ar sail darparu cysondeb rhwng pwerau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a'r pwerau arfaethedig newydd ar gyfer rhyddhad a) Pam eich bod chi'n ystyried hyn yn sail briodol ar gyfer cymryd pwerau Harri VIII eang i bennu esemptiadau treth? b) Pa esemptiadau posibl sydd wedi'u nodi a fyddai'n cyfiawnhau cymryd y pŵer hwn?

Cwestiwn 12 - Mae'r Bil yn cynnig pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o eiddo. Fodd bynnag, mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi "ni fwriedir defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd". Sut ydych chi'n cyfiawnhau cymryd y pŵer hwn os nad oes gennych unrhyw gynlluniau i'w ddefnyddio?

Cwestiwn 13 - Mae Rhan 3A o *Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* yn nodi'r rheol yn erbyn osgoi trethi gyffredinol ar gyfer trethi datganoledig. Ydych chi'n credu y byddai'n well dilyn yr enghraifft honno yn y Bil hwn a phennu egwyddorion cyffredinol mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer penderfynu a yw trefniadau ardrethu annomestig yn artiffisial?

Cwestiwn 14 - Pam eich bod chi'n ystyried ei bod hi'n briodol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a allai gyfyngu ar weithgarwch osgoi y gall eraill deimlo ei fod yn briodol, a hynny heb i'r Senedd graffu'n llawn, fel y byddai'n digwydd pe bai cynigion o'r fath yn cael eu cynnwys mewn Bil gerbron y Senedd?

Cwestiwn 15 - Pa gyfyngiadau sydd ar y pŵer i bennu trefniadau artiffisial a gynigir yn adran 13 o'r Bil a fyddai'n diogelu trethdalwyr sy'n ymwneud â chynllunio treth yn gyfreithlon?

Cwestiwn 16 - Pam eich bod chi'n cynnig lefelau dirwyon uchaf yn y Bil ar gyfer cosbau ariannol ynghylch osgoi trethi artiffisial tra'n cynnig pwerau Harri VIII ar yr un pryd i gynyddu'r lefelau hynny, a sut fyddech chi'n ymateb i'r awgrym y gallai pennu lefelau uchaf yn y modd hwn gael ei ystyried yn gamarweiniol?

Cwestiwn 17 - Pa ddarpariaethau y byddech yn disgwyl eu gwneud mewn rheoliadau mewn perthynas â chasglu a gorfodi cosbau, a pham nad yw'r darpariaethau hynny wedi'u nodi ar wyneb y Bil?

Y Dreth Gyngor

Cwestiwn 18 - Rydych chi'n cyfeirio at y pŵer yn adran 17 yn cael ei ddefnyddio i newid labelu unrhyw strwythur bandiau. A yw hyn yn cyfeirio at y pwerau presennol yn *Neddf Ardrethi Annomestig 1992* sy'n cael eu hailddatgan gan adran 17 o'r Bil hwn?

Cwestiwn 19 - A ellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i ddileu'r disgownt person sengl yn llwyr, neu ofyn am brawf modd?

Cwestiwn 20 - Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn cyfeirio at y Bil yn galluogi newidiadau yn ystod y flwyddyn i gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Sut y byddai'r pŵer i wneud cynllun cenedlaethol yn mynd i'r afael â chyfyngiadau ar wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn na allai'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud eu cynlluniau eu hunain wneud?

Darpariaethau Cyffredinol

Cwestiwn 21 - Mae adran 14 o'r Bil yn ailddatgan darpariaethau yn *Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a rheoliadau. A yw pob un o'r pwerau yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn graffu gan y Senedd ag y maent ar hyn o bryd?

Cydsyniad y Brenin

Cwestiwn 22 – Dywedwyd wrthym y gofynnir am gydsyniad Ei Fawrhydi'r Brenin mewn perthynas â darpariaethau ardrethi annomestig yn ymwneud ag adran 5, adran 7, adran 10, adran 12 ac adran 13, ac "yn unol â phrosesau arferol", y gofynnir am y cydsyniad hwn ar ddiwedd Cyfnod 2. A yw'n arferol i drafodaethau rhagarweiniol gael eu cynnal gyda swyddfa Ei Fawrhydi'r Brenin ar faterion o'r fath?

Dod i rym

Cwestiwn 23 - A ddylai'r Bil gael ei basio a'i ddeddfu, pryd ydych chi'n gweld y bydd holl ddarpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'r Bil mewn grym yn llawn?

Cydgrynhoi yn y dyfodol

**Cwestiwn 24** - Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Atodlen Keeling arwyddocaol. A roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth treth leol Cymru, neu'n gyffredinol i wneud y maes hwn o'r gyfraith yn fwy hygyrch?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2634/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Ionawr 2024

Annwyl Huw a John,

Mae'r llythyr hwn i'ch hysbysu fy mod, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Senedd mewn perthynas ag Offeryn Statudol y DU:

**Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024**

Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yma.

Rwy'n ystyried bod y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaethau o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Tai ac Adfywio 2008, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nad ydynt yn ddarpariaethau sy'n rhai deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol nac arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig y gallwch ei weld yma.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Eitem 13



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

RSPCA CYMRU

# Briefing document

## Animal Welfare (Livestock Exports) Bill

On December 18, the Welsh Government laid a Legislative Consent Memorandum (LCM) recommending that the Senedd supports proposals for a ban on the exportation of livestock to be applied to Wales. The confirmation of the Welsh Government's support for such a ban is very much welcome, following decades of campaigning for such action by the RSPCA. The Animal Welfare (Livestock Exports) Bill is a UK Government bill that seeks to create a new legal framework, prohibiting the export of relevant livestock for the purpose of slaughter or fattening for slaughter. The bill passed its second reading in the House of Commons in December, with the third reading having taken place on January 15 - it will now be passed to the House of Lords for further scrutiny. Meanwhile, the Economy, Trade and Rural Affairs Committee and the Legislation, Justice and Constitution Committee have both been asked to consider and report to the Senedd on the bill by March 15.

### The need for a ban on live exports

Due to the significant animal welfare concerns around live exports, the RSPCA has been calling for a ban on this practice for more than 50 years. A UK-wide ban on live exports was previously unachievable as our membership of the European Union coincided with a requirement for free trade between members. Now that we have left the European Union, the UK Government has brought forward the aforementioned bill to end the future exportation of livestock for fattening and slaughter, with this being among the commitments made in the UK Conservatives' 2019 manifesto.

The UK's current rules on the live exportation of animals date from 2005 and are implemented through devolved legislation such as the Welfare of Farmed Animals (Transport) (Wales) Order 2007. The rules set out the conditions for the commercial transport of animals and state that animals should not be injured or subject to unnecessary suffering while being transported. Specific limits on journey times for animals - on land and at sea - are also set out in legislation, alongside the authorisation process for transporters, vehicles and ships. The maximum journey times permitted vary according to species and the conditions of the transporting vehicle. As it stands, up to 19 hours is allowed for unweaned animals such as calves, 24 hours for horses and pigs and 29 hours for sheep and cattle. However, after these periods, if the animals are provided with a 24 hour rest period, the journey time is reset until the destination is reached.

The number of farm animals exported from the UK to Europe for slaughter or further fattening has slowly declined since 2000 - falling from 752,000 to 44,300 in 2016[1]. Previously, the majority of farmed animals exported from the UK were sheep, along with a smaller number of cattle, pigs, goats and equines. However, the exportation of livestock from the UK has not happened since the UK Government first announced a prohibition on this practice in 2020. A lack of required control posts at Calais has effectively blocked the only route that was previously used to export animals directly from the UK to Europe. However, this could change if different routes were chosen or if control posts were introduced at Calais. With no ban on the exportation of livestock for fattening and slaughter purposes in place as it stands, this cruel and unnecessary practice could be legally recommenced at any time. Granting legislative consent to

1 https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC6912543/

a ban on live exports would offer an extra layer of protection to countless farm animals in the years to come while further demonstrating Wales' commitment to animal welfare.

## Animal welfare concerns around live exports

Long journey times pose several animal welfare risks such as acute stress, dehydration, exhaustion and injury. Animals can experience a range of problems as a result of being transported for long periods in sub-optimal conditions as a result of the use of inappropriate stocking densities with inadequate ventilation/temperature control systems and unsuitable feeding and watering facilities. Live exports involve complex journeys and can be associated with very long transport times, which is particularly problematic as evidence indicates that animal welfare worsens as journey times increase. According to a recently published research briefing on the Animal Welfare (Livestock Exports) Bill, the shortest direct to slaughter export journey from GB to continental Europe in 2018 was a journey time of 18 hours. Most domestic journeys to slaughter in the UK are significantly shorter and therefore pose far less risk to animal welfare. Some journeys involving the export of live animals from the UK to Europe have been known to take up to 96 hours, during which time animals could be suffering both physically and mentally.

Other welfare concerns include the insufficient enforcement of existing rules once the animals leave the UK and the possibility that animals can be exported to countries where animal welfare standards are lower than the UK and exposed to practices that would be illegal here. Because of this, the RSPCA strongly believes that animals should only be transported when necessary and that a ban on live exports is both well-needed and long overdue.

## Conclusion

The RSPCA strongly believes that all farm animals should be slaughtered as close to where they are reared as possible, resulting in any export trade being carcass-only. Being subject to long journeys in cramped conditions has the potential to cause animals to become mentally exhausted, physically injured, dehydrated and stressed, directly contradicting the Welsh Government's ambition to ensure that every animal has a good quality of life.

A ban on live exports was previously among the commitments made in the withdrawn Kept Animals Bill - a piece of legislation which had strong cross-party support in the Senedd. A focus on the welfare of farmed animals is among the Welsh Government's relevant commitments with the introduction of mandatory CCTV in abattoirs imminent. The introduction of the Sustainable Farming Scheme in 2025 also has the potential to reward farmers who adhere to high standards of animal health and welfare, with the Welsh Government having committed to restricting the use of cages for farmed animals too. The LCM relevant to a ban on live exports therefore provides an important opportunity for the Welsh Government and Members of the Senedd to further demonstrate their support for improving the lives of farm animals in Wales.

As animal welfare is a devolved matter, specific decisions relating to the enforcement of a ban on live exports - for example, giving powers of entry, inspection, search and seizure in relation to live animal export offences to a particular agency - will be made by the Welsh Government. With the Welsh Government having indicated its support for a ban on live exports and that it is appropriate for all relevant provisions to be made in the UK Government's bill, we strongly encourage the Economy, Trade and Rural Affairs Committee and the Legislation, Justice and Constitution Committee to support the LCM that has been laid before the Senedd.

**Recommendation: To prevent the future suffering of farm animals as a result of long journeys in cramped conditions, we strongly recommend that the Economy, Trade and Rural Affairs Committee and the Legislation, Justice and Constitution Committee supports the LCM on live exports.**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

29 Ionawr 2024

**Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan**

Annwyl Huw,

Diolch am eich ymateb diweddar ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan.

Trafododd y Pwyllgor Busnes eich llythyr yn ein cyfarfod ar 23 Ionawr, ochr yn ochr ag ymatebion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fforwm y Cadeiryddion. Gwnaethom hefyd ystyried gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad sy'n nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Gwnaethom gytuno i rannu'r ymatebion a gafwyd â'r rhai sydd â diddordeb agos yn y materion hyn er mwyn rhoi cyfle iddynt nodi unrhyw safbwyntiau pellach ar y mater, cyn inni ddychwelyd at drafod a ddylid cynnig diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog ai peidio.

Amgeaf yr ohebiaeth a gafwyd fel y gallwch ei hystyried. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r mater hwn unwaith y bydd ein trafodaethau wedi dod i ben, ond nid yw'r ohebiaeth wedi'i chyhoeddi eto.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Chwefror. Diolch ichi am roi sylw i'r mater pwysig hwn.

Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Rhagfyr 2023

Annwyl Elin,

Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2023, ac am y cyfle i roi sylwadau ar gynigion y Pwyllgor Busnes ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd sy'n ceisio mynd i'r afael ag argymhellion y Pwyllgor ynghylch effaith bosibl Deddf Marchnad Fewnol y DU ar ddeddfwriaeth a ystyrir gan y Senedd. Trafododd y Pwyllgor eich llythyr a phapur y Pwyllgor Busnes atodedig yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr.

Er nad yw'r Pwyllgor am wneud sylw penodol ynghylch drafftio'r Rheolau Sefydlog, ar sail ein profiad diweddar gyda Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod dogfennau esboniadol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad o effaith bosibl Deddf Marchnad Fewnol y DU ar y ddeddfwriaeth honno.

Roeddent yr un mor gefnogol i'r cynigion i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad am effaith deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU a allai effeithio ar werthu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Gobeithio y bydd y cyfraniad hwn yn ddefnyddiol i waith y Pwyllgor Busnes yn y maes hwn.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Y Pwyllgor Busnes
Drwy e-bost

8 Ionawr 2024

**Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan**

Annwyl Bwyllgor Busnes

Trafododd Fforwm y Cadeiryddion eich llythyr a'r cynigion ar gyfer newidiadau gweithdrefnol a allai fod yn ofynnol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr.

Roedd y Cadeiryddion yn fodlon ar y cyfan â'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd ynghylch effaith bosibl Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau polisi cyffredin ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei thrafod gan y Senedd a seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, roedd y Cadeiryddion yn awyddus i adael trafodaeth fanwl am y cynigion i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a oedd wedi codi'r mater hwn yn wreiddiol gyda'r Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Elin Jones AS
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Senedd Cymru

SeneddBusiness@senedd.wales

18 Ionawr 2024

Rwy'n ysgrifennu yn sgil cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 14 Tachwedd 2023 a oedd yn trafod ystyriaethau gweithdrefnol sy'n deillio o effeithiau ymarferol Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (y Ddeddf), a'r Fframweithiau Cyffredin ar gyfer y DU, ar ddeddfwriaeth y Senedd. Hefyd, cyfarfu fy swyddogion â swyddogion y Senedd ym mis Rhagfyr 2023 er mwyn deall y materion hyn yn fwy manwl. Hoffwn roi sylw i rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y Pwyllgor Busnes, a chadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru.

Mae'r papur ar gyfer y Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion sy’n ymwneud â newidiadau i Reolau Sefydlog er mwyn sicrhau'r canlynol: bod dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Biliau ac Is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad o effeithiau Deddf Marchnad Fewnol y DU; bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch effaith deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU a allai, oherwydd y Ddeddf honno, effeithio ar werthu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru; bod gwybodaeth yn cael ei darparu am effeithiau Fframweithiau Cyffredin y DU ar ddeddfwriaeth y Senedd.

**Newidiadau arfaethedig ar gyfer cynnwys asesiad o effeithiau Deddf Marchnad Fewnol y DU**

Rwy'n deall gan swyddogion bod y cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog yn codi o bryderon penodol sydd gan y Senedd ynghylch argaeledd gwybodaeth ar sut y gallai effeithiau ymarferol agweddau ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, yn enwedig egwyddorion mynediad at y farchnad sy'n gysylltiedig â chyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu, ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn nodi barn y Senedd nad yw hyn yn ymwneud â safbwynt Llywodraeth Cymru, sef

nid yw darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar allu'r Senedd i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi eu datganoli. Yn hytrach, rwy'n deall bod y cynigion yn ymwneud yn unig ag effeithiau posibl rhai o'r egwyddorion a'r gofynion a nodir yn y Ddeddf. Er mwyn egluro, mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn parhau fel a ganlyn: lle mae'r Senedd yn deddfu mewn meysydd nad ydynt wedi'u cadw yn ôl, ni fydd egwyddorion a gofynion Deddf Marchnad Fewnol y DU yn berthnasol ac felly ni fydd yr effeithiau posibl y cyfeirir atynt uchod yn berthnasol.

Mae'r Senedd wedi nodi y gallai'r Ddeddf gael effaith bosibl ar effeithiolrwydd deddfwriaeth sydd wedi ei gwneud yng Nghymru, ac mae wedi nodi enghreifftiau penodol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio gyda'r nod o osgoi'r effeithiau hyn[1]. Darparwyd gwybodaeth am y materion hyn yn ystod y broses graffu, ac mae disgwyl y dylid cynnwys materion o'r fath yn y Memorandwm Esboniadol lle bo hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn gynamserol (ac yn ddiangen) diwygio Rheolau Sefydlog at y diben hwn, ac mae'n awgrymu bod swyddogion yn adolygu canllawiau i sicrhau eu bod yn glir y dylai Memoranda Esboniadol gynnwys trafodaeth ar unrhyw oblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU lle bo hynny'n briodol. Rydym o'r farn bod hyn yn ddull mwy cymesur o ymdrin â'r ystyriaethau perthnasol, ond rydym yn cydnabod y dylid parhau i adolygu'r sefyllfa wrth inni ddod i ddeall goblygiadau'r Ddeddf yn well. Mae'r ystyriaethau perthnasol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Ddeddf yn parhau i fod yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n cael ei herio ac sydd heb ei diffinnio'n glir mewn rhannau, ac sydd heb ei brofi yn y llys hyd yn hyn.
- Mae rhannau o'r Ddeddf yn agored o ran sut y maent yn gallu cael eu dehongli, gan greu ansicrwydd sylweddol ynghylch ei heffeithiau ehangach posibl ar weithredu polisi a deddfwriaeth.
- Dim ond ychydig iawn o gynigion ar gyfer deddfwriaeth Cymru sydd hyd yma wedi bod yn berthnasol i'r Ddeddf mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau proses newydd.
- Mae sefydlu gofyniad fel Rheol Sefydlog newydd yn debygol o arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan greu gwaith ychwanegol a dargyfeirio adnoddau deddfwriaethol, polisi a chyfreithiol prin tuag at gynnal asesiadau diangen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gweithredu cyfnod o fonitro dros y 12 mis nesaf, yn unol â'r ansicrwydd a'r ystyriaethau uchod. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu canllawiau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn cael ei chynnwys mewn Memoranda Esboniadol lle bo hynny'n briodol.

**Hysbysu ynghylch effaith deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU**

Rwy'n deall nad yw'r Senedd yn credu bod Rheol Sefydlog addas ar hyn o bryd ar gyfer galluogi Llywodraeth Cymru i hysbysu'r Senedd am achosion lle y byddai

[1] Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru); a Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

deddfwriaeth o awdurdodaethau eraill y DU, oherwydd Deddf Farchnad Fewnol y DU, yn cael canlyniadau i Gymru a pholisi Llywodraeth Cymru. Yr enghraifft a roddwyd oedd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl). Nid oedd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn cytuno â dadansoddiad Llywodraeth Cymru bod effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar y Bil yn fater cymhwysedd deddfwriaethol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod prosesau eisoes yn bodoli ar gyfer hysbysu'r Senedd, ac roeddem yn anghytuno ag asesiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad o ran defnyddio Rheol Sefydlog 29 mewn perthynas â'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl). Fodd bynnag, os caiff y Rheol Sefydlog arfaethedig ei hailddrafftio i sicrhau ei bod yn fecanwaith dewisol, ac nid yw'n creu rhwymedigaethau newydd i Lywodraeth Cymru, ni fyddem yn gwrthwynebu iddi gael ei chreu.

**Rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol**

Cyfeiriodd papur y Pwyllgor Busnes at rôl bosibl Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r mynediad dealledig sydd gan Lywodraeth Cymru at allu ac arbenigedd y dadansoddwyr yn y Swyddfa honno. Hoffwn egluro nad yw Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn un o adnoddau Llywodraeth Cymru, ac er ein bod yn gallu gofyn am ddadansoddiad ganddi, y Swyddfa ei hun fyddai â'r disgresiwn i benderfynu a yw am wneud hynny ai peidio. Yn ogystal â hyn, mae cylch gwaith y Swyddfa wedi'i gyfyngu'n llwyr i effeithiau economaidd polisïau, ac nid yw'n ystyried materion ehangach, gan gynnwys iechyd y cyhoedd neu ddiogelu'r amgylchedd. Ni all y Swyddfa roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar ein deddfwriaeth ni.

**Fframweithiau Cyffredin**

O ran Fframweithiau Cyffredin, nid wyf yn credu bod angen newid y Rheolau Sefydlog. Dylai pwyllgorau perthnasol y Senedd fod yn cael eu hysbysu eisoes am ddeddfwriaeth newydd y DU sy'n dod o dan Fframwaith Cyffredin, a dyma'r hyn sydd wedi digwydd yn ddieithriad hyd yma. Ysgrifennais at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 2 Mawrth 2022, gan dderbyn ei argymhelliad ar y mater hwn.

Rwy'n deall y bydd y mater hwn yn cael ei drafod eto gan y Pwyllgor Busnes. Tra mae'r mater o dan ystyriaeth gan y Pwyllgor, bydd fy swyddogion yn ystyried ymarferoldeb yr uchod, gan weithio gyda chi i ddod o hyd i'r ateb mwyaf priodol.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Copïau at: Y Prif Weinidog; Gweinidog yr Economi; Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Rhagfyr 2023

Annwyl Lywydd,

Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Diolch am eich llythyr ar 22 Tachwedd 2023 yn amgáu papur a newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog er mwyn ymdrin ag effaith *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf 2020) a fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU.

Rydym yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion penodol sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Busnes, sy'n ceisio rhoi sylw i argymhelliad 2 yn ein hadroddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) (adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Technoleg Enetig), yn ogystal â materion a godwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd.

Fel y nododd y Pwyllgor Busnes yn ei bapur, ein prif bryder fu sicrhau bod y Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â Bil yn cynnwys gwybodaeth (os yw'n gymwys) am effeithiolrwydd y Bil wrth gyflawni ei amcanion (pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu) o ystyried darpariaethau Deddf 2020 a'r

egwyddorion mynediad at y farchnad y mae'n eu cyflwyno. Nododd ein hadroddiad ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) y mater eang fel a ganlyn:

> *"os caniateir i fusnesau yn Lloegr werthu cadeiriau gwyrdd, gellir gwerthu'r cadeiriau hynny yn gyfreithlon yng Nghymru hyd yn oed os oes deddf sy'n gwahardd gwerthu cadeiriau gwyrdd yng Nghymru."*

Fel y cyfryw, rydym yn credu, er enghraifft, pe bai Bil yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn cynnig gwahardd gwerthu cadeiriau gwyrdd yng Nghymru, y dylai'r Memorandwm Esboniadol dynnu sylw at y ffaith y gallai busnesau yn Lloegr werthu cadeiriau gwyrdd yn gyfreithlon yng Nghymru, os caniateir i fusnesau yn Lloegr werthu cadeiriau gwyrdd. Rydym yn credu bod hyn yn ystyriaeth bwysig i'r Aelodau sy'n craffu ar Fil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn credu y byddai cynnwys Rheol Sefydlog 26.6(xiii) newydd, sef "nodi effaith bosibl (os o gwbl) Deddf 2020 ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil, pe bai'n cael ei ddeddfu", o fudd i helpu pwyllgorau i graffu ar Fil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn credu y byddai'n cyfrannu i sicrhau ei bod yn glir i ddinasyddion sut y mae'r gyfraith yn gymwys iddynt hwy yng Nghymru, pwynt a wnaethom yn ein hadroddiad blynyddol diweddar.

Rydym yn nodi mai'r bwriad yw cymhwyso'r gofyniad hwn i Filiau cyhoeddus a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn unig. Fodd bynnag, byddai'n well gennym i'r Rheolau Sefydlog sy'n galluogi Memoranda Esboniadol Biliau cyhoeddus a gyflwynir gan Aelod o'r Senedd neu un o bwyllgorau'r Senedd nodi effaith bosibl Deddf 2020, a fyddai hefyd yn tynnu sylw at yr angen i roi rhywfaint o ystyriaeth i'r mater. Mae'n debygol y byddai ein gwaith craffu ar unrhyw Fil cyhoeddus a gyflwynir gan Aelod o'r Senedd neu bwyllgor yn gofyn am wybodaeth am effaith Deddf 2020 ar ei gynigion (pan fo angen), yn anad dim oherwydd yr egwyddor ceisio pennu effeithiolrwydd y darpariaethau mewn Bil, o ganlyniad i Ddeddf 2020, yn dal i fod yn gymwys.

Gwnaethom fabwysiadu'r dull hwn mewn perthynas â'r Bil a gyflwynwyd gan Peter Fox AS, ond byddem hefyd yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'i Fil eisoes wedi esbonio bod ei gynnig wedi'i gyfyngu gan Ddeddf 2020 (gweler paragraff 304 o'r Memorandwm Esboniadol a'n hadroddiad dilynol).

Rydym hefyd o'r farn ei bod yn werth mynd ar drywydd Rheolau Sefydlog 26B.9(xiv) newydd ar gyfer Biliau Hybrid, Rheolau Sefydlog 26C.9(x) ar gyfer Biliau Cydgrynhoi a Rheol Sefydlog 27.1.

O ran y cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog 30D newydd, rydym yn gwneud y sylwadau a ganlyn.

O ran Rheol Sefydlog 30D.1 newydd, rydym o'r farn y gallai fod yn werth ei wneud yn un sy'n galluogi ac felly newid "rhaid" i "caiff". Yn ein hadroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig, gwnaethom ddod i'r casgliad nad oedd Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) Llywodraeth y DU, mewn gwirionedd, yn ein barn ni, yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29, ac y gallai

Rheol Sefydlog arall fod wedi'i defnyddio fel modd o drafod pwnc y Memorandwm. Byddai Rheol Sefydlog 30D.1, yn ddarostyngedig i'r diwygiad rydym yn ei awgrymu, yn ein barn ni, fod yn ychwanegiad defnyddiol at y Rheolau Sefydlog a darparu cyfrwng mwy priodol i dynnu sylw'r Senedd, er enghraifft, at Filiau'r DU Lloegr yn unig (fel y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a allai effeithio ar gyfraith bresennol Cymru o ganlyniad i Ddeddf 2020. Gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig i drafod y materion a gynhwysir yn y Datganiad Ysgrifenedig pe bai am wneud hynny.

O ran Rheol Sefydlog 30D.3(v) newydd, rydym yn credu y gallai fod yn werth cynyddu'r cyfnod a bennir (tri diwrnod gwaith ar hyn o bryd) gan y gallai'r materion hyn fod yn eithaf cymhleth.

O ran Rheolau Sefydlog 30D.2 a 30D.4 newydd, mae'r rhain yn ymwneud ag argymhellion sy'n codi o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn y Bumed Senedd. Er y byddai cynyddu tryloywder materion sy'n ymwneud â fframweithiau cyffredin o fudd, rydym wedi ymgymryd â rôl oruchwylio mewn perthynas â'u paratoi ac am y rheswm hwnnw, gallai pwyllgorau eraill fod mewn sefyllfa well i ystyried a yw'r Rheolau Sefydlog arfaethedig yn briodol. O'n safbwynt ni, rydym yn croesawu'r ymatebion rydym wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru pan rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth ac eglurder ar y materion hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd